Dadansoddi ar gyfer Polisi

Ymchwil cymdeithasol

Rhif: 46/2014

www.cymru.gov.uk

# Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Ymchwil i lefel yr angen a'r cymorth presennol a roddir i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion cymorth yn y Gymraeg

# Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Ymchwil i lefel yr angen a'r cymorth presennol a roddir i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion cymorth yn y Gymraeg

**Kathryn Jones, IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith**
**Arvind Bhatt, Ymgynghorydd ar addysg amlieithog a SIY**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid o raid farn Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Martina Aumeyr
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Tel: 029 2080 1125
Ebost: **martina.aumeyr@wales.gsi.gov.uk**
Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
ISBN 978-1-4734-1221-7
© Hawlfraint y Goron 2014

## Tabl cynnwys


1 Cyflwyniad ... 1
2 Methodoleg ... 19
3 Adolygiad o arferion da wrth ddarparu cymorth iaith ychwanegol ... 27
4 Y sefyllfa bresennol mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog 37
5 Y sefyllfa bresennol mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid ... 78
6 Adolygu cymorth CIY presennol yn erbyn arfer SIY da ... 92
7 Casgliadau ac argymhellion ... 106
Atodiad 1 Cyfieithiad Cymraeg o'r 'Five Stage Model of English as an Additional Language Acquisition' ... 117
Atodiad 2 Gorolwg o ymweliadau astudiaeth achos i ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid ... 119
Atodiad 3 Ffurflen Casglu Data Gwaelodlin ALL CIY 2013 ... 122
Atodiad 4 Canllaw Cyfweliad Ffôn ALl ... 134
Atodiad 5 Cwestiynau Cyfweliadau Astudiaethau Achos ... 138
Atodiad 6 Llyfryddiaeth arfer da yn y maes SIY ... 150

## Mynegai Tablau

Tabl 1: Nifer cyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog (3-4 oed) ac ysgolion cynradd (5-11 oed) ........................................................45
Tabl 2: Nifer ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog ...................47
Tabl 3: Nifer cyn-ysgolion gyda disgyblion CIY .............................................50
Tabl 4: Nifer ysgolion cynradd gyda disgyblion CIY ......................................55
Tabl 5: Nifer ysgolion uwchradd gyda disgyblion CIY ...................................59
Tabl 6: Nifer Canolfannau Hwyrddyfodiaid ....................................................79

## Mynegai o Flychau Astudiaeth Achos

Blwch 1: Astudiaeth achos – data CIY a gasglwyd gan ysgolion i asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr ..............................................................63
Blwch 2: Astudiaeth achos – llyfrgell adnoddau EMAS ...............................64
Blwch 3: Astudiaeth achos – dwyn y rhieni i mewn ....................................66
Blwch 4: Astudiaeth achos – cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei gyllido’n allanol .........................................................................................68
Blwch 5: Astudiaeth achos – cefnogi newydd-ddyfodiad ............................70
Blwch 6: Astudiaeth achos – hyfforddi athrawon i helpu i gefnogi disgyblion CIY ................................................................................................72
Blwch 7: Astudiaeth achos - darparu cymorth gydag ieithoedd yr ysgol a’r cartref .........................................................................................74
Blwch 8: Astudiaeth achos – cydgordio rhwng ysgolion .............................76
Blwch 9: Astudiaeth achos – detholion o bolisi CIY ac SIY ysgol ................77
Blwch 10: Astudiaeth achos - Cymorth Canolfannau Hwyrddyfodiaid i ddisgyblion and rhieni ..................................................................82
Blwch 11: Astudiaeth achos – Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn dwyn rhieni i mewn i gefnogi eu plentyn i ddysgu Cymraeg ..............................82
Blwch 12: Astudiaeth achos – esiampl o lefelau asesu Canolfannau Hwyrddyfodiaid ..........................................................................84

Blwch 13: Astudiaeth achos – Yr her ychwanegol a wynebir gan ddisgyblion CIY/SIY mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid ................................84
Blwch 14: Astudiaeth achos – Cyngor a hyfforddiant Canolfannau Hwyrddyfodiaid i athrawon ysgol ar gynorthwyo disgyblion CIY....89
Blwch 15: Astudiaeth achos – darparu cymorth wrth ddychwelyd i'r ysgol ....91

## Geirfa Acronymau

| | |
|---|---|
| AB | Addysg Bellach |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| CA | Cyfnod Allweddol |
| CAAA | Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig |
| CC | Cyfrwng-Cymraeg |
| CCI | Cofnod Caffael Iaith |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CD | Cynorthwyydd Dosbarth |
| C'ddD | Cymhorthydd Dysgu |
| CGE | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| CIY | Cymraeg fel Iaith Ychwanegol |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DCSF | Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd [Lloegr] ('Department for Children, Schools and Families') |
| DPP | Datblygu Proffesiynol Parhaus |
| EALAW | 'English as an Additional Language Association of Wales' |
| EFL | Saesneg fel Iaith Dramor ('English as a Foreign Language') |
| EMA | Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ('Ethnic Minority Achievement') |
| EMAS | Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ('Ethnic Minority Achievement Service') |
| FfLlRh | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd |
| GEMS | Gwasanaeth Aml-Ethnig Addysg Gwent ('Gwent Education Multi-Ethnic Service') |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| L1 | Dysgwr iaith gyntaf |
| L2 | Dysgwr ail iaith |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| MEAG | Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ('Minority Ethnic Achievement Grant') |
| MELAP | Prosiect Iaith a Chyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ('Minority |

| | |
|---|---|
| | Ethnic Language and Achievement Project’) |
| NALDIC | Cymdeithas Genedlaethol Datblygu Iaith yn y Cwricwlwm (‘National Association of Language Development in the Curriculum’) |
| NASSEA | ‘Northern Association of Support Services for Equality’ |
| NWEMA HUB | ‘North West Ethnic Minority Achievement Hub’ |
| NWREN | ‘North Wales Race Equality network’ |
| OECD | Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd Rhyngwladol (‘Organisation for Economic Co-Operation and Development’) |
| PADP | Proffil Asesu Datblygiad Plentyn |
| PISA | Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (‘Programme for International Student Assessment’) |
| SAIL | ‘School Action Intervention for Literacy’ |
| SATEAL | ‘Scottish Association for Teachers of English as an Additional Language’ |
| SCEC | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| SIY | Saesneg fel Iaith Ychwanegol |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |

# Crynodeb Weithredol

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect ymchwil Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY). Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i lefel bresennol y galw am gymorth gyda Chymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY) i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig (DLIE) mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid i drwytho yn y Gymraeg, a faint ohono sydd ar gael. Defnyddir CIY i gyfeirio at y sefyllfa "*lle bo gan ddisgybl iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg ond lle mae'n dilyn addysg cyfrwng-Cymraeg ac felly angen cymorth er mwyn mynd at y cwricwlwm cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg*"[1].

2. Cyllidwyd yr ymchwil gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SCEC) dan Raglen Weithredol ar gyfer Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) (Blaenoriaeth 1 CGE). Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng Ebrill 2013 ac Ionawr 2014.

3. Gwelodd Llywodraeth Cymru (LlC) '*ddiffyg eglurder ynghylch y cymorth iaith Gymraeg'* sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i ddisgyblion DLIE mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog. Mae ansicrwydd hefyd ynglŷn â maint y galw am gymorth iaith o'r fath, gan nad yw casglu data trwy CYBLD (PLASC) a dulliau eraill yn nodi lefel yr angen am gymorth CIY. Mae hyn wedyn yn peri rhywun i holi a oes angen am wasanaeth CIY diffiniedig mewn lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg tebyg i'r gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) sydd eisoes wedi hen sefydlu mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg.

4. Nod y prosiect ymchwil hwn yw:
    - canfod cyfanswm nifer y disgyblion o gefndiroedd DLIE sydd angen cefnogaeth CIY;

[1] Dyfarnu Cyllid yng nghyswllt y Cynllun Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig 2013-14, Atodlen 1, t.3, 4 Ebrill 2013.

- dod i ddeall y prosesau a'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael i gefnogi disgyblion CIY i gaffael y Gymraeg a chyrchu'r cwricwlwm;
- nodi arfer effeithiol a bylchau yn y gwasanaethau presennol a ddarperir i ddisgyblion DLlE sydd angen cymorth gyda CIY;
- bod yn sail o wybodaeth i ddatblygu mwy o waith ymchwil yn y maes polisi hwn.

**Tri grŵp diddordeb**

5. Yn unol â brîff yr ymchwil, mae'r boblogaeth ar gyfer y prosiect ymchwil hwn yn cynnwys:
   - disgyblion DLlE tair i 19 oed mewn ysgolion[2], nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf ac y mae lefel eu cyrhaeddiad mewn Saesneg a Chymraeg angen cymorth ychwanegol (yn amodol ar gael eu hasesu);
   - disgyblion DLlE, tair i 19 oed, nad oes ganddynt unrhyw anghenion am gymorth gyda CIY ond sydd yn tangyflawni[3];
   - disgyblion DLlE, tair i 19 oed sydd angen cymorth i ennill cymwysterau yn iaith eu cartref.

6. Efallai y bydd ar rai disgyblion DLlE, nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, hefyd angen cymorth wedi ei dargedu i godi eu cyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, at ddibenion yr astudiaeth hon, mae'r disgyblion DLlE hynny y tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn. Mae hyn wedi seilio ar y rhagdyb na fyddai eu hanghenion am gaffael y Gymraeg neu gymorth gyda'r iaith yn wahanol i rai disgyblion o gefndiroedd eraill

7. Ceisiodd yr astudiaeth hon nodi lefelau angen y disgyblion DLlE am gymorth CIY. Mae'r diffiniad bras o angen, y gellir hawlio arian Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) amdano, yn cael ei briodoli i bob

[2] Nid yw lleoliadau Addysg Bellach (AB) o fewn cwmpas yr astudiaeth hon.
[3] At ddibenion yr astudiaeth hon, yr oedd brîff yr ymchwil yn diffinio'r disgyblion hynny fel rhai heb unrhyw anghenion cymorth CIY uniongyrchol, ond sydd yn 'tangyflawni' o ran eu lefelau cyrhaeddiad yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

cam, o Gam A pan fo dysgwr yn ‘newydd i’r Saesneg’ ac ‘angen cryn dipyn o gymorth’ i Gam E pan fydd yn ‘rhugl’ ac yn ‘gweithredu heb gymorth SIY ar draws y cwricwlwm’.

**Methodoleg**

8. Golygodd yr astudiaeth hon adolygu cyhoeddiadau academaidd, dogfennau polisi ac adroddiadau. Yr oedd yr ymchwil gwreiddiol yn cynnwys: holiadur i’r 22 ALl yng Nghymru; cyfweliadau gydag arweinyddion y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) ym mhob ALl a rhanddeiliaid polisi ac addysgol allweddol. Gwnaed ymweliadau astudiaeth achos ag 11 o ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog a phedair Canolfan Hwyrddyfodiaid, lle cyfwelwyd rheolwyr yr ysgol, y staff dysgu a disgyblion CIY.

**Canfyddiadau Allweddol**

*Ymwybyddiaeth, eglurder a chysondeb o ran ‘CIY’*

9. Mewn ALl ledled Cymru, yr oedd lefel yr ymwybyddiaeth a’r profiad o gynorthwyo disgyblion CIY yn amrywio’n fawr ymysg yr arweinwyr EMAS a gyfwelwyd a’r lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg yr ymwelwyd â hwy. Athrawon disgyblion CIY oedd yn dod i mewn i addysg cyfrwng -Cymraeg ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen oedd leiaf ymwybodol o wahaniaethau posibl yn anghenion cymorth disgyblion CIY a’r rhai oedd yn siarad Saesneg. Yr oedd ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid gyda phrofiad o ddisgyblion yn cyrraedd tua diwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn hŷn ( ‘hwyrddyfodiaid’ fel y’u gelwir) yn gwybod yn iawn fod gan ddisgyblion CIY anghenion penodol ar wahân am gymorth iaith o gymharu â rhai disgyblion Saesneg eu hiaith, ac yr oeddent yn croesawu’r ffaith fod materion CIY yn cael eu cydnabod trwy’r astudiaeth hon.

10. Gwelodd yr astudiaeth hon ddiffyg eglurder a chysondeb o ran statws a defnydd ‘CIY’ ar draws polisi’r llywodraeth. Nid yw’n syndod fod hyn yn

cael ei adlewyrchu yn y diffyg ymwybyddiaeth ac arfer safonol a ddeilliodd o hyn ar lefel ALl ac ysgolion. Tynnodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith nad oes ar hyn o bryd ddiffiniad o 'ddisgybl CIY' nac yn benodol 'anghenion CIY. Yn gyffredinol yn y sector cyfrwng-Cymraeg, nid oedd cydnabyddiaeth eang na gwreiddio cysyniad CIY a SIY ymhlith uwch-reolwyr yr ysgol, i osgoi ei wthio i'r ymylon.

*Fframwaith Asesu CIY*

11. Nid oes fframwaith asesu safonol, penodol i CIY, yn cael ei ddefnyddio ar draws pob ALl, yn wahanol i SIY. Mewn wyth ALl, mae ysgolion ar hyn o bryd yn asesu cynnydd disgyblion mewn Cymraeg gan ddefnyddio'n unig asesiadau statudol y cwricwlwm cenedlaethol, ac nid yw timau EMAS yn ymwneud â'r asesiadau hyn. O fewn cylch gorchwyl yr asesiad statudol, ni wahaniaethir rhwng disgyblion CIY a disgyblion heb CIY.

12. Mae dau ALl fel arfer yn asesu'r galw am gymorth CIY trwy ddefnyddio cyfieithiad Cymraeg o'r Model Pum Cam SIY. Defnyddir hyn fel canllaw yn unig oherwydd ei gyfeiriadau at lefelau cyrhaeddiad Saesneg. Dywedodd y deuddeg ALl arall, pan/petai'n rhaid iddynt asesu anghenion CIY disgyblion, eu bod yn defnyddio'r Model Pum Cam SIY i lunio eu hasesiad a dyrannu cymorth.

13. O'r consensws a gafwyd o EMAS, EALAW a chyfweliadau gydag athrawon, gwelwyd bod i'r Model Pum Cam SIY y swyddogaethau buddiol a ganlyn: i) rhoi pwysiad a dyrannu cyllid MEAG ymysg ALl; ii) gwneud penderfyniadau dros dro ynghylch dyraniadau cymorth; a iii) hysbysu athrawon am lefelau hyfedredd cyffredinol disgyblion SIY/CIY.

14. O'r herwydd, yr oedd yr arweinwyr EMAS ac EALAW yn gweld bod y model yn rhyw fath o ddull (cyfyngedig, rhaid cyfaddef) o asesu hyfedredd cyffredinol disgybl mewn CIY. Fodd bynnag, pwysleisiodd arweinwyr EMAS ac EALAW mai model asesu 'bras, ffit gorau' yw Model Pum Cam

SIY nad yw'n ddigonol i asesu cynnydd datblygiadol yn fanwl a thros amser mewn Cymraeg na Saesneg.

15. Cynigiodd EALAW ac EMAS fodel cenedlaethol manylach a mwy soffistigedig o ddatblygiad iaith ychwanegol ar gyfer SIY/CIY fel y gallai ysgolion ac ALl ei ddefnyddio fel dull cyson o olrhain datblygiad disgyblion SIY/CIY. Cynigiasant hefyd y gallai model o'r fath o bosib gael ei asio â'r model pum cam presennol, a'i ategu, oherwydd bod y camau cynnydd yn y model pum cam yn fras yn briodol.

*Argaeledd ac ansawdd data CIY*

16. Ni fedrodd y rhan fwyaf o ALl ddarparu data cyflawn na manwl gywir ynghylch nifer y disgyblion CIY. Felly, nid yw'r ffigyrau meintiol a gyflwynwyd ym Mhennod 4 yn ddibynadwy ym mhob achos; dylid eu hystyried fel rhai dangosol yn unig a'u trin yn ofalus. Ymhellach, nid yw'n bosib yn gyffredinol canfod pa lefel o gymorth y gall disgyblion CIY fod ei angen. Defnyddiwyd data ansoddol a gasglwyd o ymweliadau astudiaethau achos a chyfweliadau i driongleiddio data meintiol.

17. Mae'r bylchau a'r problemau ansawdd ynghylch data penodol i CIY a ddarparwyd gan y rhan fwyaf o arweinwyr EMAS yn adlewyrchu diffyg canllawiau clir ar lefel polisi LlC. Mae'n adlewyrchu absenoldeb fframwaith asesu cydnabyddedig cenedlaethol CIY i ganfod a chofnodi camau'r disgyblion i gaffael CIY a lefel y cymorth iaith Gymraeg sydd ei angen.

*Maint y boblogaeth CIY yn y sector cyfrwng-Cymraeg*

18. Awgryma data dangosol am nifer y disgyblion CIY yn y sector cyfrwng-Cymraeg fod gan fwyafrif yr ALl (15 o 22) ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog gyda disgyblion CIY yn 2013.

19. Yn ôl y data a ddarparwyd gan ALl, mae rhwng 98 a 295 o ddisgyblion CIY mewn cyn-ysgolion y tu mewn i leoliadau statudol;[4] rhwng 460 a 1240 mewn ysgolion cynradd, a rhwng 228 a 430 mewn ysgolion uwchradd. O ran cyfanswm y boblogaeth ysgolion yng Nghymru yn 2013[5], lleiafrif bychan yw carfan y disgyblion CIY. Fodd bynnag, dengys astudiaethau achos a chyfweliadau fod asesu a chefnogi hyd yn oed nifer fechan o ddisgyblion CIY yn her ychwanegol yn y sector addysg cyfrwng-Cymraeg.

20. Mae 22 Canolfan Hwyrddyfodiaid mewn naw ALl. Dywedwyd bod pedwar deg un o ddisgyblion cynradd a chwech o ddisgyblion uwchradd CIY oedd wedi 'cyrraedd yn hwyr' wedi derbyn cymorth gan Ganolfannau Hwyrddyfodiaid yn ystod 2013. Dilysodd arweinwyr EMAS y data hwn gyda'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac y mae'n fwy dibynadwy felly na data ar ddisgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog i'r naw ALl hyn.

21. Dengys data meintiol, astudiaethau achos a chyfweliadau mai ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion CIY. Fodd bynnag, ymddengys bod mwyafrif y disgyblion CIY yn 'ddisgyblion ynysig' gyda dim ond un i bump o ddisgyblion CIY mewn ysgol.

*Angen disgyblion CIY am gymorth ychwanegol*

22. Dywedodd arweinwyr EMAS ac athrawon a gyfwelwyd mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid fod gan ddisgyblion CIY nad ydynt yn siarad Saesneg fel arfer anghenion am gymorth ychwanegol gydag iaith, o gymharu â dysgwyr Cymraeg sydd yn gallu siarad Saesneg. Yn wahanol i ddisgyblion Saesneg eu hiaith, yr oedd disgyblion CIY yn wynebu'r her o ddeall trefniadau ac arferion eu hamgylchedd dysgu newydd, a chyfathrebu gyda chyfoedion a staff. Roedd hyn yn waeth pan nad oedd

[4] Rhoddodd 17 o 22 ALl ddata ar nifer y cyn-ysgolion yn eu hardaloedd.
[5] Roedd 464,868 o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn ysgolion ledled Cymru yn 2013 (CYBLD 2013).

gan athrawon na'r disgyblion eraill wybodaeth o iaith gyntaf/aelwyd y disgybl, a lle nad oedd dim neu fawr ddim cyfleusterau na chymorth cyfieithu. I rai disgyblion CIY, yr oedd cael eu dysgu'n ffurfiol mewn ysgol yn brofiad newydd. Yr oedd bod yn newydd i lythrennedd yn eu hiaith eu hunain yn ogystal ag mewn Saesneg a Chymraeg hefyd yn ffactor cyffredin. Mewn achosion eraill, yr oedd disgyblion CIY oedd yn gyfarwydd ag arferion llythrennedd yn eu hiaith/hieithoedd eu hunain yn newydd i gonfensiynau ysgrifennu'r wyddor newydd. Fel 'hwyrddyfodiaid' tua diwedd y Cyfnod Sylfaen neu tu hwnt, mae disgyblion CIY/SIY yn wynebu mwy o her na 'hwyrddyfodiaid' Saesneg eu hiaith pan fo angen iddynt gaffael y ddwy iaith ar yr un pryd.

23. Dengys yr astudiaeth hon fod angen mwy o ymchwil i gael mwy o fanylion am y cymorth iaith ychwanegol y mae ar ddisgyblion CIY ei angen, a sut y mae'r anghenion hyn yn wahanol i anghenion cymorth iaith dysgwyr Cymraeg sy'n siarad Saesneg. Ymysg meysydd y dylai'r cyfryw ymchwil ymdrin â hwy mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau yn y ffordd mae disgyblion CIY a rhai sy'n siarad Saesneg yn caffael iaith a llythrennedd mewn Cymraeg - fel plant ifanc sy'n dechrau dod yn ddwyieithog/amlieithog yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac fel disgyblion o 'hwyrddyfodiaid' yn y cyfnodau addysg wedi hynny.

24. Nid oedd digon o ddata ar gael i roi unrhyw arwydd manwl gywir o nifer y disgyblion CIY oedd heb anghenion cymorth CIY ond a oedd yn 'tangyflawni'. Canfu'r  astudiaeth dystiolaeth fod gan ysgolion systemau i asesu lefelau cyrhaeddiad disgyblion CIY o ran deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw data am gyrhaeddiad disgyblion DLIE yn cael eu rhannu fel mater o drefn rhwng ysgolion ac EMAS. Fe wnaeth ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion ddod o hyd i rai disgyblion CIY oedd yn 'tangyflawni' ac yr ystyriwyd bod ganddynt anghenion dysgu yn ychwanegol at CIY a SIY. Mae cyfweliadau astudiaeth achos a chyda rhanddeiliaid yn awgrymu, yn niffyg asesiadau cychwynnol wedi eu cynnal yn iaith gyntaf disgybl, ei bod yn anodd i athrawon nodi beth yw achosion tangyflawni yn achos rhai disgyblion CIY.

25. Canfu'r astudiaeth nad yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn rhoi llawer o gyfle i ddisgyblion sefyll arholiad TGAU yn eu hiaith/ieithoedd gyntaf/ yr aelwyd. Am eu bod yn anghyflawn, nid yw data meintiol yr astudiaeth hon yn ddibynadwy. Fodd bynnag, canfu data ansoddol ac ymchwil blaenorol am gefnogaeth ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru[6] mai cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion yn y sector cyfrwng-Cymraeg i ddysgu ac ennill cymwysterau yn eu hieithoedd cyntaf/ieithoedd yr aelwyd.

*Cymorth a roddir i ddisgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid*

26. Nododd yr astudiaeth hon nifer o nodweddion cymorth CIY effeithiol: cymorth CIY wedi ei deilwrio yn ofalus i ddisgyblion unigol ar sail eu hanghenion a aseswyd ac agweddau cynhwysol at ddarparu cymorth. Mae disgyblion CIY yn caffael sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm prif-ffrwd. Mewn rhai ALl, mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn rhoi cymorth cychwynnol i drochi mewn Cymraeg, ac y mae amser hyn yn gyfyngedig ac yn canoli yn benodol ar ddysgu'r geirfaoedd a'r patrymau iaith allweddol wedi eu teilwrio i'w pynciau cwricwlwm.

27. Dywedodd ysgolion yr astudiaethau achos ei bod yn haws darparu cymorth i ddisgyblion CIY sydd yn cyrraedd yn y Cyfnod Sylfaen, oherwydd cymarebau staffio uwch a chyfle i gynnal grwpiau ymyriad bach. Yn CA2, CA3 a CA4, mae cymorth wedi ei dargedu yn yr ysgol yn dueddol o gael ei roi gan amrywiaeth o athrawon cefnogi, gyda pheth cefnogaeth unigol yn cael ei roi gan EMAS neu Athrawon Bro[7], fel y maent ar gael.

[6] CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, a CILT, the National Centre for Languages (2010) Darparu cymorth i ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: Adroddiad ymchwil, comisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

[7] Sefydlwyd y tîm Athrawon Bro cyntaf ddiwedd y 1970au i gefnogi dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys: rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg; dysgu Cymraeg i Hwyrddyfodiaid; datblygu adnoddau dysgu; a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS). Gweler Llywodraeth Cymru (2011) Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion, t.46.

28. Dywedodd athrawon yn yr astudiaeth achos nad oedd lefelau presennol y cymorth yn yr ysgol a thu allan (e.e. darpariaeth gan EMAS, Athrawon Bro, Canolfannau Hwyrddyfodiaid) ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn wastad yn ddigonol i ateb anghenion y disgyblion. Yn gyffredinol, yr oedd yr athrawon yn pryderu nad oedd ganddynt mo'r arbenigedd na'r adnoddau i ddarparu'n ddigonol y cymorth y mae ar ddisgyblion CIY ei angen. Mewn ALl heb ddarpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid, dywedodd ysgolion eu bod yn cael trafferth darparu cymorth digonol i hwyrddyfodiaid.

29. Fel arfer, nid yw asesiadau iaith Gymraeg manwl yn cael eu cynnal gan ysgolion cyn cyfeirio. Lle maent ar gael, dywedodd ysgolion eu bod yn dibynnu ar arbenigedd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid i asesu lefelau'r disgyblion o gaffael yr iaith Gymraeg ac i nodi eu hanghenion am gymorth mewn iaith a chefnogaeth addysgol pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae Canolfannau yn rhoi asesiadau i ysgolion ar sail caffaeliad y disgyblion o'r eirfa a'r patrymau iaith a ddysgwyd ar eu cwrs wyth wythnos (uwchradd) / 12 wythnos (cynradd) cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Asiwyd yr asesiadau hyn gyda lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol.

30. Dywedodd athrawon mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid Cymraeg fod disgyblion CIY sy'n newydd i Saesneg yn ogystal â Chymraeg yn tueddu i gyrraedd lefelau is o Gymraeg na'u cyfoedion Saesneg eu hiaith yn ystod yr un cyfnod o amser yn y Ganolfan. Yr oedd hyn oherwydd her fwy bod yn newydd i ddwy iaith ac am nad oedd gan athrawon y Ganolfan arbenigedd yn iaith/ieithoedd cyntaf/aelwyd y disgyblion CIY. Dywedodd staff y Canolfannau eu bod yn pryderu nad oedd gan athrawon ysgol yr arbenigedd na'r adnoddau (mewn dosbarthiadau mawr) i roi cefnogaeth ychwanegol ddigonol i ddisgyblion CIY o'r fath. Ar y llaw arall, mae athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid gyda'u gwybodaeth fanwl o anghenion disgybl CIY mewn sefyllfa ddelfrydol i roi cymorth ychwanegol yn yr ysgol, lle bo adnoddau yn caniatáu.

31. Yn gyffredinol, dengys tystiolaeth o ysgolion astudiaethau achos a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yr angen am fwy o arbenigedd mewn cefnogi disgyblion CIY ymysg athrawon ysgol gydag adnoddau priodol i CIY i hwyluso eu dysgu. Mae disgyblion CIY sydd yn 'cyrraedd yn hwyr' fel rheol angen cymorth ychwanegol o gymharu â 'hwyrddyfodiaid' Saesneg eu hiaith.

*Cydweithredu rhwng sectorau SIY a chyfrwng-Cymraeg*

32. Mae disgyblion DLIE sydd yn newydd i Gymraeg a Saesneg pan fyddant yn ymuno â'r ysgol fel 'hwyrddyfodiaid' mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg yn aml angen dysgu Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd er mwyn cyrchu'r cwricwlwm. Pwysleisiodd arweinwyr EALAW ac EMAS gyda phrofiad o ddisgyblion CIY fod cefnogi disgyblion o'r fath angen cydweithio effeithiol rhwng darparwyr cefnogaeth SIY a CIY. Nododd yr astudiaeth hon beth cydweithredu agos rhwng timau EMAS, Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog i asesu caffaeliad CIY disgyblion CIY. Fodd bynnag, yn gyffredinol, prin yw cydweithredu o'r fath. Nid oedd gan chwe thîm EMAS arbenigedd iaith Gymraeg ar y pryd i ddarparu cymorth yn Gymraeg. Yn niffyg cyngor gan EMAS, nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion astudiaeth achos a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn ymwybodol, er enghraifft, o'r adnoddau cyfieithu a'r gwasanaethau oedd ar gael i gefnogi disgyblion CIY a'u teuluoedd.

*Hyfforddiant athrawon penodol i CIY*

33. Nid oes agwedd genedlaethol gyson tuag at hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth yng nghyswllt CIY. Dengys tystiolaeth o gyfweliadau EMAS ac astudiaethau achos fod diffyg hyfforddiant arbenigol cyn dod i swydd ac ychydig iawn o hyfforddiant arbenigol mewn swydd i staff ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid, yn staff dysgu a chymorthyddion dosbarth. Dim ond dau dîm EMAS a ddywedodd eu bod yn darparu hyfforddiant i athrawon ar gefnogi disgyblion gydag anghenion CIY. Mewn un Canolfan Hwyrddyfodiaid, yr oedd yr athrawon yn

cydweithio gyda staff yr ysgol i ddatblygu deunyddiau cefnogi iaith a chwricwlwm gwahaniaethol addas i anghenion disgyblion CIY, ac yn darparu hyfforddiant ar roi cymorth i ddisgyblion CIY ail-gymhathu i'r ysgol.

*Adnoddau*

34. Gwelwyd rhai adnoddau o ansawdd dda ar gyfer asesu a dysgu CIY, gan gynnwys adnoddau dwyieithog a ddatblygwyd gan athrawon mewn Cymraeg ac ieithoedd cymunedol eraill. Nid pob ysgol na Chanolfan Hwyrddyfodiaid oedd yn gallu cyrchu ystod eang o adnoddau CIY amlieithog/amlddiwylliannol. Yr oedd angen hefyd am ddeunyddiau dysgu ac adnoddau CIY priodol i oedran 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion hŷn.

*Cyllid Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG)*

35. Datgelodd cyfweliadau gydag ysgolion astudiaethau achos a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid ddiffyg ymwybyddiaeth fod cyllid MEAG hefyd ar gael i gymorth CIY, ar wahan i'r cymorth SIY i ddisgyblion DLlE, y defnyddir y cyllid ar ei gyfer. Felly, nid yw'n syndod fod yr astudiaeth hon hefyd wedi canfod nad yw MEAG fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymorth CIY fel y'i bwriadwyd yn ôl polisi LlC.

36. Os defnyddir MEAG neu ffrydiau cyllido eraill i gynnal cyrhaeddiad yr holl ddisgyblion DLlE ym mhob ysgol ledled Cymru, bydd angen adolygu gofynion y ddarpariaeth.

## Casgliadau ac Argymhellion

37. I grynhoi, canfu'r astudiaeth hon fod gan ALl ac ysgolion brofiad ac ymwybyddiaeth amrywiol o ddisgyblion DLlE gydag anghenion cymorth CIY. Heb erfyn asesu penodol i CIY neu gasglu data am CIY trwy CYBLD a dulliau eraill, nid oes modd adnabod i sicrwydd lefel yr angen

am gymorth CIY ledled Cymru. Mewn ALl, ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid Cymraeg gyda disgyblion CIY, mae asesu a chefnogi eu hanghenion am gymorth ychwanegol gydag iaith yn her ychwanegol yn y sector addysg cyfrwng-Cymraeg.

38. Gwelodd yr astudiaeth nifer o enghreifftiau o arfer CIY da yn unol â’r ddarpariaeth SIY sydd wedi hen sefydlu. Bwriad yr argymhellion isod i LlC, ALl a darparwyr addysg cyfrwng-Cymraeg yw ymdrin â’r bylchau presennol yn y ddarpariaeth CIY a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

*Argymhelliad 1*

39. Er mwyn sefydlu eglurder a chysondeb yn y modd mae ysgolion yn asesu ac yn cefnogi disgyblion CIY, dylai LlC ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o CIY ac anghenion cymorth disgyblion DLlE sydd yn newydd i Gymraeg a Saesneg pan fyddant yn cyrraedd ar unrhyw bwynt yn yr ysgol. Gellid cynnal cynhadledd, seminarau rhanbarthol neu ddigwyddiadau tebyg i ddwyn ynghyd ymarferwyr ym meysydd proffesiynol addysg cyfrwng-Cymraeg ac EMAS i godi ymwybyddiaeth, trafod y materion, adnabod anghenion a datblygu ymdeimlad o berchenogaeth dros gysyniadau CIY a SIY.

*Argymhelliad 2*

40. Dylai LlC sicrhau bod pawb yn deall ystyr y ddau derm, CIY a SIY, a bod cysondeb yn y defnydd a wneir o’r naill derm a’r llall trwy holl bolisïau a chanllawiau perthnasol LlC, gan gynnwys telerau ac amodau’r grant MEAG, er mwyn gofalu bod pawb yn deall yn glir pwy sy’n gymwys am gymorth a chyllid. Dylai hyn hefyd gynnwys darparu canllawiau a chefnogaeth i ALl ac ysgolion i gynhyrchu a gweithredu Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn ateb yn llawn anghenion disgyblion CIY/SIY.

*Argymhelliad 3*

41. Dylai LlC gysylltu ag Estyn i ystyried adolygu eu *Strategaeth a Chanllawiau ar gyfer Arolygu Llythrennedd i Ddysgwyr 3 i 18 oed* (*2011)* a'r *Canllaw Ategol: Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (2013)* i gyfeirio at CIY a SIY.

*Argymhelliad 4*

42. Dylai LlC adolygu'r defnydd presennol o'r Model Pum Cam SIY yn ogystal â fersiynau wedi eu haddasu yn lleol, ac ymgynghori gydag EMAS ac ymarferwyr i ystyried datblygu model cenedlaethol mwy manwl i ysgolion ac ALl eu defnyddio fel dull cyson o asesu lefelau cyrhaeddiad ac olrhain cynnydd caffaeliad CIY/SIY trwy amser. Gallai'r model hwn o bosib gael ei asio i'r Model Pum Cam SIY a'i ategu. Dylai fframwaith asesu o'r fath fod â'r un strwythur cynnydd cyffredinol i Saesneg a Chymraeg, ond gydag amrywiadau priodol mewn datganiadau cynnwys ar gyfer pob iaith yn seiliedig ar wahaniaethau mewn patrymau caffaeliad wedi eu hymchwilio a'u harsylwi yn dda. Dylai fframwaith o'r fath gael ei defnyddio ochr yn ochr â'r FfLlRh gan bob darparwr (EMAS, ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid) er mwyn cael agwedd gynhwysol a chyson at asesu CIY/SIY. Er mwyn caniatau cymhariaeth gyson ledled Cymru, dylai LlC ystyried casglu data cynnydd CIY trwy CYBLD fel sy'n cael ei wneud eisoes ar gyfer SIY.

*Argymhelliad 5*

43. Dylai ALl ac ysgolion adolygu'r galw yn eu hardal am gymorth i ddisgyblion CIY ynysig ac ystyried ffurfiau posib o weithio ar y cyd, rhannu arferion da, hyfforddi athrawon, rheoli adnoddau, defnyddio Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar wasgar, a dulliau newydd ac arloesol eraill o ddarparu cymorth.

*Argymhelliad 6*

44. Dylai LlC ystyried cynnal ymchwil pellach, mwy manwl gyda disgyblion CIY mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg i ddeall mewn mwy o ddyfnder y

mathau o gymorth ychwanegol mae arnynt eu hangen a sut y mae'r rhain yn wahanol o anghenion cymorth iaith dysgwyr Cymraeg sy'n siarad Saesneg. Ymysg meysydd i ymdrin â hwy mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau yng nghaffaeliad iaith a llythrennedd Cymraeg mewn disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg a'r rhai sydd – fel egin siaradwyr ifanc dwy/amlieithog yn ystod y Cyfnod Sylfaen a disgyblion 'hwyr yn cyrraedd' tua diwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau dilynol eu haddysg.

*Argymhelliad 7*

45. Dylai timau EMAS ac ysgolion fod yn gweithio'n agos i nodi anghenion cymorth ac i fonitro cynnydd. Dylai hyn olygu asesiadau cychwynnol yn iaith gyntaf y disgybl lle bo modd er mwyn deall yn well lefel eu cyrhaeddiad ac i deilwrio cefnogaeth yn well i anghenion y dysgwr.

*Argymhelliad 8*

46. Dylai LlC ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o fantais dysgu a chynnal ieithoedd cyntaf/yr aelwyd ymysg ALl a'r holl ysgolion (gan gynnwys ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog) er mwyn annog cefnogaeth yr ysgolion i ddarpariaeth dysgu iaith y cartref.

*Argymhelliad 9*

47. Dylid cynnwys ymrwymiad ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion DLlE ddysgu eu hiaith gyntaf/iaith yr aelwyd yn amgylchedd yr ysgol ym mholisi Cymraeg a Saesneg fel Iaith Ychwanegol ysgol. O'r herwydd, dylai ysgolion fod yn fwy rhagweithiol o ran cydweithredu gydag aelodau o gymunedau iaith eu disgyblion a hybu ieithoedd cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd hwyluso i ddisgyblion ysgol ac aelodau'r gymuned i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu haelwydydd. Dylai ysgolion hefyd geisio cyngor a chefnogaeth gan dimau EMAS i hwyluso dysgu'r iaith gyntaf/iaith yr aelwyd.

*Argymhelliad 10*

48. Dylai ALl neu gonsortia rhanbarthol adolygu eu gallu presennol i ddarparu cymorth CIY a/neu SIY effeithiol i ddisgyblion mewn darpariaeth addysg cyfrwng-Cymraeg a chymharu hyn â lefel yr angen am y cymorth hwn yn eu hardaloedd. Wedi hynny, dylid cynhyrchu cynlluniau gweithredu, gan gynnwys targedau i wella darpariaeth, lle bo angen, ac i nodi cyfleoedd am gydweithredu rhwng ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog, timau EMAS, Canolfannau Hwyrddyfodiaid a darparwyr eraill megis Athrawon Bro er mwyn gwella galluedd.

*Argymhelliad 11*

49. Dylai EMAS a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid gychwyn trefn fwy gweithredol o gyfnewid gwybodaeth a chydweithio er mwyn hwyluso gwell gweithio ar y cyd o ran asesu a monitro caffaeliad CIY a SIY disgyblion; rhannu/darparu mynediad at adnoddau CIY trwy rai cymwysiadau (e.e. Mantra Lingua ac EMAS UK) a mynediad at gyfleusterau cyfieithu cymunedol er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda theuluoedd. Dylid hefyd rhannu arfer da o ran dulliau addysgu ar ffurf seminarau, sefydlu partneriaethau cydweithredol ac ymweliadau cyfnewid er mwyn astudio yng Nghymru ei hun a thu hwnt i wybod beth yw'r problemau o ran rhoi cymorth i ddisgyblion CIY a sut i'w goresgyn.

*Argymhelliad 12*

50. Dylai timau EMAS, darparwyr hyfforddiant athrawon ac ymarferwyr arbenigol gydweithio i sicrhau agweddau cenedlaethol cyson o ran hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth i wella sgiliau staff mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion disgyblion CIY/SIY.

*Argymhelliad 13*

51. Dylai ALl ystyried datblygu rôl athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn hyfforddiant athrawon fel sy'n briodol er mwyn darparu

hyfforddiant mewn swydd i athrawon cynradd ac uwchradd ar strategaethau i roi cymorth yn yr ysgol a’r dosbarth i ddisgyblion CIY.

*Argymhelliad 14*

52. Dylai ALl ac ysgolion ddatblygu deunyddiau dysgu ac adnoddau wedi eu gwahaniaethu yn benodol ar gyfer disgyblion CIY/SIY fel rhan annatod o’r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol.

*Argymhelliad 15*

53. Dylai LlC annog ALl i weithio gyda’i gilydd ac ystyried datblygu llyfrgelloedd adnoddau mewn ALl neu ar draws consortiwm rhanbarthol, a llwyfan e-ddysgu i’w defnyddio yn y cyd-destun cyfrwng-Cymraeg (gallai hyn adeiladu neu fanteisio ar Hwb – Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan).[8] Trwy roi mynediad i ymarferwyr a disgyblion, gellid defnyddio llwyfan o’r fath i gefnogi disgyblion ynysig, sydd fel arall yn anodd i staff EMAS neu Ganolfannau Hwyrddyfodiaid mewn rhai ALl eu cyrraedd yn rheolaidd.

*Argymhelliad 16*

54. Dylai LlC gydweithredu gydag ALl i godi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid o’r ffaith fod MEAG ar gael, a’i feini prawf cymhwyster o ran CIY. Dylai LlC fonitro’r ceisiadau am gyllid MEAG a’r defnydd a wneir ohono i gynorthwyo CIY a SIY er mwyn dod i ddeall lefelau’r angen am gymorth grant am CIY a SIY fel ei gilydd.

[8] Hwb – Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan https://hwb.wales.gov.uk/home/Pages/Home.aspx

## Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i holl gydlynwyr CYBLD yr ALI ac aelodau timau EMAS a roes gymorth i gyflenwi data ac a roddodd eu hamser i helpu gyda'r ymchwil hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig hefyd i staff, disgyblion ac eraill yn yr ysgolion a'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid a gyfrannodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Cydnabyddir yn ddiolchgar hefyd gefnogaeth a chymorth staff LlC ac aelodau'r Grŵp Llywio.

# 1 Cyflwyniad

1.1. Cynhaliwyd yr ymchwil hwn er mwyn dod i ddeall lefel bresennol y galw am gymorth Cymraeg fel Iaith Ychwanegol i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig (DLlE), a faint sydd ar gael, mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Trochi yn y Gymraeg i Hwyrddyfodiaid. Defnyddir CIY i gyfeirio at y sefyllfa "*lle bo gan ddisgybl iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg ond lle mae'n dilyn addysg cyfrwng-Cymraeg ac felly angen cymorth er mwyn mynd at y cwricwlwm cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg* ".[9]

1.2 Gwnaed yr ymchwil hwn gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar ran Llywodraeth Cymru (LlC) rhwng Ebrill 2013 ac Ionawr 2014. Comisiynwyd y prosiect hwn gan LlC yn unol â'i nod strategol o "*helpu pawb i gyrraedd ei botensial, lleihau anghydraddoldeb, a gwella lles economaidd a chymdeithasol*"[10] . Cyllidwyd y prosiect hwn gan Raglen Weithredol Cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) yn unol â'i flaenoriaeth o "*roi i bobl ifanc y sgiliau maent eu hangen ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol*" (Blaenoriaeth 1 CGE).[11]

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn gwneud y canlynol:

- gosod allan gefndir polisi a rhesymeg yr astudiaeth hon
- datgan nod ac amcanion cyffredinol yr ymchwil
- disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil hwn
- adolygu'r dystiolaeth bresennol am arferion da mewn cymorth iaith ychwanegol
- cyflwyno deilliannau'r ymchwil
- adolygu'r arfer presennol mewn Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY) o gymharu ag arferion da mewn Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)

[9] Dyfarnu Cyllid yng nghyswllt y Cynllun Grant Cyrhaeddiad Lleiafgrifoedd Ethnig 2013-14, Atodlen 1, t.3, 4 Ebrill 2013. Hefyd llythyr 'gwahoddiad i fidio' MEAG at awdurdodau lleol, Rhagfyr 2012.
[10] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu: Addysg (2013) (http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/education/programme?lang=cy)
[11]http://wefo.wales.gov.uk/programmes/20072013/convergence/esf/?lang=cy

- cyflwyno casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth hon.

**Cyd-destun a chefndir polisi**

*Gweledigaeth a chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru*

1.4 Mae LlC wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail i'w holl bolisiau am blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mewn *Undod ac Amrywiaeth* (2010), rhoddodd LlC ganllawiau ar gyfleoedd i hybu cydraddoldeb hil, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru.[12] Mae'r canllaw hwn yn pwysleisio y dylai : *"Dylai rhoi gwerth ar ddysgwyr sy'n dysgu Saesneg/Cymraeg yn ychwanegol at iaith wahanol yn y cartref; dylent gael eu cynnwys a'u herio yn briodol, yn ogystal â chael cyfleoedd lle bo modd i gynnal a chael achrediad yn iaith eu haelwyd."*[13]

1.5 O ran yr iaith Gymraeg, gweledigaeth y Llywodraeth yw "*gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru"*[14] ad "*chael system addysg a hyfforddi sydd yn ymateb mewn ffordd gynlluniedig i'r twf cynyddol am addysg cyfrwng-Cymraeg, yn ymestyn allan at ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu"*.[15]

1.6 Mae'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg* (2010) yn hybu darpariaeth addysg sydd yn cynnwys pob math o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth hon yn gwahaniaethu rhwng plant o gefndiroedd di-Gymraeg, sydd yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf/iaith yr aelwyd, a'r rhai nad yw eu hiaith gyntaf/iaith yr aelwyd yn Gymraeg na Saesneg.

> "*Mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg, i blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith, mae addysg cyfrwng-Cymraeg yn golygu atgyfnerthu a*

[12] Undod ac Amrywiaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), 2010)
[13] Ibid.
[14] Iaith Fyw; Iaith Byw – Strategaeth Iaith Gymraeg (2012), t.14
[15] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2010), t.14

*datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy amred eang o brofiadau cwricwlaidd. I blant o gefndiroedd di-Gymraeg y mae eu cyswllt cyntaf a'u prif gyswllt â'r Gymraeg trwy'r ysgol, ceir y ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg ddwys hon trwy broses o drochi ieithyddol*".[16]

1.7 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru niferoedd uchel o ddisgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg.[17] Byddai'r disgyblion hyn fel arfer yn newydd i'r Gymraeg pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol am y tro cyntaf. I'r mwyafrif, mae'r Saesneg yn iaith sy'n gyffredin rhyngddynt â'r holl athrawon a mwyafrif (os nad pob un) y disgyblion eraill. Bydd plant o gefndiroedd di-Gymraeg hefyd yn cynnwys disgyblion DLIE nad yw eu hiaith gyntaf/iaith y cartref yn Gymraeg na Saesneg. Bydd y plant hyn, os ydynt yn mynychu ysgol cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog, yn ddysgwyr Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol sy'n gorfod dysgu'r ddwy iaith (weithiau ar yr un pryd) fel pynciau cwricwlwm neu fel cyfrwng dysgu, cyfathrebu yn yr ysgol ac mewn cyd-destunau cymdeithasol ehangach.

1.8 SIY yw'r term generig am ddysgu sgiliau iaith Saesneg i ddisgyblion nad yw eu hiaith gyntaf/iaith y cartref yn Saesneg i warantu eu hawl a haeddiant cyfreithiol i addysg lawn.[18] Defnyddir CIY yng nghyd-destun yr astudiaeth hon i gyfeirio at y disgyblion sy'n cyrchu addysg cyfrwng - Cymraeg sydd ag iaith gyntaf/iaith y cartref nad yw'n Gymraeg na Saesneg.

1.9 Mae disgyblion CIY a SIY yn wahanol ar sawl ystyr i ddisgyblion Cymraeg a Saesneg eu hiaith, gan gynnwys lefelau eu profiadau addysgol blaenorol, llythrennedd yn eu hiaith gyntaf/iaith y cartref, a lefelau eu hyfedredd mewn Saesneg a Chymraeg.[19] Mae angen ystyried pob un o'r ffactorau hyn wrth bennu'r cymorth y mae ar ddisgybl

[16] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2010), t.8.
[17] C. Baker a M. P. Jones (2000) Welsh Language Education: A Strategy for Revitalization, yn Colin H. Williams (gol) Language Revitalization: Policy and Planning, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
[18] Gwybodaeth a ddarparwyd mewn cyfweliadau gyda rhanddeiliaid.
[19] Gwybodaeth a ddarparwyd mewn cyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

ei angen er mwyn cyrchu'r cwricwlwm. Ffactor bwysig arall a all ddylanwadu ar gyrhaeddiad yw'r pwynt pryd mae disgybl yn cyrchu addysg cyfrwng-Cymraeg. Bydd rhai disgyblion CIY a SIY yn cyrraedd yr ysgol pan fyddant yn dair oed, ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen. Gall eraill ymuno ag ysgol gynradd neu uwchradd cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog fel 'hwyrddyfodiaid' tua diwedd y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw gyfnod wedi hynny.

1.10 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn caniatau am bosibilrwydd disgyblion yn cyrchu addysg cyfrwng-Cymraeg ar gyfnod hwyrach yn eu gyrfa yn yr ysgol (cyfleoedd trochi hwyr). Mae'r Strategaeth hefyd yn darparu ar gyfer achosion lle gall profiad cychwynnol plentyn o ddarpariaeth iaith Gymraeg trwy'r Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng-Saesneg "*osod sylfaen a chymhelliant i blant drosglwyddo i'r sector cyfrwng-Cymraeg cyn bod yn saith oed*."[20] Gall 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion felly fod yn ddisgyblion y Gymraeg sy'n siarad Saesneg yn ogystal â disgyblion CIY a SIY.

**Addysg cyfrwng-Cymraeg**

1.11 Mae natur a chyflwyno addysg cyfrwng-Cymraeg yn amrywio yn dibynnu ar ffurf y ddarpariaeth, sydd yn gymhleth ac yn amrywio rhwng ac oddi mewn i ALl.

1.12 Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae addysg cyfrwng-Cymraeg i blant rhwng tair neu bedair a saith oed fel arfer yn golygu bod yr holl ddisgyblion yn cael profiad eu meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.[21] Yng Ngwynedd a Môn, Cymraeg yw prif iaith addysg yn y Cyfnod Sylfaen ym mhob ysgol. Ers 2008, mabwysiadodd Ceredigion bolisi lle mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg ym mhob ysgol gynradd.[22]

[20] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2010), t.8
[21] Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2007), t.8
[22] Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion 2008.

1.13 Mewn ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg, Cymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu yng Nghyfnod Allweddol (CA) 2 gydag o leiaf 70 y cant o'r dysgu yn cael ei wneud yn Gymraeg. Mae'r Saesneg yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol fel pwnc ym Mlwyddyn 3 yn CA2 ac yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Yn yr ysgolion hyn, gall Saesneg gael ei ddefnyddio weithiau ar gyfer rhai agweddau o bynciau eraill.[23]

1.14 Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg, dysgir pob pwnc ar wahan i Saesneg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau bwnc.[24]

1.15 Defnyddir y term 'darpariaeth ddwyieithog' i gyfeirio at ystod o ysgolion, sydd yn defnyddio amrywiaeth o Gymraeg a/neu Saesneg fel y cyfrwng dysgu. Gall ysgolion dwyieithog ysgolion gynnwys:[25]

- ysgolion cynradd 'dwy ffrwd' ac ysgolion uwchradd 'Categori 2B' lle mae'r disgyblion yn cael eu dysgu mewn ffrydiau gwahanol, un yn bennaf yn gyfrwng-Cymraeg [26] a'r llall yn bennaf/gyfan gwbl gyfrwng-Saesneg; [27]
- ysgolion lle cyflwynir cyfran helaeth o'r cwricwlwm (50 i 70 y cant yn y cynradd; 50 i 79 y cant yn yr uwchradd) trwy gyfrwng y Gymraeg;
- ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn 'Saesneg eu cyfrwng yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg'. Yn yr ysgolion hyn, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysg ar gyfer rhyw 20 i 49 y cant o'r dysgu; [28]

[23] Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2007), t.8
[24] Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2007), t.12
[25] Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg (LlCC, 2007).
[26] O leiaf 70 y cant o'r dysgu yn cael ei wneud trwy gyrwng y Gymraeg ar lefel cynradd ac mewn ysgolion uwchradd o leiaf 80 y cant o bynciau ar wahan i Gymraeg a Saesneg yn cael eu dysgu gan ddefnyddio'r Gymraeg.
[27] Llai nac 20 y cant o'r dysgu yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel cyrnadd. Ar lefel uwchradd, gall disgyblion ddewis astudio eu holl bynciau ar wahan i Gymraeg trwy gyfrwng y Saesneg.
[28] Ar lefel cynradd, defnyddir y Gymraeg ar gyfer 20 – 50 y cant o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol. Mewn ysgolion uwchradd, dysgir 20 – 49 y cant o bynciau gan ddefnyddio'r Gymraeg. Yn yr ysgolion uwchradd hyn, dygir pob pwnc hefyd trwy gyfrwng y Saesneg.

- Mewn rhai ysgolion, ac yn enwedig mewn colegau addysg bellach, gall dosbarthiadau gael eu dysgu ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg a gall rhai cyrsiau gynnwys modiwlau cyfrwng-Cymraeg.

1.16 Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ysgolion cyfrwng-Cymraeg a phob math o rai dwyieithog gan mai dyma'r ysgolion lle mae angen i ddisgyblion CIY gaffael y Gymraeg er mwyn gallu cyrchu'r rhan fwyaf neu ran sylweddol o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw ysgolion cyfrwng-Saesneg wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

**Cyrchu addysg cyfrwng-Cymraeg**

1.17 Mae'r sector addysg cyfrwng-Cymraeg wedi tyfu'n sydyn ledled Cymru ers sefydlu ysgol gynradd cyfrwng-Cymraeg gyntaf dan nawdd ALl yn Llanelli ym 1947. Ym mis Ionawr 2013, cofnodwyd cyfanswm o 1,374 o ysgolion cynradd, 4 ysgol ganol a 216 ysgol uwchradd yng Nghanlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion. O'r rhain, yr oedd 452 ysgol gynradd, 2 ysgol ganol a 53 ysgol uwchradd wedi eu categoreiddio fel rhai cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog.[29] Yn Ionawr 2013, nifer y disgyblion oedd yn cyrchu addysg cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog oedd 63,192 yn y cynradd1,634 yn ganol; a 37,692 mewn ysgolion uwchradd[30].

1.18 Mae data'r cyfrifiad poblogaeth yn nodi fod poblogaeth Cymru wedi dod yn gynyddol amrywiol yn ethnig dros y degawdau diwethaf[31]. Mae cofnodion cyfrifiad 2011 yn cofnodi (am y tro cyntaf) y brif iaith a ddefnyddir gan drigolion arferol Cymru tair oed a hŷn. Yn ôl cyfrifiad

[29] Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2013. http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?lang=cyNid yw'r Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion yn cynnwys ysgolion dwyieithog 'Saesneg gyda Chymraeg sylweddol'. Y mae data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys y math hwn o ffrwd ddwyieithog. Felly, mae rhai tablau sy'n cyflwyno'r data hwn (gweler Tablau 1 a 2, Pennod 4) yn gwahaniaethu o'r Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion.

[30] Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2013, Tabl 2. http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?lang=cy

[31] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-data-catalogue/index.html

2011, dywedodd 84,436 (rhyw dri y cant) o drigolion arferol Cymru nad oedd eu prif iaith yn Gymraeg na Saesneg. [32]

1.19 Gwelodd y ddegawd ddiwethaf gynnydd yn nifer y disgyblion DlIE sydd angen cymorth iaith mewn ysgolion yng Nghymru.[33] Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion DLlE yng Nghymru, sydd heb y gallu i siarad Cymraeg na Saesneg pan fyddant yn dod i'r ysgol, yn dewis cyrchu addysg cyfrwng-Saesneg.[34] I'r disgyblion hynny, mae cymorth mewn  Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) wedi hen sefydlu yn y rhan fwyaf o ALl.[35] Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, daeth i sylw ymarferwyr a llunwyr polisi fod nifer cynyddol o ddisgyblion o gefndiroedd DLlE yn cyrchu addysg cyfrwng-Cymraeg.[36] Gellir priodoli hyn, mewn rhai achosion, i gynnydd yn nifer y teuluoedd o ethnig lleiafrifol sy'n dewis lleoliadau addysg  cyfrwng-Cymraeg yn hytrach na chyfrwng-Saesneg, a hefyd i gynnydd yn amrywiaeth ethnig y teuluoedd sy'n symud i fyw mewn ardaloedd o Gymru lle mai darpariaeth addysg cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog yw'r norm.[37]

1.20  Nid yw ffigyrau am ddisgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog, sydd angen cymorth ychwanegol i gaffael Cymraeg a Saesneg, yn ddibynadwy fel rheol. Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn casglu data am nifer y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog, a aseswyd fel rhai ag anghenion  cymorth gyda SIY. Nid yw'r data rhain yn dal gwybodaeth gyfatebol am CIY. Yn yr un modd, mae'r data a gymerir yn flynyddol gan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) fel rhan o geisiadau

---

[32] ONS, QS204EW – Prif iaith (manylion) [o Nomis ar 05 Rhagfyr 2013] http://www.nomisweb.co.uk/census/2011

[33] Yn ôl ffigyrau a gafwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, yr oedd nifer y plant yr hawliwyd drostyng dan Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) LlG wedi codi o 24,916 yn 2007 i 39,658 yn 2013.

[34] Gwybodaeth a gafwyd o gyfweliadau gyda Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) a rhanddeiliaid.

[35] Brentnall *et al.* (2009) Language in Multilingual Wales, Coleg Addysg Gydol Oes, Prifysgol Bangor.

[36] Llywodraeth Cymru (2013), Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Manyleb Ymchwil

[37] Gwybodaeth a gafwyd o gyfweliadau gyda Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) a rhanddeiliaid polisi.

ALl am gyllid yn gofyn unig am wybodaeth ynghylch lefelau SIY disgyblion DLlE.[38]

*Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig*

1.21 Ers 2007, mae LIC yn darparu cyllid i gefnogi cyrhaeddiad DllE trwy'r MEAG. Cyn 2007, yr oedd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu trwy'r Grant Ceiswyr Lloches a'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r MEAG ar gael i gefnogi disgyblion tair i 19 oed ac y mae ar gael i'r 22 ALl yng Nghymru. Cyfanswm y grant sydd ar gael yn 2013-14 yw £10.5 miliwn. Yn hanesyddol, yr oedd gwerth y grant yn cynyddu'n flynyddol[39] i ymateb i nifer cynyddol y disgyblion DLlE oedd yn mynychu ysgolion yng Nghymru.

1.22 Pwrpas MEAG yw cefnogi darpariaeth addysg a gwasanaethau cysylltiedig ag addysg ALl i bob plentyn a pherson ifanc cymwys, ac yn arbennig:

- *"I gefnogi plant a phobl ifanc o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sydd yn dysgu Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol"*; a
- *"Gwella safonau cyrhaeddiad i ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol sydd yn tangyflawni neu sydd mewn perygl o dangyflawni oherwydd ffactorau ar wahan i gaffael yr iaith Saesneg neu Gymraeg".*[40]

1.23 Mae'r sawl sy'n gymwys dan y grant yn cynnwys:

- Plant sy'n dysgu Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol a/neu sy'n tangyflawni neu wedi eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o dangyflawni;

[38] Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) 2013-14 – Gwahoddiad i Fidio, t.2, 18 Rhagfyr 2012, t.3.
[39] Cyfanswm y grant oedd ar gael yn 2012-13 oedd £10 million ac yn 2011-12 oedd £9.6 miliwn.
[40] Dyfarnu Cyllid yng nghyswllt y Cynllun Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig 2013-14, Atodlen 1, t.12, 4 Ebrill 2013.

- Plant o gefndiroedd Sipsi /Sipsi Roma o wledydd ar wahan i'r DU ac Iwerddon;
- Plant ceiswyr lloches a phlant a phobl ifanc heb neb gyda hwy sydd yn ceisio lloches.[41]

1.24 Mae'r grant MEAG yn cael ei neilltuo i bob ALl trwy gyfeirio at gyfran o grant pob awdurdod gan LlC a gosod fformiwla gyllido ar sail "*niferoedd dysgwyr; eu Cyfnodau Allweddol a lefel eu caffaeliad iaith trwy gyfeirio at y model pum cam yn amrywio o 'newydd i'r Saesneg' i 'Rhugl'*".[42] Defnyddir y rhan fwyaf o'r grant gan ALl i dalu am Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS). Mae timau EMAS yn defnyddio'r grant i dalu cost athrawon a chymhorthyddion cefnogi SIY arbenigol (ac weithiau CIY), yn ogystal ag i ddarparu adnoddau dysgu a hyfforddiant SIY i'r staff dysgu prif-ffrwd.[43]

*Prosiect Cyrhaeddiad ac Iaith Lleiafrifoedd Ethnig*

1.25 Rhwng 2010 a 2013, rhoddodd y Prosiect Cyrhaeddiad ac Iaith (MELAP)[44] dan arweiniad LlC gyfle i ALl mewn ardaloedd Cydgyfeiriant[45] gyrchu cyllid ychwanegol trwy Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop (CGE). Yn ôl rhanddeiliaid polisi LlC, dyma nod MELAP:

- Codi cyrhaeddiad a mynd i'r afael â'r perygl o dangyflawni ymysg grwpiau o bobl ifanc duon a lleiafrifoedd ethnig;

---

[41] Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) 2013-14 – Gwahoddiad i Fidio, t.2, 18 Rhagfyr 2012.
[42] Ibid.t.2.
[43] Llywodraeth Cymru (2010) Adolygu'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig .
**[44]** http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/europeansocialfund /projects/melap/?lang=cy
[45] Mae ardal Cydgyfeiriant CGE yn cynnwys 15 All yng ngorllewin Cymru a'r cymoedd (gweler http://wefo.wales.gov.uk/programmes/20072013/convergence/areamap/?ts=1&lang=c y**).** Mae'r ardal hon yn gymwys am gyllid CGE ar sail bod Cynnyrch Gros Domestig (GDP) cyfartalog y pen y rhanbarth islaw'r terfyn o 75 y cnat o GDP cyfartalog Ewrop ym mis Rhagfyr 2005, adeg cytuno ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd.
**(**http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/convergence/esfoperational/090911esfconvergen ceen.pdf**)**

- Gwella cydraddoldeb cyfle am waith a chyflogadwyedd i bobl ifanc duon a lleiafrifoedd ethnig  trwy well ymwneud ag addysg a hyfforddiant; ac
- Adeiladu ar systemau monitro a gwerthuso sy'n bod eisoes i fesur yn effeithiol lefelau cyrhaeddiad ac ymwneud y myfyrwyr a dargedwyd i'w helpu.

1.26 Mae naw o'r ALl mewn ardaloedd Cydgyfeiriant wedi cyrchu'r cyllid CGE ychwanegol hwn[46] i ymestyn eu gweithgareddau i godi lefelau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc DLIE. Mae'r prosiect wedi galluogi ALl sy'n cymryd rhan i gefnogi mwy o ddisgyblion na thrwy ddefnyddio cyllid MEAG yn unig ac wedi galluogi datblygu a lledaenu arfer da yn fwy eang mewn ysgolion.[47]

**Darparu mynediad at gymorth i Gymraeg fel Iaith Ychwanegol**

1.27 Ar lefel polisi LlC, anghyson yw'r canllawiau ar gymorth i ddisgyblion CIY. Ers 2001, mae gofyn i ysgolion gyflwyno "*manylion am gyfnod caffaeliad iaith disgyblion lle mae Saesneg (neu Gymraeg) yn iaith ychwanegol*" fel rhan o CYBLD.[48] Fodd bynnag, mae gweddill y memorandwm esboniadol yn cyfeirio'n unig at SIY a dim ond lefelau asesu SIY a gesglir yn CYBLD.[49]

1.28 Mae camau caffaeliad disgyblion SIY o Saesneg a lefel gysylltiedig yr angen am gymorth iaith ychwanegol yn cael eu hasesu yn ôl y *Model Pum Cam o Gaffael Saesneg fel Iaith Ychwanegol– Disgrifyddion Cyffredinol* y cyfeirir ato trwy'r holl adroddiad hwn fel y 'Model Pum Cam SIY' (gweler Atodiad 1). Mae'r diffiniad eang o angen y gellir hawlio cyllid ar ei gyfer yn cael ei neilltuo i bob cam yn amrywio o Gam A lle mae

---

[46] Y naw ALl sy'n cymryd rhan yn MELAP yw: Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell Nedd Porth Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/europeansocialfund/projects/melap/?lang=cy
[47] Gwybodaeth a gyflenwyd gan randdeiliad polisi Llywodraeth Cymru.
[48] Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol)(Cymru)(Diwygio) 2011, 20 Medi 2011, t.2.
[49] Memorandwm Esboniadol   Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol)(Cymru)(Diwygio) 2011, 20 Medi 2011, t.3.

dysgwr yn '*newydd i'r Saesneg'* ac '*angen cryn dipyn o gymorth SIY*' i Gam E pan fydd yn '*rhugl'* ac yn '*gweithredu heb gymorth SIY ar draws y cwricwlwm*'[50].

1.29 Ni fu dim 'swyddogol' mewn CIY oedd yn cyfateb i'r Model Pum Cam SIY wedi ei gynhyrchu gan LlC na'i ledaenu i'w ddefnyddio ym mhob ALl. Felly, nid oes fframwaith asesu CIY penodol sydd yn diffinio lefelau bras yr angen y gellir ceisio cyllid ar eu cyfer.

1.30 Yn niffyg fframwaith o'r fath ac mewn ymateb i amgylchiadau lleol, mae'r EMAS mewn dau ALl wedi cyfieithu'r Model Pum Cam SIY i Gymraeg. Er bod yr erfyn asesu hwn yn dal i gyfeirio at y Saesneg, fe'i defnyddir fel canllaw i asesu, fel mater o drefn, lefel caffaeliad disgyblion DLlE mewn Cymraeg ac i bennu eu hangen am gymorth mewn Cymraeg.

**Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol**

1.31 Erfyn cynllunio cwricwlwm yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) a fwriadwyd i 'greu agweddau cydlynol at ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm i bob disgybl pump i 14 oed.[51] Bu'r FfLlRh yn ofyniad cwricwlwm statudol ers Medi 2013. Mae'n cymryd lle elfen gyfathrebu a rhif y *Fframwaith sgiliau i rai 3 i 19 oed yng Nghymru*[52] anstatudol, sydd yn sylfaen i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflwynwyd yn 2008.[53] Yng nghydran llythrennedd y fframwaith mae sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu.

[50] Dyma'r diffiniadau o lefelau 'angen' am gymorth EAL ym Model Pum Cyfnod EAL: Cyfnod A (Newydd i Saesneg) = Angen cryn dipyn o gymorth EAL; Cyfnod B (Caffael Cynnar) = Angen swm sylweddol o gymorth EAL i gyrchu'r cwricwlwm; Cyfnod C (Datblygu Medr) = Angen cymorth EAL gyson i gyrchu'r cwricwlwm yn llawn; Cyfnod D (Medrus) = Angen peth cymorth EAL / weithiau i gyrchu deunydd a thasgau'r cwricwlwm; Cyfnod E (Rhugl) = Gweithio heb gymorth EAL ar draws y cwricwlwm.
[51] Llywodraeth Cymru, Adran Addysg a Sgiliau (Mawrth 2013) Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol, t.4. Hyd yma, nid oes erfyn asesu i gyd-fynd â'r fframwaith.
[52] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.*
[53] Llywodraeth Cymru, Adran Addysg a Sgiliau (Mawrth 2013) Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol, t.2.

1.32 Mae'r FfLlRh yn cydnabod fod "*gan ddysgwyr gyda Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol heriau gwahanol yng nghyswllt caffael iaith a llythrennedd.*"[54] Yn ôl y FfLlRh, mae'r Model Pum Cam SIY yr asesir disgyblion SIY yn ei erbyn yn darparu'r '*cyd-destun ar gyfer y FfLlRh'.*[55] Yr oedd tystiolaeth o gyfweliad gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio bwriad LlC i'r FfLlRh fod yn fframwaith sydd yn cynnwys anghenion a chynnydd dysgu pob disgybl. O'r herwydd, datblygwyd y FfLlRh gyda golwg ar roi i athrawon ddull o olrhain a chynllunio datblygiad iaith a llythrennedd disgyblion CIY yn fwy manwl na'r *Fframwaith sgiliau* y daeth yn ei le.

1.33 Mae'r FfLlRh yn gosod allan ddisgwyliadau am un flwyddyn ar ôl y llall o ran datblygiad sgiliau iaith a llythrennedd. Cydnabyddir na fydd y disgwyliadau blynyddol hyn yn briodol i'r holl ddisgyblion DLlE gydag anghenion cymorth iaith ychwanegol. Y bwriad, fodd bynnag, yw i'r FfLlRh alluogi athrawon i ganolbwyntio'n fwy manwl ar gaffaeliad iaith Cymraeg a Saesneg disgyblion CIY a SIY, a gallu adrodd yn fwy manwl i rieni am eu cynnydd yn caffael y ddwy iaith.[56]

1.34 Mae cwmpas *Cwricwlwm i Gymru: Ymgynghori ar gynigion i ddiwygio cwricwlwm a threfniadau asesu i Gymru*[57] presennol yn cynnig ymestyn y FfLlC i "*gynnwys llythrennedd a rhifedd sy'n ymddangos yn y Cyfnod Sylfaen i blant tair a phedair oed er mwyn sicrhau cynnydd clir ac effeithiol i'r Cyfnod Sylfaen yn bump oed*."[58]

1.35 Datblygwyd y cydrannau llythrennedd yn y FfLlRh fel bod y disgwyliadau mewn Cymraeg a Saesneg yn debyg:

*"Y mae ychydig o agweddau nodweddiadol yn y fersiwn Gymraeg i adlewyrchu gofynion unigryw'r iaith Gymraeg, ond ar wahan i'r rhain,*

[54] Ibid., t.11
[55] Ibid., t.11
[56] Cyfathrebu personol mewn cyfweliad gyda chynrychiolydd Llywodraeth Cymru, Adran Addysg a Sgiliau, Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, 6 Rhagfyr 2013.
[57] Cynhaliwyd y broses ymgynghori hon rhwng 22 Hydref 2013 a 17 Ionawr 2014.
[58] Llywodraeth Cymru (Hydref 2013) Cwricwlwm Cymru: Ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Cwriclwlwm a threfniadau asesu i Gymru. Cyfnod 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach, t.15.

*mae'r sgiliau sydd i'w cymhwyso bron yn union yr un fath ac yn drosglwyddadwy o un iaith i'r llall."*[59]

**Rhesymeg yr astudiaeth hon**

1.36 Ym mrîff yr ymchwil ar gyfer y prosiect hwn, nododd LlC *"ddiffyg eglurder ynghylch y cymorth iaith Gymraeg"* a roddir ar hyn o bryd i ddisgyblion DLlE gydag anghenion cymorth gyda CIY. Mae'r diffyg eglurder hwn yn deillio o'r prif ffactorau canlynol: [60]

- Nid oes gwasanaeth i ddisgyblion Cymraeg sy'n cyfateb i'r gwasanaeth SIY ar gael ar hyn o bryd - h.y., nid oes ffurf o wasanaeth CIY sydd wedi ei ddiffinio'n dda ac a dderbynnir yn gyffredinol ar hyn o bryd.
- O'r herwydd, nid oes lefel debyg o arbenigedd mewn methodolegau hyfforddi a dysgu ar gyfer CIY.
- Nid yw casglu data fel y mae ar hyn o bryd trwy CYBLD yn nodi nifer y disgyblion DLlE sydd yn mynychu ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog ac sydd ag anghenion cymorth gyda'r iaith Gymraeg.
- Mae diffyg tystiolaeth am lefel y cymorth iaith Gymraeg y mae disgyblion CIY, nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu hiaith gyntaf, yn dderbyn mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid i drochi yn y Gymraeg, na pha mor gyson yw'r cymorth hwn ar draws ysgolion ac ALl.

1.37 Cyfyd y cyfuniad hwn o ffactorau gwestiwn sylfaenol ynghylch a oes angen gwasanaeth CIY diffiniedig (tebyg i'r gwasanaeth SIY) i wella'r ddarpariaeth cymorth iaith i ddisgyblion DLlE sy'n dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol mewn lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog.

[59] Llywodraeth Cymru, Adran Addysg a Sgiliau (Mawrth 2013) Fframwaith Llythrnenedd a Rhifedd Cenedlaethol, t.10.
[60] Llywodraeth Cymru (2013), Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Manyleb Ymchwil, t.7.

1.38 Cynlluniwyd yr astudiaeth hon felly i wella dealltwriaeth o lefel bresennol yr angen a lefel y cymorth iaith Gymraeg sydd ar gael i ddisgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid. Mae'r astudiaeth yn amlygu bylchau yn y ddarpariaeth ac yn rhoi esiamplau o arfer da. Mae hefyd yn dangos sut y mae'r arfer presennol yn cymharu â'r cymorth SIY sydd wedi ei hen sefydlu ac a gynigir mewn ysgolion cyfrwng- Saesneg yng Nghymru ac yn Lloegr.

**Nodau ac amcanion yr astudiaeth hon**

1.39 Dyma oedd nodau'r ymchwil hwn:

- Canfod beth yw cyfanswm nifer y disgyblion o gefndiroedd DLlE sydd angen cymorth CIY;
- Dod i ddeall y prosesau a'r darpariaethau presennol sydd ar gael mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid Cymraeg i gynorthwyo disgyblion CIY i gaffael y Gymraeg;
- Adnabod arfer effeithiol a bylchau yn y gwasanaethau presennol a roddir i ddisgyblion DLlE gydag anghenion cymorth mewn CIY; a
- Bod yn sail o wybodaeth i ddatblygu mwy o waith ymchwil yn y maes polisi hwn.

1.40 Mae modd torri'r nodau uchod i lawr i'r amcanion a'r cwestiynau ymchwil a ganlyn:

*Amcan 1: Canfod beth yw'r sefyllfa bresennol mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog*

<u>Adnabod a chofnodi anghenion disgyblion</u>

- Beth yw cyfanswm nifer y disgyblion o gefndiroedd DLlE sydd angen cymorth CIY mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog?
- Pa ddata a gesglir gan ysgolion ar ddisgyblion CIY a'u hanghenion a sut mae'n cael ei ddefnyddio?

- Pa asesu a wneir gyda disgyblion i asesu lefel eu cyrhaeddiad mewn Saesneg, Cymraeg a'u hiaith gyntaf? A sut mae hyn yn cael ei wneud?
- A yw'r arfau asesu a ddefnyddir yn rhai safonol?
- Beth yw deilliannau posib yr asesu a'r prosesau dilynol?

<u>Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion</u>

- Sut mae disgyblion CIY yn cael eu cymhathu i'r dosbarth a sut y maent yn cael eu cefnogi trwy'r cwricwlwm drwyddo draw?
- Pa wasanaethau sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion i'w helpu i wella lefel au cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y cwricwlwm? A yw'r rhain wedi eu teilwrio i anghenion y disgyblion?
- A yw disgyblion cymwys yn teimlo eu bod yn derbyn y cymorth cywir?
- A yw rhieni yn cael eu cynnwys yn y broses o gymhathu'r disgyblion i'r ysgol? Os felly, sut?

<u>Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon</u>

- A oes gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yr arbenigedd angenrheidiol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd DLIE? Os nad oes, beth yw'r bylchau?
- A yw athrawon wedi eu hyfforddi yn benodol i drin materion sy'n ymwneud â lleiafrifoedd ethnig (e.e. materion diwylliannol neu grefyddol)?

<u>Cyfarwyddyd, rheoli a chydgordio</u>

- A yw ysgolion/athrawon cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn ymwybodol o'r gefnogaeth a roddir trwy'r awdurdod lleol (ALl) a'r MEAG? Os felly, a yw'n cael ei ddefnyddio?
- A yw ysgolion/athrawon yn ymwybodol o'r gefnogaeth a roddir trwy'r Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS)? Os felly, a yw'n cael ei ddefnyddio? Beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth?
- Pa gydgordio sydd yna o fewn ysgolion, neu rhwng ysgolion mewn dalgylch, i gwrdd ag anghenion disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig? A oes cydlynydd?

- A yw ysgolion yn ymwybodol o'r ysgolion ieithoedd cymunedol/atebol y gall disgyblion eu mynychu? A oes sianeli i rannu gwybodaeth rhwng darpariaeth statudol a chymunedol?
- A yw ieithoedd cymunedol wedi eu cynnwys ym mholisïau iaith yr ysgol? A yw hyn yn dylanwadu ar ddarpariaeth ac addysgeg CIY, SIY ac ieithoedd cymunedol?

*Amcan 2: Darganfod beth yw'r sefyllfa bresennol mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid i drochi yn y Gymraeg*

<u>Cyfarwyddyd, rheoli a chydgordio</u>

- Beth yw'r camau yn y broses gyfeirio at Ganolfan Hwyrddyfodiaid a phwy sy'n rhan o'r broses?
- A yw cyfeirio yn orfodol ynteu ai argymhelliad yn unig ydyw?
- A oes asesiad arall yn cael ei gynnal gyda'r dysgwr wedi'r cyfeirio? Os felly, beth mae'n olygu?
- Beth yw deilliannau posib yr asesiad a'r prosesau dilynol?

<u>Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon</u>

- A oes gan athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid yr arbenigedd angenrheidiol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd DLIE?
- Sut mae eu harbenigedd a'u sgiliau yn cymharu ag athrawon mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog?

<u>Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion</u>

- Pa wasanaethau a roddir i ddisgyblion mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid i'w helpu i wella lefel eu cyrhaeddiad mewn Saesneg, Cymraeg ac yn y cwricwlwm?
- Pa gwricwlwm a ddysgir i ddisgyblion mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar wahan i'r Gymraeg?
- Beth yw'r broses adael i'r dysgwyr a sut y maent yn cael eu hail-gymhathu i'r ysgol a chwricwlwm yr ysgol?

- A yw rhieni yn ymwneud â'r broses o ail-gymhathu disgyblion yn ôl i'r ysgol? Os felly, sut?
- Pa gefnogaeth a roddir i ddisgyblion wedi iddynt gael eu hail-gymhathu i'r ysgol?
- A yw disgyblion cymwys yn teimlo eu bod yn derbyn y cymorth cywir?

*Amcan 3: cymharu'r gwasanaethau a ddarperir mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog gydag arfer da a ddarperir trwy  wasanaethau SIY*

- Cadarnhau beth sy'n gweithio'n dda /enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog.
- Nodi'r beth fedrwn ddysgu o'r hyn sy'n hysbys am arferion da mewn gwasanaethau SIY (o dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli lle mae ar gael yng nghyd-destun Cymru, y DU ac yn rhyngwladol).
- Gweld sut mae'r gwasanaethau a ddarperir mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yn cymharu â gwasanaethau SIY sydd wedi hen sefydlu. Lle mae'r bylchau?

1.41 Yn unol â brîff yr ymchwil, cyfyngir poblogaeth yr astudiaeth hon i'r canlynol:

- disgyblion DLlE mewn ysgolion [61], tair i 19 oed, nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf ac y mae lefel eu cyrhaeddiad mewn Saesneg a Chymraeg angen cymorth ychwanegol (yn amodol ar asesu);
- disgyblion DLlE, tair i 19 oed, nad oes ganddynt unrhyw anghenion am gymorth iaith, ond sydd yn tangyflawni[62]; a
- disgyblion DLlE, tair i 19 oed  sydd angen cymorth i ennill cymwysterau yn iaith eu haelwyd.

1.42 Wrth gwrs, efallai y bydd rhai disgyblion DLlE, nad ydynt yn ddisgyblion Cymraeg  na Saesneg iaith ychwanegol, hefyd angen cefnogaeth wedi

[61] Mae lleoliadau Addysg Bellach y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon.
[62] At ddibenion yr astudiaeth hon, yr oedd brîff yr ymchwil yn diffinio'r disgyblion hyn fel rhai heb fod angen unrhyw gymorth CIY uniongyrchol, ond sydd yn 'tangyflawni' o ran eu lefelau cyrhaeddiad yn y Cwricwlwm.

ei dargedu er mwyn codi eu cyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, at ddibenion yr astudiaeth hon, mae'r cyfryw ddisgyblion DLlE y tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn. Seilir hyn ar y rhagdybiaeth na fyddai eu hanghenion o ran caffaeliad a chymorth gyda'r iaith Gymraeg yn wahanol i rai disgyblion o gefndiroedd eraill.

## 2 Methodoleg

2.1 Yr oedd methodoleg yr astudiaeth hon yn golygu:

- Adolygiad o gyhoeddiadau academaidd, dogfennau polisi ac adroddiadau;
- Cynllunio a gweinyddu holiadur i ddal data ‘gwaelodlin’ CIY gan ALl;
- Cyfweliadau teliffon neu wyneb-yn-wyneb ag arweinyddion timau Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) ym mhob ALl;
- Ymweliadau astudiaeth achos ag 11 ysgol cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog a phedair Canolfan Hwyrddyfodiaid i gyfweld y rheolwyr, staff dysgu a disgyblion CIY;
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid polisi ac addysg allweddol.

**Ymchwil ar gefndir polisi ac arferion gorau**

2.2 Cynhaliwyd adolygiad manwl o ddogfennau polisi LlC ynghylch addysg cyfrwng-Cymraeg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) a chyllid MEAG er mwyn cael dealltwriaeth gadarn o’r cefndir polisi a’r cyd-destun cyllido. Cynhaliwyd cyfweliadau anffurfiol a ffurfiol gyda staff LlC o’r Adran Addysg a Sgiliau, gan gynnwys yr Isadran Cefnogaeth i Ddysgwyr, yr Uned Cymraeg mewn Addysg a’r Isadran cwricwlwm er mwyn cael gwell dealltwriaeth o bolisi Llywodraeth Cymru. Cyfwelwyd cynrychiolydd o Estyn [63] a Chymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol Cymru (EALAW)[64] er mwyn cael safbwyntiau’r arolygiaeth addysg a’r corff proffesiynol sydd yn cynrychioli ymarferwyr SIY yng Nghymru.

2.3 Cafwyd dealltwriaeth o’r arferion da cyfredol mewn gwasanaethau SIY o lawer ffynhonnell. O safbwynt rhyngwladol, buom yn adolygu argymhellion *Tasglu’r Trawsiwerydd ar Fewnfudo ac Integreiddio*. O ran

[63] Arolygwyr Ei Mawrhydi am Addysg a Sgiliau yng Nghymru.

[64] Corff Prydeinig nid-am-elw yw EALAW sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo datblygiad iaith a chwricwlwm i ddisgyblion sy’n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Sefydlwyd EALAW ym 1998 fel chwaer-fudiad i NALDIC, Cymdeithas Genedlaethol Datblygu Iaith yn y Cwricwlwm (‘National Association of Language Development in the Curriculum’).

Cymru, ceisiwyd gwybodaeth a thystiolaeth ddogfennol am arfer SIY da yng Nghymru o wefannau Llywodraeth Cymru, Estyn, ac EALAW ac yn ystod cyfweliadau rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr pob mudiad. Hefyd, casglwyd peth gwybodaeth am arferion SIY da yn ystod cyfweliadau gydag arweinwyr EMAS.

2.4 I ddod i ddeall arferion SIY da yn Lloegr, fe wnaethom adolygu adroddiadau perthnasol a gyhoeddwyd ac a roddwyd ar gael ar wefannau *Ofsted*[65] a'r Gymdeithas Genedlaethol Datblygiad Iaith yn y Cwricwlwm (NALDIC). Fe fuom hefyd yn cynnal cyfweliadau gyda dau ymarferwr SIY yng Nghaer-lyr (un yn Bennaeth SIY mewn ysgol uwchradd aml-ethnig ac un Pennaeth Gwasanaethau Dysgu). Fe roesant drosolwg o ddarpariaeth cymorth SIY o safbwynt gwasanaeth cymorth cyrhaeddiad DLlE ac ysgolion. Byddai modd gwneud achos dros adnabod arfer SIY da mewn unrhyw nifer o gytrefi yn Lloegr. Dewiswyd Caer-lyr am eu bod wedi datblygu polisi amlddiwylliannol cadarn, a sefydlodd wasanaethau SIY ac ieithoedd cymunedol ar sail broffesiynol o'r 1980au ymlaen.[66]

2.5 O'r gweithgareddau ymchwil uchod, gwelwyd nodweddion allweddol arferion da mewn cymorth i ddisgyblion SIY. Defnyddiwyd y nodweddion allweddol hyn fel meincnod i adolygu'r gefnogaeth CIY bresennol i ddisgyblion DLlE yng Nghymru ac i weld lle mae bylchau yn y ddarpariaeth honno. Cyflwynir nodweddion allweddol arferion SIY da a ddefnyddir at ddibenion adolygu ym Mhennod 3.

## Casglu data meintiol CIY

2.6 I ddod i ddeall nifer y disgyblion CIY ar lefel ALl, cynhaliwyd ymarferiad casglu data meintiol gyda phob ALl yng Nghymru. Yn unol â chyllido CGE ar gyfer y prosiect ymchwil hwn, casglwyd data o'r 15 ALl yn

[65] Prif Arolygwr Ei Mawrhydi am Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Lloegr).
[66] http://www.leics.gov.uk/index/education/going_to_school/emtas.

ardaloedd Cydgyfeiriant gorllewin Cymru a'r Cymoedd.[67] Casglwyd yr un data hefyd o'r saith ALl yn nwyrain Cymru, sy'n ffurfio'r Ardal Ranbarthol Cystadleurwydd a Chyflogaeth (y cyfeirir ati fel ardal Cystadleurwydd yn yr adroddiad hwn)[68] . Fel hyn, yr oedd modd cymharu'r data a gasglwyd rhwng ardaloedd Cydgyfeiriant a Chystadleurwydd.

2.7 Defnyddiwyd Ffurflen Casglu Data Gwaelodlin (Atodiad 3) i wneud y canlynol:

- Canfod nifer yr ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog a Chanolfannau trochi Hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg;
- Canfod nifer y disgyblion DLlE sydd nhagen cymorth iaith Gymraeg mewn lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg;
- Cadarnhau pa ddata a gesglir am y boblogaeth yr ymddiddorir ynddi a sut y'i defnyddir.

2.8 Ar sail trafodaethau rhwng LlC a Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS), casglwyd y data trwy arweinwyr EMAS fel na fyddai cymaint o faich ar ysgolion ac i hwyluso proses gyflymach o gasglu data.

2.9 Rhoddodd arweinwyr EMAS ffigyrau am gyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog mewn lleoliadau statudol ac ysgolion cynradd. Mae CYBLD yn casglu data am nifer y meithrinfeydd. Fodd bynnag, mae nifer fawr o ysgolion cynradd hefyd yn darparu addysg cyn-ysgol. Casglwyd data am ysgolion cynradd a chyn-ysgolion yn annibynnol fel y byddai modd cyflwyno ffigyrau am gyn-ysgolion mewn lleoliadau statudol ar wahan. Mae nifer yr ysgolion uwchradd ar gael trwy CYBLD. Felly, gofynnwyd i arweinwyr EMAS gadarnhau bod y ffigyrau hyn yn gywir.

2.10 Yr oeddem yn cydnabod na fyddai gan holl arweinwyr EMAS ddata cyflawn a manwl gywir am nifer y disgyblion wrth law yn hwylus. I

[67] Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell Nedd Porth Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen.
[68] Caerdydd, Sir y Fflint, Powys, Sir Fynwy, Casnewydd, Wrecsam a Bro Morgannwg.

gynorthwyo arweinwyr EMAS yn yr ymarferiad casglu data, darparwyd detholiadau data CYBLD perthnasol i bob arweinydd. Yr oedd y rhain yn cynnwys nifer o briodweddau a allai helpu i ganfod a all fod gan ddisgybl DLIE anghenion CIY. Y disgwyl oedd y gallai arweinwyr EMAS hefyd angen gwirio'r data gyda'r ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn eu ALl er mwyn rhoi data manwl gywir.

2.11 Er i holl arweinwyr EMAS ddychwelyd yr Holiadur Casglu Data Gwaelodlin fel y cytunwyd, yr oedd y data a ddarparwyd yn gyffredinol yn anghyflawn ac anghyson. Ni fedrodd mwyafrif yr ymatebwyr ddarparu data hollol fanwl gywir am nifer y disgyblion DLIE a aseswyd fel rhai oedd angen cymorth gyda CIY. Y rheswm am hyn oedd nad yw data o'r fath yn cael ei gasglu ar lefel ALl a/neu ysgol. Dim ond mewn dau ALl Cydgyfeiriant y mae ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn cydweithredu gyda'u EMAS i asesu a chofnodi cynnydd caffaeliad CIY eu disgyblion DllE fel mater o drefn. Adroddodd arweinwyr EMAS fod ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn tueddu i beidio ag adrodd wrthynt am y disgyblion gydag anghenion cymorth ychwanegol mewn Cymraeg onid yw'r ALl yn gwneud cais am gyllid MEAG i dalu am y cymorth hwn.

2.12 Nid oedd gan fwyafrif yr arweinwyr EMAS unrhyw ddata CIY. Felly, cafodd rhai arweinwyr EMAS ffigyrau trwy gysylltu â'r ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog ysgolion yn eu hawdurdod. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd data CIY o hyd ar gael gan ysgolion neu nid oedd gan yr ysgolion yr amser na'r adnoddau i ymateb. Lle digwyddodd hyn, yr oedd ymatebwyr EMAS naill ai yn: i) adrodd nad oedd y data ar gael iddynt, neu ii) ceisio adnabod disgyblion DLIE gydag anghenion CIY ar sail data archwilio CYBLD, MEAG a MELAP. [69]

### Casglu data ansoddol ar ddarpariaeth CIY

[69] Y naw ALl sy'n cymryd rhan yn MELAP LlC yw Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell Nedd Porth Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

*Cyfweliadau gydag arweinwyr EMAS*

2.13 Dilynwyd y casglu data meintiol gan ALl gan gyfweliadau dros y ffôn â phob tîm EMAS. Byddai'r cyfweliadau hyn fel arfer yn para rhyw 30 i 40 munud, ac yn cael eu cynnal gyda rheolwr pob EMAS. Yn achos pedwar o gyfweliadau ALl, fe'u cefnogwyd gan arbenigwr ychwanegol Cymraeg ei h/iaith oedd yn deall yn fanylach yr arferion mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog.[70]

2.14 Neilltuwyd rhan gyntaf y cyfweliadau hyn i wirio'r data gwaelodlin a dderbyniwyd. Yr oedd prif ran y cyfweliad yn canolbwyntio ar y pynciau isod (gweler y canllaw llawn i'r pynciau yn Atodiad 4):

- Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion
- Arbenigedd staff a hyfforddiant athrawon
- Cyfarwyddyd, rheoli a chydgordio
- Canolfannau Hwyrddyfodiaid i drochi yn y Gymraeg
- Enghreifftiau o arfer da mewn CIY.

2.15 Gwnaed dadansoddiad cynnwys o gofnodion ysgrifenedig y cyfweliadau, a'u denfyddio o ategu a thriongleiddio data o haenau eraill yr ymchwil.

2.16 Cynhaliwyd ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid er mwyn cael tystiolaeth ansoddol am y canlynol:

- Cyfarwyddyd, rheoli a chydgordio darpariaeth a chymorth CIY;
- Sut mae anghenion disgyblion am gymorth gyda CIY yn cael eu hadnabod a'u cofnodi;
- Sut mae cynnydd disgyblion yn cael ei gefnogi a'i fonitro;
- Barn broffesiynol am gysyniad CIY ac arfau asesu caffaeliad y Gymraeg;

[70] Yn ychwanegol at reolwyr EMAS, cymerodd y canlynol ran hefyd yn y cyfweliadau dilynol: dau o athrawon ymgynghorol (Gwynedd, Caerffili); un arbenigwr Cymraeg ei iaith ar ddyslecsia (Pen-y-bont). Yn achos Caerdydd, dirprwyodd y rheolwr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr y cyfweliad i aelod tîm EMAS oedd yn siarad Cymraeg, ond gwiriodd yr atebion  i bob un o'r cwestiynau canllaw pwnc a chytuno arnynt cyn y cyfweliad.

- Ymwybyddiaeth, arbenigedd ac anghenion hyfforddi ychwanegol y staff dysgu;
- Dealltwriaeth o brofiad disgyblion DlE o addysg cyfrwng-Cymraeg.

2.17 Ar sail y data a gasglwyd gan arweinwyr EMAS, dewiswyd 10 ALl ar gyfer ymweliadau astudiaeth achos. Cymerwyd sampl i gael dosbarthiad daearyddol ac i ddal ystod y polisïau addysg Gymraeg a'r arferion darparu CIY cyfredol ledled Cymru. Yr ALl yn yr Ardaloedd Cydgyfeiriant oedd: Pen-y-bont, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, a Thorfaen. Y ddau ALl mewn Ardal Cystadleurwydd oedd Caerdydd a Sir y Fflint.

2.18 Cynhaliwyd ymweliadau astudiaeth achos mewn unarddeg o ysgolion a phedair Canolfan Hwyrddyfodiaid (gweler Atodiad 2). Yr oedd yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn cynnwys un ysgol uwchradd ddwyieithog, un ysgol ddwyieithog i ddisgyblion tair i 19 oed a naw ysgol gynradd cyfrwng-Cymraeg [71] gyda darpariaeth cyn-ysgol ar y safle. Yr oedd un o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn rhoi cymorth i ddisgyblion uwchradd (11 i 12 oed). Yr oedd y tair Canolfan arall yn rhoi cymorth i ddisgyblion cynradd (saith i 11 oed). Cafodd rhai o'r ysgolion a'r Canolfannau eu dewis hefyd i ddilyn llwybrau dysgu disgyblion rhwng eu hysgol a'r Ganolfan yr oeddent yn ei mynychu er mwyn dogfennu'r ddarpariaeth cymorth iaith Gymraeg oedd ar gael iddynt gan bob darparwr addysg.

2.19 Nod pob ymweliad astudiaeth achos oedd cyfweld aelodau o'r tîm rheoli, athrawon dosbarth, cynorthwywyr dysgu a disgyblion (gweler y canllaw pwnc yn Atodiad 5). Yn ymarferol, yr oedd nifer a chyfuniad yr unigolion a gyfwelwyd yn amrywio yn dibynnu ar faint o staff a disgyblion oedd ar gael. Mewn ysgolion, cyfwelwyd cyfanswm o wyth pennaeth, a thri o benaethiaid cynorthwyol/dirprwyon yn ychwanegol at 16 o athrawon dosbarth/pwnc a 13 o ddisgyblion. Yr oedd gan yr athrawon a gyfwelwyd ystod o gyfrifoldebau ac yr oedd rhai hefyd yn Gydlynwyr

[71] Canfuwyd fod mwyafrif y disgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg. Dyma pam fod mwy o ysgolion cyfrwng-Cymraeg na dwyieithog yn sampl yr astudiaeth achos.

Llythrennedd/iaith, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA), yn arwain ar yr iaith Gymraeg ac yn aelodau o dîm rheoli'r ysgol. Yn dibynnu ar eu hargaeledd, cyfwelwyd staff rheoli a dysgu'r ysgol yn unigol, mewn parau ac mewn cyfweliadau grwpiau bychain (40 munud fel rheol). Mewn tair ysgol, cymerodd yr arweinydd EMAS lleol ran hefyd yn y cyfweliadau gyda staff yr ysgol.

2.20 Yr oedd y disgyblion CIY a gyfwelwyd yn yr ysgolion yn cynnwys disgyblion o Wlad Pwyl, Gwlad Thai, Hwngari, China, Malaysia, Irac, Pacistan, ac India ac yr oeddent yn amrywio o fod yn y Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 10. Cyfwelwyd y disgyblion mewn grwpiau bychain. Nod y cyfweliadau gyda'r disgyblion oedd cael mewnwelediad i'w profiad o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r mathau o gymorth oedd yn fuddiol iddynt yn yr ysgol ac mewn Canolfan Hwyrddyfodiaid.

2.21 Yn y Canolfannau Hwyrddyfodiaid, cyfwelwyd pedwar o athrawon/rheolwyr arweiniol, tri o athrawon a phedwar disgybl naill ai yn unigol neu mewn grwpiau bychain. Yr oedd oedran y disgyblion yn amrywio rhwng oedran Derbyn a Blwyddyn 7 ac yr oeddent yn dod o Wlad Thai, Rwsia a Lithwania.

2.22 Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau yn Gymraeg a/neu Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y cyfweleion. Recordiwyd y cyfweliadau ar sain a gwnaed cofnod ysgrifenedig o'r cyfweliad yn unol â chytundeb y cyfranogwyr. I gefnogi data eu cyfweliadau, darparodd rhai ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid dystiolaeth ddogfennol o'u harferion cyfredol (gweler Atodiad 2).

2.23 Cynhaliwyd ymweliad astudiaeth achos ychwanegol hefyd â Gwasanaeth Addysg Aml-Ethnig Gwent (GEMS) yng Nghasnewydd lle cafwyd trafodaeth fanwl ac y gwelwyd Cofnodion Caffaeliad Iaith GEMS ac adnoddau eraill.

2.24 Ansoddol yn bennaf oedd y data a gasglwyd ystod ymweliadau astudiaethau achos, ar ffurf cofnodion ysgrifenedig o gyfweliadau a thystiolaeth ddogfennol. Cynhaliwyd dadansoddiad o gynnwys y

cofnodion hyn. Defnyddiwyd data astudiaethau achos i ategu a thriongleiddio peth o’r data meintiol ac ansoddol a gasglwyd gan arweinwyr EMAS yn ogystal â darparu data newydd am ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid.

2.25 Yn yr adroddiad hwn, nid yw ysgolion na Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn cael eu henwi ac ni phriodolir dyfyniadau verbatim, er mwyn cadw enwau cyfranogwyr yr ymchwil yn ddienw. Cydsyniodd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil yn benodol i’w gwybodaeth gael ei ddefnyddio at ddibenion yr astudiaeth hon. Yn achos disgyblion, ceisiwyd yn gyntaf ganiatâd eu rhieni/gofalwyr neu gan yr ysgol. Llywodraethwyd yr ymchwil gan Fframwaith Moeseg Ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).[72]

[72] ESRC Framework for Research Ethics (FRE) 2010, Cyfoeswyd Medi 2012. http://www.esrc.ac.uk/_images/Framework-for-Research-Ethics_tcm8-4586.pdf

## 3 Adolygiad o arferion da wrth ddarparu cymorth iaith ychwanegol

3.1 Yn y bennod hon, adolygir y dystiolaeth bresennol am arfer da mewn gwasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) yng nghyd-destun Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Ar sail nodweddion allweddol yr arferion da a nodwyd, rydym yn darparu rhestr wirio o arferion da y gellir gwerthuso'r ddarpariaeth CIY bresennol yn ei erbyn.

### Tystiolaeth ryngwladol ac o'r DU

3.2 Mae tystiolaeth ymchwil o'r DU ac yn rhyngwladol yn cadarnhau'r angen am ddarparu cymorth ychwanegol mewn iaith i ddisgyblion DLIE er mwyn gwneud yn siŵr bod eu cyrhaeddiad cystal â disgyblion eraill ym mhob cam yn eu haddysg. Yn rhyngwladol. Mae data o raglen yr OECD ar gyfer asesu myfyrwyr rhyngwladol (PISA), er enghraifft, yn dangos fod disgyblion DLIE yn tueddu i berfformio ar lefelau sylweddol is na'u cyfoedion brodorol mewn pynciau addysgol allweddol fel mathemateg, darllen, gwyddoniaeth a sgiliau cyffredinol datrys problemau.[73] Mae astudiaeth PISA yn cadarnhau pwysigrwydd rhoi cymorth iaith effeithiol i ddisgyblion i gaffael iaith y dysgu fel eu bod yn llwyddo yn addysgol ac yn cyrchu'r farchnad lafur [74]. Ceir canfyddiadau ymchwil a chasgliadau tebyg mewn astudiaethau sydd wedi canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion iaith ychwanegol yng Nghymru.[75]

3.3 Er mwyn adnabod arfer effeithiol a bylchau yn y gwasanaethau presennol a ddarperir i ddisgyblion DLIE gydag anghenion CIY, cynhaliwyd adolygiad o ddetholiad o adroddiadau ymchwil allweddol

[73] Where Immigrant Students succeed – A Comparative Review of Performance and Engagement in PISA 2003', OECD, 2006.
[74] Ibid.
[75] 'The Achievement of Ethnic Minority Pupils in Wales', gan EALAW i Lywodraeth Cynulliad Cymru (2003). Hefyd, 'Minority ethnic additional language pupils in Wales' gan Jonathan Brentnall yn Brentnall, J.; Cann, J. a Williams, C. (2009) *Language in Multilingual Wales*, Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Bangor.

sydd yn amlygu nodweddion arfer da mewn cymorth iaith ychwanegol. Ymysg y rhai mae adroddiad sydd yn gwerthuso cymorth iaith ychwanegol mewn cyd-destunau rhyngwladol gan y corff rhyngwladol dylanwadol, y *Tasglu Trawsiwerydd ar Fewnfudo ac Integreiddio* [76]*.* O ran nodweddion arfer da mewn SIY yng Nghymru a'r DU, adolygwyd adroddiadau a chanllawiau oedd ar gael trwy wefannau LlC, Ofsted, Estyn*, EALAW*[77]*, NALDIC*[78]*, NASSEA*[79] a *NWEMA HUB*[80] hefyd. Mae rhestr o'r adroddiadau a adolygwyd yn Atodiad 6.

3.4 Yn 2007, cyhoeddodd y *Tasglu Trawsiwerydd ar Fewnfudo ac Integreiddio* ei adolygiad o bolisiau iaith ac arfer i helpu mewnfudwyr a myfyrwyr ail-genhedlaeth i lwyddo, ar sail tystiolaeth o 14 gwlad. Nododd y Tasglu y ffactorau allweddol a ganlyn am lwyddiant, seiliedig ar dystiolaeth o'r tair gwlad [81] sydd yn dangos gwahaniaethau bychain yn unig a nodwyd rhwng disgyblion iaith ychwanegol a myfyrwyr eraill: [82]

- *"Mae rhaglenni cymorth iaith yn systematig gyda safonau a gofynion;*
- *Mae llunwyr polisi yn dewis ac yn buddsoddi mewn modelau systemaidd ac effeithiol o gymorth iaith ar bob lefel o addysg;*
- *Pennir cwricwla ar y lefel leol ond meant yn seiliedig ar ddogfennau cwricwlwm allweddol canolog, gan gynnwys fframweithiau datblygu iaith a meincnodau cynnydd;*
- *Mae gan raglenni cymorth iaith safonau uchel ac y meant yn sicrhau bod myfyrwyr yn caffael sgiliau iaith yng nghyd-destun y Cwricwlwm*

[76] Cynullwyd y tasglu hwn i hybu polisiau mewnfudo meddylgar ac asesu ac ymateb i heriau sylweddol cymhathu mewnfudwyr ac adeiladu cymunedau cryfach ar ddwy ochr yr Iwerydd. Mae'n cyfeirio ei argymhellion at sefydliadau a llywodraethau Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, llywodraethau'r Unol Daleithiau a Chanada, a llywodraethau taleithiol a lleol a chymdithas sifig ym mhob man.
[77] English as an Additional Language Association of Wales (EALAW), www.ealaw.org.uk**.**
[78] National Association for Language Development in the Curriculum (NALDIC), www.naldic.org.uk
[79] The Northern Association of Support Services for Equality and Achievement (NASSEA), http://nassea.org.uk
[80] The North West Ethnic Minority Achievement Hub (NWEMA HUB), www.nwemahub.net
[81] Awstralia (Victoria), Canada (British Colombia) a Sweden.
[82] 'Language policies and practices for helping immigrants and second generation students succeed' gan Gayle Christensen a Petra Stanat (The Transatlantic Taskforce on Immigration and Integration) 2007.

*prif-ffrwd ac y gallant gymhathu i ddosbarthiadau addas i'w hoedran a lefel eu gallu;*

- *Mae rhaglenni cymorth iaith yn ddwys o ran amser;*
- *Mae athrawon sy'n dysgu disgyblion iaith ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant arbenigol (naill ai cyn neu mewn swydd), gyda rhai yn cwblhau graddau uwch mewn dysgu'r cyfrwng dysgu fel ail iaith;*
- *Mae'r hyfforddiant mwyaf effeithiol i athrawon yn ymdrin â chymorth iaith ymhlyg a diamwys. Mae cymorth iaith diamwys yn mynnu bod gan athrawon wybodaeth ieithyddol gref, fel y gallant ddysgu strwythurau gramadegol yn effeithiol. Rhaid iddynt hefyd fod yn ymwybodol o strwythurau iaith sydd yn peri'r prif rwystrau o ran caffaeliad iaith ychwanegol a sut i oresgyn y rhain;*
- *Mae athrawon disgyblion iaith ychwanegol yn dueddol o gydweithio gydag athrawon dosbarth i wneud yn siwr eu bod yn cwrdd ag anghenion myfyrwyr o fewnfudwyr."*

3.5 Nododd y Tasglu nodweddion y gwledydd llai llwyddiannus fel a ganlyn:[83]

- *"Diffyg dogfennau fframwaith cwricwlwm diamwys;* a
- *Diffyg rhaglenni ardystio ar gyfer dysgu disgyblion ail iaith."*

3.6 Yn y DU, mae'r maes SIY bellach wedi hen sefydlu. NALDIC, y gymdeithas pwnc Brydeinig ar gyfer SIY, ynghyd ag EALAW a'r 'Scottish Association for Teachers of English as an Additional Language' (SATEAL) yn yr Alban yw'r cyrff proffesiynol sydd â'r nod o hybu arfer da mewn cymorth i ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol. Rhoddodd EALAW i'r astudiaeth restr o'r nodweddion allweddol sydd yn eu barn hwy yn hanfodol i arfer da mewn SIY.

3.7 Mae Ofsted ac Estyn, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel arolygiaethau addysg a sgiliau, hefyd yn gwerthuso darpariaeth SIY ac yn nodi arfer da yn y maes hwn. Yng nghyswllt eu Fframwaith Arolygu Cyffredin (2010),

83 Ibid.

cynhyrchodd Estyn *Strategaeth a Chanllawiau ar gyfer Arolygu Llythrennedd i Ddisgyblion 3 i 18 oed* yn 2011 a *Chanllawiau Ategol: Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Saesneg fel Iaith Ychwanegol* yn 2013. Mae'r ddwy ddogfen yn cyflwyno rhestr o gwestiynau cysylltiedig â SIY yn ystod arolygiadau Estyn.

3.8 Mae DVD a gynhyrchwyd gan LlC, *Un Gymru, Sawl Llais*[84] yn dwyn ynghyd enghreifftiau o arfer da mewn rhoi cymorth i ddisgyblion SIY a CIY o amrywiaeth o fathau o ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng-Cymraeg. Cafodd y canllaw ymarferol hwn ar gyfer gweithredu arfer effeithiol ei ddosbarthu i bob ysgol gynradd, uwchradd, arbennig a ffydd yng Nghymru yn 2010. Mae'n ymdrin â'r agweddau canlynol: Cyrraedd a Chynefino; Asesu; Adnabod Anghenion Addysgol Arbennig; Gweithio ar y Cyd; Cefnogaeth Amlieithog; Iaith Gyntaf/Iaith y Cartref; Lleoliadau Cyfrwng-Cymraeg; Mentora a Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc.

3.9 Yn Lloegr, cynhyrchodd yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) fel yr oedd bryd hynny ganllawiau cenedlaethol [85] ar gyfer cefnogi 'newydd-ddyfodiaid' mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cadarnhaodd ein cyfweliadau yng Nghaer-lyr fod nodweddion y canllawiau SIY hyn yn Lloegr yn cael eu gweithredu fel safon yn ysgolion dinas Caer-lyr. Ymhellach, tynnodd y cyfweliadau hyn sylw at bwysigrwydd gwreiddio'r cyfrifoldeb am SIY yn nhîm uwch-reoli'r ysgol rhag iddo gael ei wthio i'r ymylon, a phwysigrwydd cyfleoedd i ysgolion weithredu fel canolfannau arholi i ieithoedd cymunedol i ddisgyblion yn ogystal ag i aelodau'r gymuned ennill cymwysterau yn eu hieithoedd eu hunain.

3.10 Ar sail yr holl ddogfennau a adolygwyd a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr, mae nodweddion allweddol arfer da mewn SIY yn cynnwys:

[84] Llywodraeth Cymru (2010) 'Un Gymru, Sawl Llais': DVD i ysgolion ar ateb anghenion disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yng Nghymru.
[85] DCSF (2007) 'New Arrivals Excellence Programme Guidance'.

- Bod ysgolion yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannau ac amlieithrwydd.
- Bod gan athrawon, rhieni a disgyblion ddisgwyliadau uchel am berfformiad yr holl ddisgyblion.
- Cyn eu bod yn dod yno, mae ysgolion yn casglu cymaint o fanylion ag sydd modd am addysg flaenorol disgybl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Cynhelir y cyfweliadau hyn yn iaith y cartref naill ai gan y staff dysgu neu trwy gyfieithydd. Caiff agwedd unigol at ddysgu ei nodi ar sail y wybodaeth gefndir hon.
- Mae disgyblion a rhieni yn cael cefnogaeth dda. Er enghraifft, pan fyddant yn cychwyn, mae disgyblion yn cael eu gosod gyda 'chyfaill' hyfforddedig sydd, lle bynnag bo modd, yn siarad yr un iaith â'r newydd-ddyfodiad. Gall y newydd-ddyfodiaid, er enghraifft, gael llyfryn yn cynnwys geirfa allweddol, geiriadur dwyieithog, a chânt fenthyca llyfrau dwy iaith neu lyfrau lluniau sy'n adlewyrchu eu profiadau eu hunain i fynd adref gyda hwy. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn pecyn croeso yn eu hiaith eu hunain.
- Mae pob disgybl SIY yn cael eu hasesu'n ofalus gan ddefnyddio fframwaith asesu priodol sydd yn berthnasol ac yn gysylltiedig â'r modd maent yn dysgu'r cwricwlwm.
- Mae ymyriadau wedi eu targedu'n ofalus yn mynd ochr yn ochr â darpariaeth o safon uchel yn y dosbarth, nid yn ei le. Mae disgyblion SIY felly yn cael profiad o ddysgu o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â rhaglenni ymyriad -penodol wedi eu personoleiddio.
- Mae systemau monitro ac asesu cadarn yn bwydo i mewn i osod targedau unigol er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn cael y cymorth priodol.
- Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol. Er enghraifft: gweithredu fel cyfieithwyr; cofnodi llyfrau llafar dwyieithog i ddisgyblion eraill;

dysgu disgyblion eraill am eu hieithoedd eraill; rhoi cyflwyniadau i'w cyfoedion am eu treftadaeth; disgyblion SIY yn hunanasesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion fel y gallant nodi pwyntiau datblygu ac ymwneud mwy â gosod targedau.

- Mae ysgolion yn tynnu ar dîm o athrawon arbenigol a chymwys dan reolaeth aelod o'r uwch-dîm rheoli, neu yn gallu gwneud hynny.
- Mae rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr yn defnyddio arbenigedd yn yr school a'r gwasanaeth iaith arbenigol lleol. Er enghraifft, hyfforddiant i'r ysgol gyfan am sut y mae disgyblion dwyieithog yn llwyddo ac yn dysgu, yn ogystal â hyfforddiant wedi ei deilwrio i bynciau lle nodir tanberfformiad disgyblion.
- Mewn ysgolion, mae ffocws ar hyfforddi ac ychwanegu at sgiliau staff ysgolion trwy HMS, hyfforddi, mentora, dysgu mewn partneriaeth ac adeiladu galluedd i ddatblygu arbenigedd y staff mewn dysgu disgyblion SIY.
- Mae'r holl athrawon yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ddysgu'r disgyblion SIY. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iaith ac o esbonio geiriau allweddol i ofalu bod yr holl ddisgyblion yn deall.
- Mae athrawon cefnogi SIY arbenigol ar gael i gynghori athrawon eraill am sut i helpu disgyblion i gyrchu'r dysgu yn y dosbarth neu i weld lle mae blociau neu fylchau mewn dysgu.
- Mae athrawon arbenigol yn dangos strategaethau effeithiol megis sgaffaldu, defnyddio cliwiau gweledol ac ail-adrodd cyfleoedd i ymarfer yr iaith a ddefnyddir ar gyfer tasgau penodol.
- Mae gofalu bod y tîm SIY wedi ei wreiddio yn strwythur uwch-reoli'r ysgol (neu fod gan yr uwch-reolwyr gynrychiolaeth uniongyrchol ar y gwasanaeth SIY) yn hanfodol i atal SIY rhag cael ei wthio i'r ymylon neu ddod yn wasanaeth 'ychwanegol'. Mae'r trefniant hwn yn hybu ethos 'ysgol gyfan' am greu a chynnal agweddau cadarnhaol at

ddwyieithrwydd a gwerthfawrogi ieithoedd eraill ar wahan i'r Saesneg (neu Gymraeg a Saesneg yn achos Cymru).

- Mae systemau ar gael i sicrhau bod cymorth i ddisgyblion gydag anghenion cymorth iaith ychwanegol yn gyson trwy bob cam o'u haddysg gynradd, uwchradd a phellach.
- Mae ysgolion yn gweithredu fel canolfannau i arholiadau mewn ieithoedd cymunedol i alluogi disgyblion dwyieithog i gael credyd cydnabyddedig am eu llwyddiannau. Mae rhai ysgolion yn trafod i gael darpariaeth Saesneg fel Iaith Dramor (EFL) yn eu cwricwlwm Ieithoedd Modern i alluogi disgyblion SIY i gymryd Saesneg fel iaith 'dramor' er mwyn darparu dull arall i fyfyrwyr SIY ennill cymhwyster yn yr iaith Saesneg.
- Mae ysgolion wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r gymuned maent yn ei gwasanaethu, sydd yn rhoi gwerth ar ieithoedd cymunedol a chefnogaeth y rhieni. Gallai partneriaethau gydag ieithoedd cymunedol/ ysgolion ategol gyfoethogi'r broses hon.

**Rhestr wirio seiliedig ar adolygu arferion da**

3.11 Ar sail ein hadolygiad o arferion da mewn SIY, rydym wedi llunio'r 'rhestr wirio arferion da' a ganlyn. Defnyddir hon ym Mhennod 6 i adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarferiad ymchwil hwn.

*Cyfarwyddyd, rheoli a chyd-gordio*

- As oes polisi diamwys o amrywiaeth ddiwylliannol a chefnogaeth ar lefelau cenedlaethol,  ALl ac ysgol lle mae anghenion disgyblion CIY yn ogystal â SIY am gymorth yn cael eu cydnabod?
- A yw cysyniad CIY yn ogystal â SIY wedi ei wreiddio yn yr uwch-dîm rheoli i osgoi ei wthio i'r ymylon?

- A yw ieithoedd cymunedol wedi eu cynnwys ym mholisiau iaith ysgolion mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog?
- A yw'r cymorth CIY yn cael ei bennu ar lefel leol ond yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys fframweithiau datblygu iaith a meincnodau cynnydd?
- A oes partneriaethau cydweithredol rhwng athrawon cyrhaeddiad arbenigol, athrawon cefnogi iaith, athrawon dosbarth prif-ffrwd, athrawon pwnc, athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac athrawon ieithoedd cymunedol/ysgolion ategol o ran CIY?
- A oes gan ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid strategaethau cyfathrebu effeithiol a phartneriaethau gyda rhieni/gofalwyr a chymunedau DLlE?

*Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon*

- A yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannau ac amlieithrwydd?
- A oes agwedd genedlaethol gyson tuag at hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth yng nghyswllt CIY?
- A yw athrawon sy'n dysgu disgyblion CIY wedi derbyn hyfforddiant arbenigol (naill ai cyn neu mewn swydd), gyda rhai yn cwblhau graddau uwch mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith?

*Adnabod a chofnodi anghenion disgyblion*

- A yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn casglu manylion am addysg flaenorol dysgwr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu agwedd wedi ei phersonoleiddio tuag at ddysgu?

- A yw'r holl ddisgyblion CIY yn cael eu hasesu a'u cynnydd yn cael ei fonitro trwy ddenfyddio fframwaith asesu CIY priodol gyda disgrifyddion camau wedi eu cysylltu i'r cwricwlwm cenedlaethol?
- A yw systemau ar gyfer olrhain cyrhaeddiad/llwyddiant disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg ac ar draws y cwricwlwm wedi eu datblygu a'u gweithredu?
- A yw caffaeliad iaith Gymraeg disgyblion yn cael ei fonitro'n gadarn, a hynny'n cael ei fwydo i mewn i osod targedau unigol er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn cael y cymorth priodol?
- A oes adnoddau o safon dda ar gael i asesu a dysgu CIY?

*Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion*

- A yw disgyblion CIY newydd a'u rhieni yn cael cefnogaeth dda mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid?
- A yw ysgolion yn cydnabod anghenion penodol disgyblion sy'n dysgu CIY a SIY ac yn mabwysiadu agweddau cynhwysol sydd yn cefnogi disgyblion yn y dosbarth ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith sy'n berthnasol i gyd-destun addysgol y disgyblion?
- A yw disgyblion CIY yn caffael sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm prif-ffrwd ac a fedrant integreiddio i ddosbarthiadau addas i'w hoedran a lefel eu gallu?
- A oes cefnogaeth CIY gyson i ddisgyblion rhwng lefel yr ysgol gynradd ac uwchradd?
- A yw gweithwyr cefnogi/cynorthwywyr dysgu iaith Gymraeg yn tueddu i gydweithio gydag athrawon dosbarth i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion CIY a SIY disgyblion DLlE?

- A oes cydweithredu rhwng arbenigwyr SIY/CIY ac athrawon dosbarth prif-ffrwd i gynllunio gwersi a strategaethau addysgeg ar y cyd er lles y dosbarth cyfan?
- A yw ysgolion yn gweithredu fel canolfannau arholi mewn ieithoedd cymunedol er mwyn galluogi disgyblion CIY i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu cartref?

3.12 Ym Mhennod 6, yr ydym yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth hon yn erbyn y rhestr wirio hon o arfer da i nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer CIY.

# 4 Y sefyllfa bresennol mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog

4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth hon yng nghyswllt y sefyllfa bresennol mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog. Rydym yn cyflwyno'r data a ddarparwyd i ni gan arweinwyr EMAS. Mae ein canfyddiadau yn yr adran hon hefyd wedi eu tynnu o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid, arweinwyr EMAS ac ymweliadau astudiaeth achos i ysgolion. Rydym yn trafod pob un o'r cwestiynau ymchwil a restrir dan Amcan 1 (gweler adran 1.40) ac yn eu cyflwyno dan y penawdau a ganlyn:

- Adnabod a chofnodi anghenion disgyblion
- Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion
- Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon
- Cyfarwyddyd, rheoli a chyd-gordio

## Adnabod a chofnodi anghenion disgyblion

*Asesu caffaeliad iaith disgyblion CIY*

4.2 Mae'r adran hon yn ystyried yr asesiadau a ddefnyddir mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog i sefydlu lefel caffaeliad disgyblion CIY yn eu hiaith gyntaf, Saesneg, a Chymraeg. Tynnwyd tystiolaeth o ddata EMAS a chyfweliadau, ymweliadau astudiaeth achos i ysgolion, a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

Asesiadau iaith gyntaf

4.3 Dim ond ychydig o dimau EMAS sydd yn cynnal asesiadau iaith gyntaf gyda disgyblion CIY ar ran ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog. Yn nodweddiadol, aelod o dîm EMAS oedd yn rhugl yn iaith cartref y dysgwr oedd wedi cynnal y rhain. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, ni

chynhelir unrhyw asesiad cychwynnol yn iaith/ieithoedd cartref y disgyblion CIY. Teimlai'r athrawon a gyfwelwyd oedd â phrofiad o 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion CIY y byddai hyn yn fuddiol iddynt er mwyn deall yn well alluoedd ieithyddol a gwybyddol dysgwr newydd, ac i gefnogi'r disgybl hwnnw yn unol â hynny o'r cychwyn.

Asesiadau iaith Saesneg

4.4 Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn defnyddio asesiadau'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (PADP).[86] Nid yw PADP ond yn asesu datblygiad iaith Gymraeg disgyblion yn unol â'r cwricwlwm cyfrwng-Cymraeg. Dywedwyd bod disgyblion CIY, nad ydynt yn siarad Saesneg ac yn ymuno ag ysgol cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn cael eu hasesu gan athrawon yn yr un modd â'u cyfoedion sy'n siarad Saesneg. Mae ysgolion fel arfer yn asesu lefel cyrhaeddiad y disgyblion mewn Saesneg pan gaiff Saesneg ei gyflwyno yn CA 2 (ym Mlwyddyn 3).

4.5 Yn ôl arweinwyr EMAS, mae rhai timau EMAS yn cynnal asesiadau arferol SIY gyda disgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Mae EMAS eraill ond yn cynnal asesiadau CIY ac yn darparu cymorth CIY yn unol â chwricwlwm cyfrwng-Cymraeg y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd rhai arweinwyr EMAS y gallent asesu angen a rhoi cymorth yn y naill iaith neu'r llall, yn dibynnu ar angen dysgwr am gymorth yn y cwricwlwm.

4.6 Y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion DLIE cynradd ac uwchradd o 'hwyrddyfodiaid' sydd yn cyrraedd ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yn cael eu hanghenion SIY wedi eu hasesu fel mater o drefn gan dimau EMAS. Staff EMAS sydd fel arfer yn cynnal yr asesiadau SIY. Mewn rhai achosion, yr oedd timau EMAS wedi hyfforddi a rhoi i'r

[86] I ragweld cyflwyno ffurf ddiwygiedig ar asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, nid yw'r PADP bellach yn offeryn asesu statudol. Dywedodd yr holl ysgolion cynradd fu yn yr astudiaethau achos ac yr ymwelwyd â hwy yn ystod Hydref a Thachwedd 2013 eu bod yn parhau i ddefnyddio'r PADP yn niffyg ffurf newydd ar asesu, er mwyn cael y wybodaeth waelodlin yr oedd arnynt ei angen ar gyfer pob disgybl.

athrawon ddeunyddiau fel eu bod yn gallu cynnal yr asesiadau SIY eu hunain.

4.7 Canfu'r astudiaeth hon mai'r Model Pum Cam SIY yw'r erfyn asesu safonol a ddefnyddir ledled Cymru i ddisgyblion o bob oed. Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr EMAS fod pum cam y model SIY yn rhy lydan. O'r herwydd, mae mwyafrif y timau EMAS wedi datblygu eu systemau eu hunain er mwyn darparu dadansoddiad manylach o gynnydd y disgyblion a'u hanghenion am gymorth ychwanegol. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried mabwysiadu fframwaith caffaeliad iaith mwy manwl sydd yn briodol ar gyfer SIY ac o bosib CIY a'i safoni trwy Gymru.

<u>Asesiad iaith Gymraeg</u>

4.8 Yn achos asesiadau iaith Gymraeg, dengys data a gasglwyd o arweinwyr EMAS ac ysgolion astudiaeth achos nad oes agwedd safonol at asesu caffaeliad disgyblion CIY o'r Gymraeg. Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gall hyn fod yn arwydd o absenoldeb cyfeiriad polisi clir ac nad yw cysyniad CIY ar hyn o bryd yn cael ei gydnabod a/neu ei sefydlu'n dda ym mhob EMAS ac ysgol cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog.

4.9 Beirniadaeth a rennir gan fwyafrif yr arweinwyr EMAS a gyfwelwyd ac EALAW oedd bod y Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (CDAP) presennol ac arfau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal â'r FfLlRh newydd yn seiliedig ar safonau cenedlaethol normadol nad ydynt ar hyn o bryd yn ystyried profiad disgyblion CIY a SIY.

4.10 Dywedodd athrawon a gyfwelwyd yn yr ymweliadau ag ysgolion astudiaeth achos nad yw'r FfLlRh a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn galluogi eu hasesiadau i ddal iaith a llythrennedd cynnar yn fanwl. Y teimlad oedd bod angen ymestyn y FfLlRh i gydnabod mannau cychwyn gwahanol disgyblion CIY ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, teimlent y dylid cydnabod sefyllfa wahanol 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion CIY a all

ddod i ysgol tua diwedd y Cyfnod Sylfaen neu yn ystod CA2, CA3 neu CA4.

*‘‘Mae dysgwyr iaith ychwanegol yn amrywiol ar lawer ystyr, gan gynnwys eu lefelau profiad addysgol blaenorol, llythrennedd yn eu hiaith gyntaf/iaith y cartref a’u lefelau hyfedredd mewn Cymraeg a Saesneg. O ganlyniad i hyn, bydd eu proffiliau datblygiad iaith hefyd yn amrywio ac y maent yn debyg o fod yn wahanol mewn llawer agwedd i rai’r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd â’r Gymraeg yn iaith gyntaf neu yn ail iaith iddynt. Felly, mae angen datblygu cynllun asesu cenedlaethol a all gynnwys yr amrywiaeth hon ac ategu’r ffurfiau asesu prif-ffrwd presennol. Dylai hyn gael ei wreiddio’n ddwfn yn natblygiad iaith ar draws y cwricwlwm cyfan.’’*[87]

4.11 Mae’r ymwybyddiaeth o faterion penodol i CIY, yn ogystal â’r profiad o gefnogi disgyblion gydag anghenion cymorth CIY, yn amrywio’n sylweddol ymysg arweinwyr EMAS ac ysgolion astudiaeth achos. *“Nid yw ‘CIY’ yn gysyniad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol”,* meddai un arweinydd EMAS, “*does dim diffiniad o ddysgwr ‘CIY’ nac o ‘anghenion CIY’”.*

4.12 Yr oedd rhai arweinwyr EMAS, lle mae ysgolion yn derbyn ‘hwyrddyfodiaid’ o ddisgyblion o gefndir DLIE, sydd â dim gwybodaeth flaenorol o Gymraeg na Saesneg, yn gyfarwydd â CIY fel cysyniad, ac yr oeddent yn glir fod gan ddisgyblion CIY felly anghenion penodol am gymorth iaith oedd yn wahanol i rai disgyblion eraill. “*Rwy’n falch fod cysyniad CIY nawr yn cael peth cydnabyddiaeth*,” oedd sylw un pennaeth.

4.13 Asesiadau’r Cwricwlwm Cenedlaethol, sydd yn asesiad statudol i bob ysgol, yw’r unig asesiadau a ddefnyddir mewn wyth ALl i fesur cynnydd yr holl ddisgyblion mewn Cymraeg. Nid yw timau EMAS yn ymwneud â’r asesiadau hyn. Yn hyn o beth, does dim gwahaniaethu rhwng disgyblion CIY a’u cyfoedion o ran dull yr asesu. Mewn ymweliadau astudiaeth

---

[87] Ymateb EALAW mewn cyfweliad rhanddeiliad.

achos, dywedodd athrawon nad yw asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar eu pennau eu hunain yn rhoi modd o wahaniaethu mewn manylder rhwng cynnydd gwahanol ddisgyblion i gaffael y Gymraeg.

4.14 Yn achos y ddau ALl Cydgyfeiriant sydd ar hyn o bryd yn defnyddio cyfieithiad Cymraeg o'r Model Pum Cam SIY at y diben hwn, dywedodd y ddau arweinydd EMAS fod yr erfyn SIY yn cael ei ddefnyddio fel canllaw yn absenoldeb asesiad CIY penodol. Yr oeddent yn teimlo bod yr agwedd hon yn "*rhoi dull o olrhain dimensiwn ieithyddol cynnydd a chyrhaeddiad dysgwr mewn Cymraeg yn fwy manwl nag sydd modd wrth ddefnyddio asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn unig*".[88] Dywedodd 12 ALl arall pan/os byddai'n rhaid iddynt asesu anghenion CIY disgyblion, y buasent hefyd yn defnyddio'r Model Pum Cam SIY[89], ynghyd â chyfraniad gan siaradwr Cymraeg (o'r tîm EMAS neu'r ysgol) i ffurfio eu hasesiad a dyrannu cymorth.

4.15 Y consensws o gyfweliadau oedd bod gan y Model Pum Cam SIY nifer o swyddogaethau buddiol i asesiadau SIY a CIY, sef:

- rhoi pwysiad a dyrannu cyllid MEAG i wahanol ALl;
- gwneud penderfyniadau dros dro am ddyraniadau cymorth; a
- rhoi gwybod i athrawon am lefel cyffredinol hyfedredd disgybl.

4.16 Felly yr oedd y model yn cael ei ystyried yn gyffredinol gan arweinwyr EMAS ac EALAW fel un oedd yn rhoi rhyw ddull (cyfyngedig, rhaid cyfaddef) o asesu hyfedredd cyffredinol dysgwr mewn CIY. Fodd bynnag, pwysleisiodd arweinwyr EMAS ac EALAW mai model 'bras, ffit-gorau' yw'r Model Pum Cam SIY nad yw'n ddigonol ar gyfer asesu cynnydd datblygol yn fanwl a thros amser mewn na Chymraeg na Saesneg.

[88] Cyfwelwyd arweinwyr EMAS ym misoedd Ebrill a Mai 2013, cyn cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd ym Medi 2013.
[89] Nid oedd mwyafrif arweinwyr EMAS yn ymwybodol fod dau ALl wedi cyfieithu'r model i'r Gymraeg.

“*Byddai’n fuddiol iawn cynhyrchu model cenedlaethol manylach a mwy soffistigedig o ddatblygiad iaith ychwanegol ar gyfer SIY/CIY, y gallai ysgolion ac ALl ei ddefnyddio fel dull cyson o olrhain datblygiad SIY/CIY dysgwyr dros amser, o bosib wedi ei asio gyda’r Model Pum Cam a’i ategu. I fod yn gyson, dylai fod gan gynllun o’r fath strwythur cynnydd sydd yr un fath yn union i’r ddwy iaith ond gyda pheth amrywiaeth yn y datganiadau cynnwys ar gyfer y naill iaith a’r llall ar sail gwahaniaethau mewn patrymau caffael sy’n seiliedig ar ymchwil ac arsylwi trylwyr*.” [90]

*Argaeledd ac ansawdd data meintiol CIY*

4.17 Dim ond dau ALl sydd yn asesu lefelau caffael disgyblion CIY fel mater o drefn ac sydd felly yn gallu darparu data dibynadwy ar anghenion cymorth disgyblion CIY. Yn niffyg yr asesu arferol hwn, ceisiodd yr ALl wybodaeth gan ysgolion yn eu hardal a/neu ddefnyddio data CYBLD fel procsi i adnabod disgyblion gydag anghenion posib am gymorth CIY. Felly, nid yw’r data yn yr adroddiad hwn ond yn rhoi amcangyfrif o niferoedd y disgyblion CIY. Ymhellach, nid yw’n gyffredinol bosib canfod pa lefel o gymorth CIY y bydd ar y disgyblion hyn ei angen.

4.18 O ystyried bod y data mor anghyflawn ac anfanwl, rhaid bod yn ofalus wrth drin y data yn y bennod hon. Byddai angen gwneud mwy o ymchwil gydag ysgolion i gael data gwaelodlin manwl i bob ALl.

4.19 Mae diffyg argaeledd ac ansawdd y data CIY a ddarperir gan y rhan fwyaf o EMAS yn adlewyrchu’r diffyg cyfarwyddyd ar lefel polisi LlC. Yn benodol, mae’n adlewyrchu absenoldeb fframwaith asesu CIY a gydnabyddir yn genedlaethol lle gellir cofnodi camau’r disgyblion mewn caffael CIY, lefel y cymorth iaith Gymraeg (mewn CYBLD fel y gwneir am SIY) ac y gellir monitro eu cynnydd.

---

[90] Ymateb EALAW mewn cyfweliad rhanddeiliad.

*Disgyblion CIY*

4.20 Mae'r ymweliadau astudiaeth achos a'r cyfweliadau gydag athrawon a disgyblion yn cadarnhau fod disgyblion CIY yn grŵp cymysg iawn gydag amrywiol sgiliau iaith ac anghenion cymorth mewn caffael iaith. Yr oedd rhai disgyblion CIY wedi cyrraedd yn yr ysgol heb ddim neu fawr ddim gwybodaeth o Gymraeg na Saesneg. Yr oedd cefnogaeth rhieni yn amrywio o ran faint o gymorth gyda'r iaith Gymraeg a/neu Saesneg yr oeddent yn gallu ei roi i'w plentyn. Yr oedd gan rai rhieni oedd hefyd yn hollol newydd i Gymraeg a Saesneg. Yr oedd gan ddisgyblion un neu fwy o rieni oedd a lefelau amrywiol o hyfedredd mewn Cymraeg a/neu Saesneg. Yn hyn o beth, y mae'r disgyblion CIY a gyfwelwyd am yr astudiaeth hon yn adlewyrchu natur amrywiol a chymysg y disgyblion CIY a SIY mewn gwahanol rannau o Gymru.

*Nifer cyn-ysgolion, ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog*

4.21 Mae'r adran hon yn cyflwyno nifer y cyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog mewn lleoliadau statudol, ysgolion cynradd ac uwchradd yr adroddwyd amdanynt gan bob arweinydd EMAS am eu ALl yn 2013.

4.22 Dengys Tabl 1 fod cyfanswm o 327 o gyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog [91] a 505 o ysgolion cynradd fel hyn yng Nghymru yn 2013. Mae nifer a chyfran y cyn-ysgolion a'r ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn amrywio'n sylweddol o un rhan o Gymru i'r llall. Mae'r rhan fwyaf yn yr Ardaloedd Cydgyfeiriant. O gymharu â chyfanswm nifer yr ysgolion cynradd[92], mewn llawer ALl Cydgyfeiriant (Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Gwynedd, a Sir

[91] Yr oedd y cyn-ysgolion yr adroddodd arweinwyr EMAS amdanynt oll mewn ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog.
[92] PLASC 2013, https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools

Ddinbych), mae’r cyfan neu bron bob un o’r ysgolion cynradd yn rhai cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog.[93]

[93] Ni ellir gwneud yr un gymhariaeth ar gyfer cyn-ysgolion, gan nad ymdrinnir ar wahân â’r math hwn o ysgol yn CYBLD.

**Tabl 1: Nifer cyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog (3-4 oed) ac ysgolion cynradd (5-11 oed)** [94]

| Awdurdod Lleol | Cyfrwng-Cymraeg | | Ffrwd Ddeuol | | CC trosiannol gyda defnydd arwyddocaol o Saesneg | | Saesneg (gyda Chymraeg sylweddol) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd |
| Ynys Môn | 39 | 47 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 40 | 48 |
| Blaenau Gwent | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Pen-y-bont | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Caerffili | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 11 |
| Sir Gaerfyrddin | 12 | 59 | 4 | 11 | 1 | 3 | 4 | 7 | 21 | 80 |
| Ceredigion | 6 | 44 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 6 | 8 | 52 |
| Conwy | 23 | 23 | 2 | 2 | 0 | 0 | 8 | 9 | 33 | 34 |
| Sir Ddinbych | 14 | 14 | 3 | 3 | 0 | 0 | 4 | 4 | 21 | 21 |
| Gwynedd | 92 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 93 | 101 |
| Merthyr | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 21 | 21 | 23 | 23 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 11 |
| Sir Benfro | 12 | 12 | 5 | 5 | 2 | 2 | 3 | 3 | 22 | 22 |
| Rhondda Cynon Taf | - | 13 | - | 3 | - | 0 | - | 0 | 0 | 16 |
| Abertawe | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 11 |
| Torfaen | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |

[94] Yn gyffredinol, mae'r ffigyrau a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS yn cyd-fynd a CYBLD. Lle bo gwahaniaeth, efallai bod hyn oherwydd bod arweinwyr EMAS wedi rhoi rhai ysgolion mewn categori gwahanol i'r modd y cofnodwyd yr ysgolion yn CYBLD. Lle mae'r ffigyrau yn gwahaniaethu, dyma gofnodion CYBLD am gyfanswm nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn 2013: Ynys Môn 47, Sir Gaerfyrddin 78, Ceredigion 51, Conwy 37, Gwynedd 102, Merthyr 3, a Rhondda Cynon Taf 18.

| Awdurdod Lleol | Cyfrwng-Cymraeg | | Ffrwd Ddeuol | | CC trosiannol gyda defnydd arwyddocaol o Saesneg | | Saesneg (gyda Chymraeg sylweddol) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd | Cyn-ysgol | Cynradd |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cydgyfeiriant** | **241** | **355** | **15** | **26** | **4** | **6** | **42** | **51** | **302** | **438** |
| Caerdydd | 0 | 15 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| Sir y Fflint | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Sir Fynwy | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Casnewydd | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Powys | - | 10 | - | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| Bro Morgannwg | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 |
| Wrecsam | 5 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cystadleurwydd** | **20** | **47** | **5** | **20** | **0** | **0** | **0** | **0** | **25** | **67** |
| **Cyfanswm Cymru** | **261** | **402** | **20** | **46** | **4** | **6** | **42** | **51** | **327** | **505** |

Allwedd: - = ni ddarparwyd data

Ffynhonnell: Data wedi ei ddarparu gan arweinwyr EMAS ym Mai – Gorffennaf 2013

**Tabl 2: Nifer ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog**[95]

| Awdurdod Lleol | Cyfrwng Cymraeg | A Dwyieithog | B Dwyieithog | C Dwyieithog | CH Dwyieithog | Saesneg (gyda Chymraeg sylweddol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 1 | 5 |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Caerffili | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 | 4 | 10 |
| Ceredigion | 0 | 2 | 3 | 1 | 0 | 0 | 6 |
| Conwy | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Sir Ddinbych | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Gwynedd | 6 | 3 | 1 | 0 | 3 | 1 | 14 |
| Merthyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Benfro | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| Abertawe | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Torfaen | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cydgyfeiriant** | **17** | **9** | **11** | **4** | **3** | **8** | **52** |
| Caerdydd | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 2 | 6 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Wrecsam | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cystadl'rwydd** | **6** | **0** | **2** | **2** | **0** | **2** | **12** |
| **Cyfanswm Cymru** | **23** | **9** | **13** | **6** | **3** | **10** | **64** |

Ffynhonnell: Ysgolion fesul sector a math o gyfrwng Cymraeg am bob ALl yng Nghymru, o'r cyfrifiad ysgolion (CYBLD) Ionawr 2013.[96]

[95] Yn Nhabl 2, cafodd ALl ddata CYBLD am ysgolion uwchradd, a gofynnwyd iddynt ei wirio. Ym mhob tabl arall, yr ALl sydd wedi darparu'r data.

4.23 Ar y cyfan, cadarnhaodd arweinwyr EMAS y ffigyrau am ysgolion uwchradd a gofnodwyd yn CYBLD 2013.[97] Yn ôl y data, yr oedd 64 o ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru yn 2013 (Tabl 2). Yr oedd pum-deg-dau o'r rhain yn yr ALl Cydgyfeiriant a 12 arall yn yr ALl Cystadleurwydd. Mae pedwar ALl heb yr un ysgol uwchradd cyfrwng-Cymraeg na dwyieithog ar hyn o bryd. Y rhain yw dau ALl Cydgyfeiriant Blaenau Gwent a Merthyr a'r ddau ALl Cystadleurwydd, Sir Fynwy a Chasnewydd.

*Nifer disgyblion DLlE gydag anghenion CIY*

4.24 Cafwyd y data yn yr adran hon yn bennaf gan arweinwyr EMAS trwy ysgolion neu trwy ddefnyddio data CYBLD fel procsi i ganfod nifer y disgyblion allai fod ag anghenion cymorth CIY. Oherwydd nifer o anghysonderau nas gwiriwyd a bod rhannau o'r data y gofynnwyd amdanynt gan ALl yn anghyflawn, yr ydym yn cyflwyno yn yr adran hon ddata yn unig ar amcangyfrif nifer y disgyblion CIY fesul ysgol. Mae Tablau 3 i 5 yn rhoi amrediadau o nifer y disgyblion CIY fesul ysgol, ac arwydd o'r gwerth gwirioneddol yw hyn. Fodd bynnag, nid oedd modd cael darlun cyflawn o lefelau cyrhaeddiad y disgyblion hyn. Dylid dehongli a defnyddio'r data a roddir yn yr adran hon gyda gofal.

Cyn-ysgolion mewn lleoliadau statudol

4.25 Dywedwyd bod un ar bymtheg y cant (n=48)[98] o gyn-ysgolion â disgyblion CIY (Tabl 3). Niferoedd bychan o ddisgyblion CIY fel arfer sydd gan gyn-ysgolion mewn lleoliadau statudol. Yn yr ALl Cydgyfeiriant, yr oedd 36 o gyn-ysgolion gyda rhwng un a phump o ddisgyblion CIY. Yn yr ALl Cystadleurwydd, yr oedd tair ysgol felly. Dengys y data fod

[96] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?lang=cy&all=true#/statistics-and-research/?topic=Education+and+skills&lang=cy.
[97] Yr unig fân anghysondeb yw hwnnw yn achos Ceredigion. Cynhwysodd arweinydd EMAS ysgol oedd newydd ei sefydlu i ddysgwyr tair i 19 oed, oedd yn rhoi cyfanswm o chwe ysgol uwchradd yn hytrach na'r pump ac un ysgol ganol a gofnodwyd yn CYBLD.
[98] Am na fedrodd rhai ALl ddarparu'r ddata hyn, nid yw cyfanswm nifer yr ysgolion yn Nhabl 3 (n=294) yn cyfateb i Dabl 1 (n=327)

mwyafrif y disgyblion CIY mewn lleoliadau statudol yn ddisgyblion ynysig. Dengys tystiolaeth o gyfweliadau nad yw gwasanaethau EMAS o hyd yn gallu cefnogi'r holl ddisgyblion ynysig oherwydd gwasgariad daearyddol y disgyblion hyn a'r amser a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

4.26 Ar sail maint poblogaeth y disgyblion CIY mewn cyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog (gweler Tabl 3), amcangyfrifir bod cyfanswm nifer y disgyblion CIY cyn-ysgol rhwng 98 a 295[99].

[99] Isafswm ac uchafswm yr ystod wedi'u lluosi â nifer yr ysgolion.

**Tabl 3: Nifer cyn-ysgolion gyda disgyblion CIY[100]**

| Awdurdod Lleol | Nifer cyn-ysgolion gyda disgyblion DLIE CIY | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 disgybl | 1-5 disgybl | 6-10 disgybl | 11-20 disgybl | 21-51+ disgybl | Cyfanswm ysgolion | Cyfanswm ysgolion gyda disgyblion CIY |
| Ynys Môn | 34 | 6 | 0 | 0 | 0 | 40 | 6 |
| Blaenau Gwent | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Pen-y-bont | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Caerffili | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | 2 | 0 | 0 | 0 | 17 | 2 |
| Ceredigion | 4 | 1 | 2 | 1 | 0 | 8 | 4 |
| Conwy | 29 | 6 | 2 | 0 | 0 | 37 | 8 |
| Sir Ddinbych | 18 | 3 | 0 | 0 | 0 | 21 | 3 |
| Gwynedd | 76 | 12 | 4 | 0 | 0 | 92 | 16 |
| Merthyr | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 | 0 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 |
| Sir Benfro | - | - | - | - | - | - | - |
| Rhondda Cynon Taf | - | - | - | - | - | - | - |
| Abertawe | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | 11 | 6 |
| Torfaen | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| **Ardal Cydgyfeiriant Cyfanswm** | **234** | **36** | **8** | **1** | **0** | **279** | **45** |
| Caerdydd | - | - | - | - | - | - | - |
| Sir y Fflint | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 | 3 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Powys | - | - | - | - | - | - | - |
| Bro Morgannwg | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 |
| Wrecsam | - | - | - | - | - | - | - |

[100] Mae anghysondebau rhwng y ffigyrau a roddir yn Nhabl 1 a Thabl 3 yn achos Conwy, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin am i arweinwyr EMAS ddefnyddio gwahanol ffynonellau data.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Ardaloedd Cystadleurwydd** | **12** | **3** | **0** | **0** | **0** | **15** | **3** |
| **Cyfanswm Cymru** | **246** | **39** | **8** | **1** | **0** | **294** | **48** |

Allwedd:  - = data heb ei ddarparu
Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS ym Mai - Gorffennaf 2013

4.27 Tynnodd ymatebwyr EMAS sylw at y broblem nad oedd disgyblion CIY nad ydynt yn siarad Saesneg wrth gychwyn mewn cyn-ysgol o hyd yn cael eu cydnabod fel rhai allai fod ag anghenion am gymorth i gaffael yr iaith Gymraeg oedd yn wahanol i rai eu cyfoedion sydd yn siarad Saesneg. Cadarnhawyd y farn hon gan farn rhai o'r athrawon yn yr ysgolion astudiaeth achos a ddywedodd bod "yr holl ddisgyblion yr un fath yma, does yr un ohonynt yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith".

4.28 Yn ôl yr athrawon, mae'r addysgeg drochi a ddefnyddir mewn cyn-ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn dibynnu ar fod yr athrawon a'r disgyblion yn rhannu dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Saesneg. Mae athrawon yn nodweddiadol yn dibynnu ar ddefnyddio'r Saesneg os na all disgybl ddilyn yn Gymraeg. Gallai disgyblion heb hyfedredd yn yr iaith Saesneg felly fod dan anfantais. Bydd angen i ddisgyblion heb hyfedredd cychwynnol mewn Saesneg neu Gymraeg ddefnyddio gwahanol strategaethau i wneud synnwyr o'r byd ieithyddol newydd y deuant ar ei draws yn yr ysgol.[101] Mae angen i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen fod yn ymwybodol o'r her ychwanegol y gall disgyblion gyda chaffaeliad cyfyngedig o'r iaith Saesneg yn gynnar wynebu mewn lleoliadau cyn-ysgol trochi mewn Cymraeg, hyd yn oed os yw eu lefel eu egin-sgiliau iaith Gymraeg yn ymddangos yn debyg i rai eu cyfoedion. Mae angen ymchwil pellach i ddeall egin-gaffaeliad iaith a llythrennedd amlieithog disgyblion CIY er mwyn bod yn sylfaen o wybodaeth i arfer addysgeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

4.29 Byddai casglu gwybodaeth am iaith y cartref a chefndiroedd diwylliannol yn galluogi athrawon i adeiladu ar wybodaeth eu disgyblion o ieithoedd a diwylliannau eraill i ddatblygu eu caffaeliad Cymraeg a Saesneg newydd. Er bod ysgolion yn ceisio casglu'r wybodaeth hon ar yr adeg pan fod disgybl yn ymuno ag ysgol, awgryma tystiolaeth fod tuedd ymysg rhai rhieni i ddweud mai Saesneg yw iaith y cartref pan, mewn gwirionedd, fo athrawon yn amau nad yw hyn yn wir. Dywedodd

[101] Gregory, E. (1996) Making Sense of a New World: learning to read in a second language. Llundain: Paul Chapman.

athrawon fod hyn yn fater sensitif, a'u bod yn teimlo ei fod yn anodd ei drafod gyda rhieni. Yn yr achosion hyn, rhaid i ysgolion fynd ati i ddangos i'r disgyblion a'r rhieni fod yr ysgol yn rhoi gwerth ar ieithoedd cymunedol. Rhaid i bob rhiant/gofalwr deimlo eu bod yn cael eu hannog i roi gwerth ar iaith/ieithoedd yr aelwyd a chefnogi eu plentyn i ddysgu iaith y cartref yn ogystal â chaffael Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol yn yr ysgol.

Ysgolion cynradd

4.30 Dim ond ychydig dan draean (30 y cant, n=150) o ysgolion cynradd y dywedwyd eu bod yn gyfrwng-Cymraeg a dwyieithog roddodd adroddiad fod ganddynt ddisgyblion CIY (Tabl 4)[102]. Yr oedd y rhain wedi eu dosbarthu ar hyd y rhan fwyaf (15 o 22) o'r ALl yng Nghymru. Gwynedd yw'r ALl Cydgyfeiriant gyda'r nifer fwyaf o ysgolion cynradd (n = 55) gyda disgyblion CIY[103], sydd i'w ddisgwyl am mai yno y mae'r nifer uchaf o ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Dywedwyd bod gan Gonwy, Sir Gaerfyrddin a Sir Ddinbych bob un dros ddeg o ysgolion cynradd gyda disgyblion CIY. Disgwylir i gyfanswm nifer y disgyblion cynradd CIY fod rhwng 460 a 1240.[104]

4.31 Fel gyda'r cyn-ysgolion, niferoedd bychan o ddisgyblion CIY sydd gan ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog fel arfer. Yn yr ALl Cydgyfeiriant, yr oedd 105 o ysgolion cynradd gyda rhwng un a phump o ddisgyblion CIY. Yn yr ALl Cystadleurwydd, yr oedd 15 o ysgolion felly. Dengys y data fod mwyafrif y disgyblion DLlE a all fod ag anghenion cymorth CIY mewn ysgolion cynradd cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog, yn aml yn ddisgyblion ynysig.

[102] Mae'r gwahanaieth rhwng nifer yr ysgolion cynradd a roddir yn Nhabl 1 (n= 505) a Thabl 4 (n=500) oherwydd anghysonderau yn y data oedd ar gael i arweinwyr EMAS.
[103] Dilyswyd y data gyda 12 ysgol gynradd. Amcangyfrif yw'r ffigyrau ar gyfer ysgolion eraill, wedi deillio o ddata CYBLD.
[104] Isafswm ac uchafswm yr ystod wedi'u lluosi â nifer yr ysgolion.

4.32 Fodd bynnag, yr oedd dwy ysgol hefyd gyda rhwng 21 a 50 o ddisgyblion CIY yr un, a dwy ysgol arall gyda rhwng 51 a 100 o ddisgyblion a oedd, yn ôl yr arweinydd EMAS lleol, “*yn dysgu Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol i gyrchu’r cwricwlwm*”.

**Tabl 4: Nifer ysgolion cynradd gyda disgyblion CIY**[105]

| Awdurdod Lleol | Nifer ysgolion cynradd gyda disgyblion DLIE CIY | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 disgybl | 1-5 disgybl | 6-10 disgybl | 11-20 disgybl | 21-50 disgybl | 51-100 disgybl | 100+ disgybl | Cyfanswm ysgolion | Cyfanswm gyda disgyblion CIY |
| Ynys Môn | 40 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 8 |
| Blaenau Gwent | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Pen-y-bont | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Caerffili | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 59 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 72 | 13 |
| Ceredigion | 48 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 52 | 4 |
| Conwy | 17 | 14 | 2 | 5 | 0 | 0 | 0 | 38 | 21 |
| Sir Ddinbych | 9 | 10 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 21 | 12 |
| Gwynedd | 46 | 42 | 6 | 3 | 2 | 2 | 0 | 101 | 55 |
| Merthyr | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 | 0 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 3 |
| Sir Benfro | 19 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 5 |
| Abertawe | 3 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 8 |
| Torfaen | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| **Cyfanswm Ardal Cydgyfeiriant** | **301** | **105** | **16** | **8** | **2** | **2** | **0** | **434** | **133** |
| Caerdydd | 10 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 | 7 |
| Sir y Fflint | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 3 |
| Sir Fynwy | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Casnewydd | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Powys | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 | 0 |
| Bro Morgannwg | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 |

[105] Mae gwahaniaethau rhwng y ffigyrau a roddir yn Nhabl 2 a Thabl 5 yn achos Conwy, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin. Mae hyn am i arweinwyr EMAS ddefnyddio gwahanol ffynonellau data a bod y data a ddarparwyd gan ysgolion yn anghyflawn.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | 4 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 6 |
| **Cyfanswm Ardal Cydgyfeiriant** | **50** | **15** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** | **67** | **17** |
| **Cyfanswm Cymru** | **351** | **120** | **18** | **8** | **2** | **2** | **0** | **501** | **150** |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS ym Mai - Gorffennaf 20134.2

4.33 Yr oedd gan lawer o ysgolion cynradd lle cafwyd astudiaeth achos brofiad gyda disgyblion DLIE oedd heb ddim gwybodaeth flaenorol o Gymraeg na Saesneg pan oeddent yn cyrraedd, gan ddod i'r ysgol tua diwedd y Cyfnod Sylfaen (ym Mlwyddyn 1) neu yn hwyrach. Dywedodd athrawon yn yr ysgolion hyn fod disgyblion o'r fath yn wynebu mwy o her na 'hwyrddyfodiaid' oedd yn siarad Saesneg oherwydd eu hangen i gaffael y ddwy iaith gyda'i gilydd. Gwelodd yr athrawon hyn wahaniaeth clir yn anghenion disgyblion CIY/SIY am gymorth iaith ychwanegol. Ymysg y gwahaniaethau hyn yr oedd: yr her o ddeall trefniadau ac arferion eu hamgylchedd dysgu newydd, a chyfathrebu gyda chyfoedion a staff.

4.34 Dywedodd athrawon fod cael eu dysgu'n ffurfiol mewn ysgol yn brofiad newydd i rai disgyblion CIY. Yr oedd bod yn newydd di lythrennedd yn eu hiaith eu hunain yn ogystal ac mewn Cymraeg a Saesneg hefyd yn ffactor gyffredin. Mewn rhai achosion, yr oedd disgyblion oedd yn gyfarwydd ag arferion llythrennedd yn eu hiaith/ieithoedd eu hunain yn newydd i gonfensiynau ysgrifennu gwyddor.

4.35 Yr oedd problemau cyfathrebu disgyblion CIY nad oeddent yn siarad Saesneg yn waeth pan nad oedd gan athrawon na'r disgyblion eraill unrhyw wybodaeth o iaith cartref y dysgwr, a lle nad oedd dim neu fawr ddim mynediad at gyfleusterau/cymorth cyfieithu. Nid oedd athrawon mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid lle gwnaed astudiaethau achos nad oeddent yn derbyn cymorth EMAS yma yn ymwybodol o'r cyllid oedd ar gael i ddarparu cymorth/cyfleusterau cyfieithu i ddisgyblion CIY.

Ysgolion uwchradd

4.36 Yn ôl y data a dderbyniwyd gan arweinwyr EMAS, ychydig dros hanner (51 y cant, n=29) o ysgolion uwchradd a nodwyd fel rhai cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog sydd â disgyblion CIY (Tabl 5). Yr oedd nifer

fwyaf yr ysgolion uwchradd gyda disgyblion o'r fath yn ALl Cydgyfeiriant Gwynedd ac Ynys Môn, y naill gyda 12 a'r llall gyda phump o ysgolion.

4.37 Amcangyfrifwyd bod cyfanswm nifer y disgyblion CIY mewn ysgolion uwchradd yn yr ystod rhwng 228 a 430.[106]

4.38 Dywedwyd bod gan fwyafrif yr ysgolion niferoedd bychain o ddisgyblion CIY. Yr oedd gan bedwar ar ddeg o ysgolion uwchradd rhwng un a phump o ddisgyblion CIY ac yr oedd gan 10 ysgol rhwng chwech a 10 o ddisgyblion felly. Dengys hyn mai disgyblion CIY ynysig sydd ar bob lefel o addysg. Fodd bynnag, yr oedd gan ddwy ysgol garfannau cymherol fawr o ddysgwyr CIY; yr oedd gan un ysgol 21 i 50 ac ysgol arall dros 100 o ddisgyblion CIY.

4.39 Dywedodd tri ALl, a roddodd adroddiad am ddisgyblion CIY yn yr ysgol gynradd (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro), nad oes gan yr un o'u hysgolion uwchradd ddisgyblion CIY. Dywedwyd bod disgyblion CIY sydd yn mynd i gyn-ysgolion ac ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg ar hyn o bryd yn dewis addysg cyfrwng-Saesneg ar lefel yr ysgol uwchradd. Yr oedd ymchwilio i'r ffenomen hwn y tu allan i gwmpas yr astudiaeth ymchwil hon. Dengys tystioaleth a gafwyd o ALl arall fod prosesau ar gael i adnabod ac ymdrin ag angen disgybl am gymorth CIY i barhau wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd (gweler adran 4.64). Fodd bynnag, ni soniodd ALl eraill am hyn fel arfer.

[106] Isafswm ac uchafswm yr ystod wedi'u lluosi â nifer yr ysgolion.

**Tabl 5: Nifer ysgolion uwchradd gyda disgyblion CIY**

| Awdurdod Lleol | Nifer ysgolion uwchradd gyda disgyblion DLIE CIY | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 disgybl | 1-5 disgybl | 6–10 disgybl | 11–20 disgybl | 21–50 disgybl | 51–100 disgybl | 100+ disgybl | Cyfanswm ysgolion | Cyfanswm gyda disgyblion CIY |
| Ynys Môn | 0 | 1 | 2* | 2* | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Pen-y-bont | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Caerffili | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin[107] | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Ceredigion | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Conwy | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Gwynedd | 2 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | 1 | 14 | 12 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Benfro | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 |
| Abertawe | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Torfaen | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cydgyfeiriant** | **20** | **12** | **8** | **3** | **1** | **0** | **1** | **45** | **25** |
| Caerdydd | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 |
| Sir y Fflint | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |

107 Mae peth anghysondeb rhwng y ffigyrau yn Nhabl 2 a Thabl 5, oherwydd bod ffigyrau dysgwyr CIY mewn ysgolion uwchradd yn anghyflawn.

| Awdurdod Lleol | Nifer ysgolion uwchradd gyda disgyblion DLIE CIY | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 disgybl | 1-5 disgybl | 6–10 disgybl | 11–20 disgybl | 21–50 disgybl | 51–100 disgybl | 100+ disgybl | Cyfanswm ysgolion | Cyfanswm gyda disgyblion CIY |
| Powys | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cystadleurwydd** | **8** | **2** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** | **12** | **4** |
| **Cymru** | **28** | **14** | **10** | **3** | **1** | **0** | **1** | **57** | **29** |

Allwedd:* = dynodi fod disgyblion mewn ysgol ddwyieithog. Nid oedd y data oedd ar gael i'r ymatebydd yn dweud ai yn y ffrwd Gymraeg neu Saesneg y mae'r disgyblion.

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS ym Mai – Gorffennaf 2013

*Mathau o anghenion cymorth*

4.40 Gofynnwyd i arweinwyr EMAS hefyd ddarparu data am nifer y disgyblion i) a nodwyd fel rhai oedd yn tangyflawni a ii) oedd angen cymorth i ennill cymhwyster yn iaith yr aelwyd. Yr oedd y data a dderbyniwyd gan arweinwyr EMAS yn anghyflawn ac mewn llawer achos, nid oedd modd ei wirio gydag ysgolion. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli â thrin data yn yr adran hon. Yn ein dadansoddiad ni, defnyddiwyd data ansoddol lle’r oedd data meintiol yn amhendant.

<u>Disgyblion DLlE a aseswyd fel rhai sy’n tangyflawni</u>

4.41 Er nad oedd data ar gael adeg yr astudiaeth, yr oedd yn amlwg fod rhai timau EMAS yn casglu data fel mater o drefn am gyrhaeddiad disgyblion CIY yng nghyswllt deilliannau’r Cwricwlwm Cenedlaethol a bod ganddynt systemau i olrhain y rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn hyn o beth. Fodd bynnag, nid yw data am gyrhaeddiad disgyblion DLIE yn cael ei rannu fel arfer rhwng ysgolion ac EMAS.

4.42 Nododd llawer o ysgolion astudiaeth achos ddisgyblion CIY a oedd, wrth symud trwy’r ysgol, wedi dod i wneud yn well na’u cyfoedion. Yr oedd hyn yn digwydd yn gyffredinol pan oedd disgyblion wedi cyrraedd ar ddechrau’r Cyfnod Sylfaen. Pwysleisiodd nifer o ysgolion yr her yr oeddent yn wynebu i sicrhau bod disgyblion o ‘hwyrddyfodiaid’ yn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig mewn Cymraeg ar ddiwedd CA2.

4.43 Nododd ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion hefyd rai disgyblion CIY oedd yn ‘tangyflawni’ ac yr ystyrid bod ganddynt anghenion cymorth addysgol yn ychwanegol at gymorth gyda CIY a SIY. Yr oedd hyn yn seiliedig ar farn yr athrawon yn niffyg unrhyw asesiadau iaith gyntaf. Lle nad oedd unrhyw iaith yn gyffredin rhwng athrawon a disgyblion, dywedodd athrawon y gallai fod yn fwy anodd gweld yn glir beth oedd y rhesymau dros dangyflawni, a’u bod felly yn teimlo’n llai hyderus eu bod yn ymdrin â’u hanghenion yn ddigonol. Teimlai’r

athrawon hyn yn gryf y byddai asesiadau cychwynnol yn iaith gyntaf/iaith aelwyd y disgybl yn help i adnabod unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol.

Disgyblion DLlE sydd angen cymorth i ennill cymhwyster yn iaith/ieithoedd eu cartref

4.44 Mae cymorth i ennill cymwysterau yn iaith gyntaf dysgwr yn digwydd fel rheol trwy baratoi i gymryd arholiadau TGAU mewn ieithoedd cymunedol. Yn y 14 ALl a ddarparodd ddata, dywedwyd bod saith disgybl CIY ar lefel ysgol uwchradd angen cymorth i ennill cymwysterau yn eu hiaith gyntaf. Yr oedd peth o'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu trwy ddysgu gan EMAS. Mewn achosion eraill, gallai staff yr ysgol roi'r hyfforddiant yr oedd ar y disgyblion ei angen.

4.45 Rhoddodd un ysgol uwchradd y buom yn ymweld â hi gyfle i ddisgyblion DLlE gymryd TGAU mewn Pwyleg. Prynodd yr ysgol hon wasanaethau tiwtor allanol i helpu i baratoi disgyblion ar gyfer yr arholiad hwn.

4.46 Yn gyffredinol, dengys yr astudiaeth hon nad yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd arholiad TGAU yn iaith/ieithoedd eu cartref. Fodd bynnag, nid yw'r data yn ddibynadwy am nad yw'n gyflawn. Canfu ymchwil blaenorol i gymorth mewn ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru mai cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn ieithoedd cymunedol.[108] Mae hyn yn awgrymu bod angen annog ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog ysgolion i ddatblygu ethos sydd yn rhoi gwerth clir ar ieithoedd cartref/cymunedol disgyblion ac yn annog disgyblion DLlE i geisio cymwysterau yn yr ieithoedd hynny. Soniodd ymatebwyr EMAS am staff oedd yn siarad llawer o ieithoedd cymunedol. Mae mwy o le i ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog ystyried cydweithio gyda thimau EMAS ac aelodau'r gymuned leol i nodi ffyrdd o gynorthwyo disgyblion DLlE i ennill cymhwyster yn iaith/ieithoedd eu cartref.

*Data a gasglwyd gan ysgolion am ddisgyblion CIY a'u hanghenion am gymorth*

[108] CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, a CILT, the National Centre for Languages (2010) Darparu cymorth i ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: Adroddiad ymchwil, comisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4.47 Dengys tystiolaeth a gafwyd o gyfweliadau gydag arweinwyr EMAS and ymweliadau i ysgolion astudiaeth achos fod gan ysgolion ym mhob ALl brosesau wedi hen sefydlu i asesu, casglu ynghyd a monitro data am berfformiad disgyblion yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r holl ysgolion yn rheoli data am ddisgyblion yn electronig trwy ddefnyddio rhaglenni fel *Incerts* a *SIMS*. Yn hyn o beth, daw disgyblion CIY dan yr un drefn asesu a monitro â'u cyfoedion nad ydynt yn CIY.

4.48 Pwysleisiodd yr holl ysgolion astudiaeth achos yr ymwelwyd â hwy eu bod yn asesu, olrhain ac yn cefnogi pob disgybl yn ôl eu hanghenion unigol a'u bod, wrth wneud hynny, yn gallu adnabod unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol. Mewn rhai ALl, dywedwyd bod modd dadansoddi systemau o'r fath yn ôl ethnigrwydd i adnabod ac olrhain cynnydd disgyblion CIY.

4.49 Fodd bynnag, ychydig o ALl, timau EMAS ac ysgolion sydd ar hyn o bryd yn casglu ac yn rhannu data penodol i CIY. Dywedodd llawer o athrawon y byddai ymgorffori disgrifyddion penodol i CIY yn eu rhaglen casglu data presennol (e.e. *SIMS* ac *Incerts*) yn gwneud eu hasesiadau o ddysgwyr unigol yn fwy penodol ar gyfer disgyblion CIY.

**Blwch 1: Astudiaeth achos – data CIY a gasglwyd gan ysgolion i asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr**

Dywedodd un ALl fod ysgolion yn llenwi ffurflen gwybodaeth gefndir i gasglu gwybodaeth am fanylion personol, addysg flaenorol a gwybodaeth am gartrefi'r disgyblion DLIE. Defnyddir y wybodaeth hon fel sylfaen i gynllunio strategaethau er mwyn gwneud yn siŵr fod y disgybl yn cyrchu'r cwricwlwm ac y gall gyrraedd ei botensial. Bydd ysgolion yn llenwi ffurflen i wneud cais am gymorth. Mae hon yn rhoi gwybodaeth am y lleoliad dysgu yn yr ysgol, y strategaethau a ddefnyddiwyd eisoes hyd yma, ac anghenion dysgu'r disgybl. Gofynnir i ysgolion wneud asesiadau bob tymor gan ddefnyddio'r Model Pum Cam i bennu lefel caffaeliad iaith y dygwyr CIY. Mae'r data yn galluogi'r gwasanaeth EMAS i olrhain a monitro cyrhaeddiad pob disgybl. Mae cofrestr o bob disgybl SIY/ CIY yn cael ei chyfoesi'n rheolaidd i wneud yn siŵr fod cynnydd yn digwydd ac i nodi unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol.

Mewn ALl arall, cynhelir asesiad cychwynnol yn erbyn y Model Pum Cam. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei ychwanegu at fanc data'r sir a'i adolygu ar gyfer pob disgybl ddwywaith y flwyddyn. Defnyddir y wybodaeth hon i olrhain cynnydd y disgybl ac os nad yw dysgwr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, mae EMAS a'r ysgolion yn sylwi ar hyn er mwyn adolygu angen disgybl am gymorth ychwanegol yn unol â hynny. Mae'r asesu a'r monitro hwn yn cael ei wneud ar y cyd gan staff cefnogi ac athrawon SIY/CIY. Mewn cyn-ysgolion ac ysgolion cynradd, mae'r staff dysgu a'r gweithwyr cefnogi yn cadw cofnodion dyddiol ac wythnosol o'r gwaith a wneir gan bob disgybl ac yn nodi mannau sydd angen mwy o gyfraniad. Hefyd, ar lefel ysgolion cynradd,

mae dangosyddion pynciau craidd mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth hefyd yn cael eu cymharu â grwpiau cyfoed disgybl.

4.50 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS ac ysgolion yn awgrymu fod gan bob ysgol ac ALl systemau a gweithdrefnau sefydledig i gasglu a monitro data ynghylch caffaeliad SIY disgyblion a'u cynnydd gyda'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am gaffael CIY am nad oes gofyniad ar hyn o bryd i ysgolion ddal data penodol CIY.

*Arfau a deunyddiau i asesu a chynorthwyo*

4.51 Yr oedd llawer o ymatebwyr EMAS yn teimlo nad oedd cymaint o amrywiaeth deunyddiau ac arfau ar gael i'w defnyddio i asesu caffaeliad iaith ychwanegol disgybl mewn Cymraeg o gymharu â'r hyn sydd ar gael yn Saesneg. Yn gyffredinol, yr oedd gan EMAS amred da o adnoddau dysgu a deunydd amlieithog ac amlddiwylliannol i ddisgyblion SIY, ond dim adnoddau felly neu rai cyfyngedig iawn i CIY. Dywedodd arweinwyr EMAS y buasent yn croesawu gweld cynhyrchu mwy o arfau asesu iaith Gymraeg.

**Blwch 2: Astudiaeth achos – llyfrgell adnoddau EMAS**

Mae gan un Consortiwm Rhanbarthol lyfrgell helaeth iawn o adnoddau sydd yn cynnwys, er enghraifft, geiriaduron, llyfrau ffeithiol a llyfrau stori mewn 31 o ieithoedd cymunedol. Mae'r casgliad hwn o adnoddau amlddiwylliannol hefyd yn cynnwys, er enghraifft: llyfrau ac adnoddau am amrywiaeth eang o wledydd, crefyddau, diwylliannau a gwyliau; gemau gramadeg Saesneg; adnoddau mathemateg; pecynnau dysgu a Pheniau Llafar gyda Thermau Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn 15 iaith. Mewn ygol y mae'r Ganolfan Adnoddau. Gall holl ysgolion y consortiwm fenthyca'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn ddi-dâl. Mae catalog o'u hadnoddau llyfrgell ar gael ar wefan y consortiwm.

4.52 Ar ymweliadau ag ysgolion gwelwyd nifer o adnoddau a gynhyrchwyd yn benodol ar gyfer datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg a chymorth iaith/llythrennedd Cymraeg mewn cyd-destunau cyfrwng-Cymraeg[109]. Un mater allweddol i ymarferwyr oedd yr angen am ddeunyddiau Cymraeg wedi eu symleiddio oedd yn addas i oedran 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion CIY hŷn. Cyfyngedig oedd mynediad y rhan fwyaf o ysgolion at adnoddau perthnasol i ieithoedd a diwylliannau eu disgyblion CIY. Dim

[109] Hwb – Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan https://hwb.wales.gov.uk/home/Pages/Home.aspx

ond un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy, er enghraifft oedd yn ymwybodol o'r hyn a gynhyrchwyd gan *EMAS UK*[110] sef erfyn arlein sydd yn cefnogi dysgu SIY i ddisgyblion mewn 51 iaith, gan gynnwys Cymraeg. Awgryma canfyddiadau'r astudiaeth hon y byddai camau i hwyluso ymwybyddiaeth y staff dysgu o adnoddau amlieithog ac amlddiwylliannol, a'i gwneud yn hawdd eu cael, yn llesol ar lefel ALl, Consortiwm Addysg Rhanbarthol neu genedlaethol.

**Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion**

*Integreiddio disgyblion CIY yn y dosbarth a rhoi cefnogaeth trwy'r holl gwricwlwm*

4.53 Dim ond lleiafrif o ysgolion astudiaeth achos a grybwyllodd ddarparu cymorth penodol i integreiddio disgyblion CIY mewn cyn-ysgolion a dosbarthiadau derbyn. "*Nid yw integreiddio'n ddim gwahanol i ddysgwyr eraill*" esboniodd un athrawes. Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn monitro ymddygiad a lles disgyblion newyddion yn gyffredinol ac yn 'cadw llygad' arnynt. Esboniodd un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hi fod y tymor cyntaf (ac yn hwy, petai angen) yn cael ei neilltuo i helpu dysgwr CIY newydd ymgartrefu a theimlo'n gartrefol yn yr ysgol, cyn cyflwyno unrhyw ddisgwyliad ffurfiol i weithio ar dasgau cysylltiedig â'r cwricwlwm.

4.54 Adroddodd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ei bod yn haws rheoli dyfodiad disgybl CIY yn y Cyfnod Sylfaen oherwydd y cymarebau staffio uwch, cymorthyddion dosbarth a grwpiau ymyriad bychain. Mae gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn grwpiau bychain ac y mae chwarae creadigol yn helpu'r disgyblion i integreiddio, felly mae "*integreiddio yn digwydd yn naturiol yn yr oedran hwn*", meddai un athrawes. Dywedwyd y byddai disgyblion fel arfer yn "*gwneud eu ffrindiau eu hunain*". Dwy ysgol yn unig ddywedodd eu bod yn defnyddio 'system Cyfeillio'. Yn un o'r ysgolion hyn, byddai pob 'hwyrddyfodiad' o ddysgwr CIY yn cael dau gyfaill yr un, un yn ddysgwr CIY a'r llall yn blentyn Cymraeg ei iaith. Soniodd dwy ysgol am ddefnyddio gwasanaethau gweithiwr cefnogi Pwylaidd i helpu iddynt ymgartrefu a rhoi cymorth cyfieithu ac emosiynol i ddisgybl CIY newydd.

---

[110] Pecyn adnoddau yw EMAS UK sydd â phedair haen: 'Talking Tutor' (Cymraeg heb ei chynnwys); 'Text Tutor' (ar gael am 51 iaith, gan gynnwys y Gymraeg); 'Two Can Talk' (cyfieithu iaith lafar o un iaith i'r llall) a 'Text Translator' (sy'n cyfieithu testun ysgrifenedig o un iaith i'r llall).

4.55 Mewn cyfweliadau gyda disgyblion, dywedwyd bod ffrindiau yn chwarae rhan bwysig o ran eu helpu i deimlo wedi cymhathu i'r dosbarth ac i roi help gyda gwaith ysgol. Soniodd tri o'r disgyblion oedran uwchradd a gyfwelwyd yn benodol eu bod, y tu allan i'r gwersi, wedi teimlo'n 'swil' a 'heb fod yn adnabod neb yn yr iard'. Dywedodd yr athrawon fod un disgybl CIY cynradd wedi bod yn ymosodol tuag at y disgyblion eraill yn ystod amser chwarae. Yn gyffredinol, awgryma'r data a gasglwyd y gall integreiddio dysgwyr elwa o gael ei drefnu a'i gynllunio yn fwy ffurfiol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i gymhathu disgyblion CIY gyda'u cyfoedion mewn amgylchedd dysgu newydd.

*Ymwneud rhieni â'r broses o integreiddio disgyblion yn yr ysgol*

4.56 Ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy roddodd enghreifftiau penodol o rieni yn ymwneud ag integreiddio eu plant yn eu hysgol newydd. Cafwyd un enghraifft o riant yn dod i gyn-ysgol gyda'i phlentyn i helpu'r disgybl newydd i gymhathu.

4.57 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ysgolion astudiaeth achos eu bod mewn cysylltiad agos, dyddiol yn aml, gyda rhieni i roi adborth am les a gweithgareddau eu plentyn yn yr ysgol ac i wneud penderfyniadau ynghylch y disgybl. Dywedodd un ysgol fod eu pecynnau gwybodaeth gyffredinol i rieni yn cael eu cynhyrchu mewn Cymraeg, Saesneg a Phwyleg.

**Blwch 3: Astudiaeth achos – dwyn y rhieni i mewn**

| |
|---|
| Mewn un ysgol gynradd, cymerodd yr athrawon luniau a gwneud clipiau fideo byr o weithgareddau dysgwr CIY yn yr ysgol bob dydd. Dangoswyd y rhain i'r rhieni, ynghyd ag unrhyw enghreifftiau o waith disgybl pan fyddent yn dod i godi'r plentyn o'r ysgol, er mwyn helpu'r rhiant i ddeall integreiddio a chynnydd y plentyn. Roedd y rhieni a'r athrawon yn cyfathrebu trwy ystumiau a thrwy ddefnyddio'r ap cyfieithu ar ffôn y rhieni. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol rhwng yr ysgol a'r rhieni trwy gyfieithwyr - yn bersonol gyda siaradwr Pwyleg a roddwyd gan y tîm EMAS; ac ar y ffôn trwy wasanaeth cyfieithu ffôn tair-ffordd. |

*Gwasanaethau a ddarperir i helpu disgyblion CIY i wella lefel eu cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Saesneg a'r Cwricwlwm Cenedlaethol*

4.58 Adroddodd un o’r ysgolion yr ymwelwyd â hi fod cynllun cymorth cychwynnol wedi ei ddatblygu ar y cyd â chyngor EMAS. Yn rhan fwyaf o ysgolion lle cafwyd astudiaethau achos, athrawon ar y cyd a Chydlynwyr Llythrennedd /Pennaeth Cymraeg/ CAAA oedd yn cydweithio yn fewnol i adolygu a chynllunio cefnogaeth i ddisgyblion CIY unigol heb ymwneud EMAS.

4.59 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer astudiaethau achos, defnyddir cynorthwywyr dosbarth (CD), lle maent ar gael, i roi cymorth cyson mewn grwpiau bychain, wedi ei deilwrio yn unigol, a hynny am gyfnodau byrion (e.e. pum munud) ar y tro. Dywedodd athrawon fod modd darparu’r math hwn o gymorth yn rheolaidd a thrwy gydol y dydd yn ôl y galw. Yr oedd yr athrawon yn teimlo, fodd bynnag, fod angen y CD hefyd i roi cymorth ychwanegol i lawer o ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol eraill. Yr oeddent yn teimlo fod angen adnoddau cynorthwywyr dosbarth ychwanegol i ateb anghenion eu holl ddisgyblion am gymorth CIY ychwanegol

4.60 Ar CA2, CA3 a CA4, mae llai o gynorthwywyr dosbarth ar gael i roi cymorth ychwanegol yn y dosbarth. Yn y cyfnod hwn, cawsom fod cymorth wedi ei dargedu yn dueddol o gael ei roi gan athrawon cymorth iaith a rhifedd. Lle bo modd, roedd ysgolion wedi sicrhau cymorth ychwanegol un-i-un neu mewn grwpiau bychan gan asiantaeth allanol (megis EMAS, Athrawon Bro[111]). Yr oedd y math hwn o gymorth fel arfer ar gael unwaith yr wythnos am 20 munud. Dywedodd athrawon eu bod yn teimlo nad oedd y lefel hon o gymorth yn ddigonol ar gyfer anghenion y disgyblion oherwydd bod disgyblion CIY angen mwy o gymorth ychwanegol i’w helpu i ymdopi â gofynion y cwricwlwm. Lle mae darpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn bod, mae ysgolion fel arfer yn trefnu i ddisgyblion sy’n cyrraedd ym Mlwyddyn 3 i Flwyddyn 8 i fynychu Canolfan cyn gynted ag y bo modd.

[111] Sefydlwyd y tîm Athrawon Bro cyntaf ddiwedd y 1970au i gefnogi dysgu’r Gymraeg mewn ysgolion. Mae’r gefnogaeth hon yn cynnwys: rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg; dysgu Cymraeg i Hwyrddyfodiaid; datblygu adnoddau dysgu; a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS). Gweler Llywodraeth Cymru (2011) Arolwg o’r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion, t.46.

**Blwch 4: Astudiaeth achos – cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei gyllido'n allanol**

| |
|---|
| Mewn un ALl lle nad oes Canolfan Hwyrddyfodiaid ar gael, dywedodd ysgol gynradd eu bod yn manteisio ar raglen SAIL ('School Action Intervention for Literacy') wedi'i chyllido gan eu Consortiwm Addysg lleol. Mae'r rhaglen hon yn darparu hyfforddiant i staff (athro/athrawes a chymhorthydd) ac adnoddau hyd at £5,000 yr ysgol, y flwyddyn. Caniateir i bob ysgol enwebu pedwar disgybl ar gyfer y cynllun. Mae'r cynllun yn hybu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu gyda 40 munud o weithgaredd dwys bob diwrnod am 20 wythnos. |

4.61 Ar lefelau ysgol gynradd ac uwchradd, dywedodd athrawon fod rhai disgyblion CIY angen cymorth mwy dwys un-i-un nac yr oedd ganddynt hawl iddo/yn gallu ddarparu. Lle mae niferoedd digonol o ddisgyblion, grwpiwyd disgyblion o'r un cefndir iaith gyda'i gilydd ar gyfer rhai gweithgareddau. Roedd gan un ysgol ystafell SIY/ CIY unswydd. Yma, cynhaliwyd gweithgareddau ategu iaith a llythrennedd gyda grwpiau cymysg o CIY /siaradwyr Cymraeg. Yr oedd gan ysgol arall ystafell SIY unswydd, a ddefnyddiwyd fel Canolfan i roi cymorth SIY i ddisgyblion o nifer o ysgolion lle'r oedd digon yn cyrraedd ar yr un pryd i ffurfio grŵp bychan.

4.62 Mewn un ysgol uwchradd lle cafwyd astudiaeth achos, cafodd rhai disgyblion gydag anghenion cymorth CIY gan athrawon Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dysgwyd y disgyblion hyn mewn grŵp o 10 i 12 o ddisgyblion ac yr oedd yn cynnwys disgyblion gydag anghenion AAA eraill. Dywedodd yr athrawon fod gan ddisgyblion yn y grwpiau hyn anghenion gwahanol ac arbenigol iawn. O'r herwydd, mynegodd athrawon bryder nad oedd ganddynt mo'r arbenigedd na'r adnoddau i roi i bawb yr holl gymorth wedi ei deilwrio yn unigol fyddai ar bob dysgwr CIY ei angen.

4.63 Cafwyd tystiolaeth o rai o'r astudiaethau achos fod disgyblion CIY oedd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn cael eu cefnogi gan broses drosiannol oedd yn darparu gwybodaeth fanwl ac yn ystyried eu hanghenion am gymorth iaith unigol. Yr oedd un o'r disgyblion hyn wedi mynd at gymorth Canolfan Hwyrddyfodiaid ar ddiwedd y cyfnod cynradd ac eto ar ddechrau'r ysgol uwchradd yn ychwanegol at dderbyn cymorth cyson yn yr ysgol.

4.64 Yr oedd athrawon allodd fynd at Ganolfan Hwyrddyfodiaid yn cytuno'n unfrydol fod treulio cyfnod byr[112] yn y Ganolfan o les aruthrol i gymhathu dysgwr i'r ysgol a'i allu i ymdopi â chwricwlwm cyfrwng-Cymraeg a bywyd yr ysgol. Teimlai'r athrawon, yn

[112] Yr oedd y cyfnod hwn fel arfer yn chwech i wyth wythnos yn B7 a B8 ac 1 tymor (10 -12 wythnos yn B3 – B6). Cynhelid rhai cyrsiau 5 diwrod yr wythnos, eraill am ddau i dri diwrnod yr wythnos.

dibynnu ar eu hanghenion, fod rhai disgyblion CIY angen cymorth cyson yn yr ysgol yn ychwanegol at yr hyn oedd yn cael ei ddarparu gan y Ganolfan.

4.65 Ni allodd pobl disgyblion CIY fynd i Ganolfannau Hwyrddyfodiaid am resymau megis dewis y rheini /disgyblion, gormod o alw am lefydd cyfyngedig yn y Ganolfan, amseru cyrhaeddiad y disgybl, diffyg darpariaeth i ddisgyblion ym Ml 9 ac uwch, a/neu anghenion addysgol arbennig (AAA) disgybl. Yn yr achosion hyn, syrthiodd y cyfrifoldeb am integreiddio a chynorthwyo disgyblion ar y CAAA, staff cefnogi iaith a llythrennedd, cynorthwywyr dosbarth ac athrawon dosbarth/pwnc. Mewn rhai ysgolion, yr oedd pecyn ‘cyn y Ganolfan’ ar gael i roi cyflwyniad i’r disgyblion i eirfa a phatrymau’r iaith Gymraeg. Mewn un ALI, yr oedd ‘cwrs cyn y Ganolfan’ yn rhoi cyflwyniad i newydd-ddyfodiaid i Saesneg a Chymraeg er mwyn helpu disgyblion oedd angen caffael dwy iaith ar yr un pryd i ddatblygu dealltwriaeth gychwynnol o’r ddwy iaith.

4.66 Dywedodd ysgolion mewn ALl heb ddarpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid fod y staff dysgu yn cael trafferth i roi cymorth digonol i gymhathu disgyblion CIY. Dywedodd un ysgol fod dau ddisgybl a gyrhaeddodd ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3 wedi treulio peth o’u hamser mewn gwersi gyda disgyblion Blwyddyn 1 er mwyn helpu eu caffaeliad o’r Gymraeg. Ni fu hyn yn strategaeth lwyddiannus, oherwydd bod yr ‘hwyrddyfodiaid’ wedi teimlo’n anghyfforddus o gael eu grwpio â disgyblion iau. Roedd yr ‘hwyrddyfodiaid’ hyn wedi symud i ysgol cyfrwng-Saesneg cyn diwedd y tymor cyntaf. Dywedodd athro arall y bu’n rhaid i bennaeth wrthod mynediad i ddisgybl CIY o hwyrddyfodiad am nad oedd gan yr ysgol yr adnoddau i gefnogi’r disgyblion hyn.

*A yw disgyblion cymwys yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth iawn?*

4.67 Cyfwelwyd wyth o ddisgyblion oed cynradd a naw oed uwchradd yn ystod ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid. Dywedodd tri o’r disgyblion ysgol uwchradd eu bod yn gallu siarad Saesneg ‘yn eithaf da’ cyn dod i Gymru. Yr oedd dau ohonynt yn cael cymorth SIY ychwanegol gan y timau EMAS lleol un bore yr wythnos. Iddynt hwy, roedd cael athrawon oedd yn siarad Saesneg ac eistedd gyda ffrindiau allai gyfieithu rhwng Cymraeg a

Saesneg wedi eu helpu i ymgartrefu yn yr ysgol. Dywedodd dau ddisgybl, er bod ffrindiau newydd wedi eu helpu yn y dosbarth, nad oeddent yn adnabod neb yn yr iard. "*Roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn a wnaeth neb siarad â mi*," meddai un disgybl. Un yn unig o'r tri disgybl fu mewn Canolfan Hwyrddyfodiaid ac yr oedd yn teimlo y bu'r gefnogaeth hon i ddysgu Cymraeg yn fuddiol. Dywedodd y tri disgybl yr hoffent i'w hathrawon siarad mwy o Saesneg.

4.68 I'r disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd a gyfwelwyd, oedd heb ddim neu fawr ddim Saesneg na Chymraeg pan wnaethant gyrraedd, bu cefnogaeth staff y Canolfannau Hwyrddyfodiaid o gymorth. Dywedodd disgyblion eu bod wedi dysgu 'llawer o Gymraeg' yn y Ganolfan. Yn yr ysgol, y brif strategaeth yr oedd y disgyblion hyn yn werthfawrogi oedd 'esboniadau' gan eu hathrawon a help anffurfiol gan ffrindiau a chyfoedion fyddai'n esbonio tasgau iddynt ac yn dysgu geiriau newydd iddynt.

**Blwch 5: Astudiaeth achos – cefnogi newydd-ddyfodiad**

| |
|---|
| Bu un disgybl ysgol uwchradd yn arbennig yn pryderu o fod mewn ysgol newydd lle nad oedd yn deal dim ac felly nid oedd eisiau mynd i'r ysgol. Fe wellodd pethau pan ddaeth athrawes o'r Ganolfan i'w gweld yn yr ysgol a darparu cefnogaeth trwy fod yn gyfeillgar, ei helpu i ddeall beth oedd yn digwydd, dangos DVD o'r Ganolfan Hwyrddyfodiaid ac esbonio sut y gallai ddysgu Cymraeg gyda grŵp bach cefnogol o ddisgyblion. Cafodd hefyd rhai gwersi unigol mewn Cymraeg sylfaenol er mwyn codi ei hyder mewn Cymraeg cyn iddi ddod i'r Ganolfan. Gwnaeth athrawes y Ganolfan rywfaint o ymchwil am darddle'r disgyblion a dod o hyd i luniau o aelodau ei theulu ei hun yn ymweld â thref enedigol y disgyblion er mwyn helpu i greu cyswllt gyda'r disgybl. Yn y Ganolfan, gwnaeth y disgybl hwn ffrindiau newydd ac ennill llawer o hyder wrth siarad Cymraeg. Gwnaed cynlluniau eisoes i athrawes y Ganolfan fod gyda hi ar ei diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol fel rhan o'r broses i'w helpu i integreiddio'n ôl i'r ysgol. |

**Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon**

*Dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannaeth ac amlieithrwydd*

4.69 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, yr oedd tystiolaeth fod athrawon yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannau ac amlieithrwydd. Yr oedd y graddau yr oedd pwyslais ar ddathlu amrywiaeth yn ganolog i ethos ac arfer ysgol yn amrywio. Lle'r oedd gan ysgolion ddisgyblion oedd ag ieithoedd cyntaf ar wahân i Gymraeg a Saesneg, roedd rhai o'r staff dysgu wedi dysgu geirfa sylfaenol yn iaith

cartref y plentyn. Yr oedd arddangosiadau ar y waliau yn yr ysgol, lluniau a gwrthrychau yn arwyddion gweledol fod amrywiaeth yn cael ei ddathlu mewn rhai ysgolion. Dywedodd athrawon fod disgyblion yn cael eu hannog i rannu gwybodaeth am eu hiaith a'u diwylliant eu hunain gyda disgyblion eraill. Mewn un ysgol, yr oedd y disgyblion yn dysgu am wahanol wlad a'i diwylliant ac iaith/ieithoedd bob tymor.

*Arbenigedd athrawon wrth gynorthwyo disgyblion DLlE*

4.70 Dangosodd cyfweliadau gydag arweinwyr EMAS ac athrawon fod that athrawon wedi datblygu llawer o arbenigedd mewn dysgu disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg. Fodd bynnag, ni chawsai'r mwyafrif unrhyw hyfforddiant penodol i drin materion yn ymwneud â DLlE a'u hanghenion posibl am gymorth CIY ychwanegol fel rhan o'u hyfforddiant ffurfio, fel athrawon cyn dod i'w swydd. Yn niffyg unrhyw gydran ffurfiol ar gymorth CIY mewn hyfforddiant cyn swydd i athrawon, mae lefel ymwybyddiaeth athrawon ysgol o anghenion disgyblion CIY o raid yn amrywio.

4.71 Yn yr ysgolion astudiaeth achos gyda mwy o ddisgyblion CIY a rhai fu yno ers peth amser, yr oedd athrawon wedi datblygu strategaethau i gynorthwyo'r disgyblion hyn, yn aml gyda chefnogaeth gan staff EMAS neu Ganolfan Iaith Gymraeg. Nid yw'n syndod fod athrawon a gyfwelwyd mewn ysgolion gydag ambell i ddisgybl CIY ynysig yn dueddol o fod â llai o ymwybyddiaeth o'r ffordd orau i'w cynorthwyo.

4.72 Mewn cyfweliadau, dywedodd yr holl athrawon y buasent yn elwa o hyfforddiant ychwanegol ar gynorthwyo disgyblion CIY ac y dylai hyn fod yn gydran o'u cymwysterau dysgu cyn dod i swydd yn ogystal â'u hyfforddiant mewn swydd. Dywedodd athrawon y buasent yn hoffi cael hyfforddiant ychwanegol ar y canlynol:

- cefndiroedd iaith a diwylliant penodol eu disgyblion;
- pa fath o addysg y derbyniodd y disgyblion yng ngwledydd eu tarddiad;
- ymwybyddiaeth o nodweddion ieithyddol iaith cartref disgyblion a allai fod yn her i ddysgu Cymraeg a/neu Saesneg; a
- strategaethau ar gyfer darparu cymorth i ddisgyblion CIY.

*Hyfforddiant a gynigir gan EMAS ar gymorth CIY i ddisgyblion DLlE*

4.73 Mae'r holl dimau EMAS yn rhoi rhyw lefel o hyfforddiant am anghenion disgyblion DLlE a chymorth SIY, ac y mae rhai athrawon o ysgolion cyfrwng-Cymraeg wedi manteisio ar hyn. Fodd bynnag, dim ond dau ALl Cydgyfeiriant a ddywedodd eu bod wedi darparu hyffordiant ar CIY yn benodol. Nid oedd mwyafrif y timau EMAS wedi cynnal hyfforddiant ar faterion amrywiaeth a strategaethau i gefnogi disgyblion CIY a SIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog.

4.74 Dywedodd arweinwyr EMAS eu bod fel arfer yn darparu hyfforddiant "*fel a phan ofynnir amdano gan ysgolion*", fel y dywedodd un ymatebydd. Dywedodd llawer o arweinwyr EMAS nad oedd ysgolion "*mor rhagweithiol ag y dylent fod*" o ran cyrchu hyfforddiant fyddai'n gwella eu harbenigedd yn cefnogi anghenion CIY a/neu SIY disgyblion DLlE.

*Hyfforddiant a gynigir gan Staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid*

4.75 Ar lefel ysgolion uwchradd, yr oedd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn mynd ati i ddarparu hyfforddiant i athrawon ysgol uwchradd (pwnc a dosbarth) i ddarparu strategaethau ar gyfer disgyblion CIY a rhai heb fod yn CIY oedd wedi mynychu'r Ganolfan. Buont yn cydweithio gydag athrawon i ddatblygu deunyddiau cymorth iaith a chwricwlwm wedi eu gwahaniaethu addas ar gyfer anghenion gwahanol ddisgyblion.

4.76 Mynegodd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar lefelau uwchradd a chynradd bryder nad oedd gan athrawon ysgol adnoddau nac arbenigedd digonol i gynorthwyo disgyblion CIY sydd yn parhau i fod angen cymorth iaith ychwanegol pan ddychwelant i'r ysgol o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid.

**Blwch 6: Astudiaeth achos – hyfforddi athrawon i helpu i gefnogi disgyblion CIY**

Yr oedd un Ganolfan Hwyrddyfodiaid wedi darparu hyfforddiant i'r holl staff mewn ysgol uwchradd. Derbyniodd staff y Ganolfan gopïau o daflenni / deunyddiau gwaith enghreifftiol o wahanol adrannau cyn y sesiwn, fel bod modd paratoi deunyddiau addas i'r pwnc. Yn y sesiwn

hyfforddi, dangoswyd i athrawon sut y gallent gynhyrchu eu taflenni gwaith/deunyddiau yn ddwyieithog i ddisgyblion gyda sgiliau iaith Saesneg, a gwneud defnydd o ddeunydd gweledol i ddisgyblion CIY gyda hyfedredd cyfyngedig mewn Saesneg. Arsylwodd staff y Ganolfan athrawon yn rhoi strategaethau dysgu newydd ar waith gan roi mwy o gyngor yn ôl y galw.

Dywedodd staff y Ganolfan fod athrawon ysgol yn dueddol o ddibynnu ar esbonio yn Saesneg i helpu i ddisgybl ddeall. "*Does dim pwynt gyda disgyblion heb Saesneg", meddai un athro mewn canolfan, "rydym yn darparu cyngor a hyfforddiant i athrawon ysgol am sut i ddefnyddio patrymau'r iaith Gymraeg a ddysgodd disgybl yn y Ganolfan". Aeth athro'r Ganolfan ymlaen i esbonio sut "yr ydym yn helpu athrawon i baratoi taflenni gwaith gan ddefnyddio deunydd gweledol (yn hytrach nac yn ddwyieithog yn Gymraeg and Saesneg) i helpu'r disgyblion i ddeall. Rydym hefyd yn rhoi cyngor am neilltuo gweithiwr cefnogi i roi cymorth i ddisgyblion mewn dosbarthiadau addas i'w gallu*."

**Cyfarwyddyd, rheoli a chyd-gordio**

*Ymwybyddiaeth a defnyddio cefnogaeth a ddarperir trwy'r ALl a MEAG*

4.77 O'r 12 ysgol yr ymwelwyd â hwy, dywedodd wyth nad oeddent wedi clywed am y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG). Yr oedd dwy o'r ysgolion a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o fodolaeth MEAG mewn gwirionedd yn derbyn peth cymorth SIY i'w disgyblion wedi ei ddarparu gan eu EMAS lleol. Canfuwyd nad yw ysgolion o raid yn ymwybodol fod eu disgyblion yn cael eu cefnogi gan arian MEAG am nad yw'r ysgolion yn ymwneud yn uniongyrchol â cheisiadau am arian. Hefyd, nid oedd mwyafrif yr ysgolion astudiaeth achos yn gyffredinol yn ymwybodol fod cyllid MEAG ar gael ar gyfer cymorth CIY.

4.78 Yr oedd dwy o'r ysgolion oedd yn ymwybodol o MEAG yn gallu cyrchu cymorth CIY gan yr EMAS a gyllidwyd gan MEAG. Yn achos trydedd ysgol, darparwyd cymorth a chyngor gan EMAS ar strategaethau cyffredinol am ymdrin ag anghenion dysgwyr CIY a SIY. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymorth dysgu ychwanegol i ddisgyblion ar gael yn Gymraeg gan y tîm EMAS hwn.

4.79 Mynegodd yr ysgolion hynny nad oeddent yn derbyn cymorth CIY trwy gyllid MEAG angen am gymorth CIY ychwanegol ar ffurf cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth CA i ddisgyblion. Mae'r astudiaeth hon yn cadarnhau casgliad adolygiad Estyn o MEAG fod diffyg tryloywder i ysgolion am sut y dyrennir cyllideb MEAG.[113] Mae'r astudiaeth hon hefyd yn cadarnhau nad yw MEAG fel arfer yn ffynhonnell ar gyfer

[113] Adroddiad Arolwg Estyn (2003): Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG) Defnydd Effeithiol o Adnoddau.

CIY fel y mae am gymorth SIY, sydd yn gwrthdaro a bwriad LlC. Cafwyd hyn hefyd yn ystod cyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

*Ymwybyddiaeth a defnyddio cefnogaeth a ddarperir trwy'r Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS)*

4.80 Yr oedd yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn ymwybodol o fodolaeth eu EMAS lleol. Yr oedd yr ysgolion oedd wedi derbyn gwasanaethau gan weithwyr cefnogi EMAS wedi defnyddio cyfleusterau cyfieithu ieithoedd cymunedol ac adnoddau iaith eraill, a dywedasant fod y gwasanaethau hyn yn werthfawr iawn.

4.81 Dywedodd rhai ysgolion na allai eu EMAS lleol ddarparu staff cefnogi Cymraeg eu hiaith a oedd, yn eu barn hwy, yn cyfyngu ar ansawdd y cymorth y gallent ei gael gan yr EMAS. Dywedodd chwech o ymatebwyr EMAS nad oedd gan eu timau yr arbenigedd Cymraeg ar hyn o bryd i ddarparu cymorth iaith ychwanegol yn Gymraeg.

**Blwch 7: Astudiaeth achos - darparu cymorth gydag ieithoedd yr ysgol a'r cartref**

| |
|---|
| Mae un tîm EMAS yn darparu cymorth iaith Gymraeg i ddisgyblion CIY yn y Cyfnod Sylfaen yn unig, yn unol ag iaith y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r tîm hefyd yn rhoi cymorth anuniongyrchol i Saesneg trwy roi i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen lyfrau darllen Saesneg i'w darllen gartref gyda'u rhieni. Mae llyfrau mewn ieithoedd eraill (e.e. mewn Pwyleg, Latfieg a Hwngareg) hefyd yn cael eu benthyca i deuluoedd er mwyn helpu i annog a chefnogi datblygiad eu mamiaith. Mae'r EMAS hwn yn darparu cymorth SIY sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm yn ogystal â chymorth SIY pan fydd disgyblion CIY yn dechrau dysgu Saesneg yn CA2. |

4.82 Dywedodd dau arweinydd EMAS y gallent dynnu ar wasanaethau siaradwr Cymraeg i roi cymorth CIY tymor-byr, petai'r angen yn codi. Yn y 14 ALl oedd weddill, mae yna staff gydag arbenigedd yn y Gymraeg i roi cefnogaeth CIY. Ni ddywedwyd a allai'r aelodau hyn o staff hefyd siarad rhai o ieithoedd cartref y disgyblion CIY.

4.83 Lle'r oedd cymorth CIY yn cael ei ddarparu gan EMAS, yr oedd yn amlwg bod ymgais fwriadol wedi ei gwneud i recriwtio a hyfforddi staff er mwyn gwneud yn siŵr fod gan y timau yr arbenigedd i roi cefnogaeth mewn Cymraeg yn ogystal ag ieithoedd cymunedol eraill.

4.84 Trwy ddarparu gwasanaeth ar ran pump ALl ar ffurf consortiwm, roedd gan un EMAS dîm sylweddol o 83 o staff (athrawon cyrhaeddiad SIY a chynorthwywyr dysgu dwyieithog). Gallai'r tîm hwn ddarparu cymorth mewn 62 o ieithoedd, ac yr oedd yn cynnwys tri o siaradwyr Cymraeg. Mantais tîm ALl-cyfan fel hyn, mewn ardal lle mae nifer y disgyblion CIY yn isel, yw y gellir defnyddio'r tri aelod Cymraeg eu hiaith ar draws y pump ALl er mwyn rhoi cymorth CIY yn ôl yr angen.

4.85 Awgryma'r dystiolaeth nad yw ysgolion o raid yn cysylltu â thimau EMAS pan fo disgyblion CIY angen cymorth ychwanegol gyda Chymraeg. Teimlai rhai arweinwyr EMAS efallai na fyddai'r ysgolion yn meddwl y gallai timau EMAS ddarparu cyngor a chefnogaeth gyda CIY.

4.86 Yn yr ALl hynny lle mae timau EMAS ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion CIY, dywedwyd bod systemau rheolaidd ar gyfer monitro ac adolygu'r cymorth a roddid i ddisgyblion ar gael. Fel yn achos disgyblion SIY ym mhob ALl, mae ysgolion a thimau EMAS yn monitro'r wybodaeth hon ar y cyd. Yn yr ALl eraill, adroddwyd nad oedd llawer o gydweithio rhwng y timau EMAS a'r ysgolion ac felly nid oes system ar gyfer monitro ac adolygu'r cymorth a roddir. Dengys tystiolaeth o gyfweliadau EMAS ac ymweliadau ag ysgolion y byddai mwy o gydweithredu rhwng timau EMAS ac ysgolion yn llesol o ran codi ymwybyddiaeth o arferion ac arbenigedd y naill ochr a'r llall, rhannu profiadau a chytuno ar drefniadau gweithio ar y cyd, a allai arwain at fwy o gymorth integredig i ddisgyblion CIY mewn ysgolion.

*Cydgordio mewn ysgolion, neu rhwng ysgolion mewn dalgylch, i ateb anghenion disgyblion CIY*

4.87 O ran cefnogaeth i ddisgyblion CIY mewn ysgolion, dim ond dau o ymatebwyr EMAS a soniodd fod cydlynydd dynodedig CIY mewn ysgolion. "*Rydym yn wastad yn gweld pwy yw'r cydlynydd CIY allweddol dynodedig mewn ysgolion ac yn sicrhau bod yr holl staff [EMAS] yn gwybod pwy ydyw",* meddai un arweinydd EMAS.

4.88 Dengys ymatebion o gyfweliadau EMAS ac ymweliadau ac ysgolion, yn gyffredinol, nad yw cydgordio rhwng ysgolion yn benodol i ateb anghenion cymorth CIY disgyblion yn bodoli. Dau ALl yn unig roddodd fanylion am gydgordio o'r fath rhwng ysgolion.

**Blwch 8: Astudiaeth achos – cydgordio rhwng ysgolion**

| |
|---|
| Mae un All, dros y saith mlynedd ddiwethaf, wedi cynnal fforwm SIY unwaith y tymor lle mae staff cymorth SIY a CIY ac athrawon dosbarth yn bresennol. Yn y fforwm hwn, adolygir y ddarpariaeth SIY a CIY, ac y mae cyfle hefyd i hyfforddi a rhannu arfer da. Yn yr un ALl, trefnir ymweliadau dwyochrog rhwng ysgolion. Bwriadwyd yr ymweliadau hyn i roi cyfle i athrawon "*godi syniadau gan ein gilydd*" am ffyrdd o gynorthwyo disgyblion DLIE gydag anghenion CIY. |

*Ymwybyddiaeth o ysgolion ieithoedd cymunedol / ategol a sianeli cydweithredu rhwng darpariaeth statudol a chymunedol*

4.89 Yr oedd saith o'r arweinwyr EMAS yn ymwybodol o ysgolion cymunedol naill ai yn lleol neu mewn ALl gerllaw. Yr oedd yr ysgolion cymunedol a grybwyllwyd ar gyfer Tsieinëeg, Pwyleg ac Arabeg. Mewn ymweliadau astudiaethau achos, nodwyd dwy ysgol oedd wedi sefydlu cysylltiadau gydag ysgol gymuned leol a/neu gydag adran Prifysgol/ sefydliad i drefnu dathliadau diwylliannol a gwersi iaith i ddisgyblion. Yn gyffredinol, tystiolaeth gyfyngedig oedd o unrhyw gysylltiadau rhwng timau EMAS, ysgolion cyfrwng-Cymraeg ac ysgolion cymunedol. Nid oedd tystiolaeth chwaith o sianeli ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion CIY rhwng ysgolion cyfrwng-Cymraeg a darpariaeth gymunedol, lle'r oedd darpariaeth o'r fath yn bodoli.

*Cynnwys ieithoedd cymunedol ym mholisïau iaith ysgolion*

4.90 Yr oedd gan un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy bolisi Cymraeg a Saesneg fel Ieithoedd Ychwanegol penodol oedd hefyd yn cyfeirio at ieithoedd cartref y disgyblion. Polisi safonol yr ALl oedd hwn a addaswyd i'r ysgol dan sylw. Adroddodd ysgol astudiaeth achos arall eu bod wrthi yn cadarnhau eu polisi CIY/SIY newydd ac y byddai'n cael ei gyfieithu i ieithoedd cymunedol poblogaeth yr ysgol. Fel y dengys y detholion polisi a atgynhyrchwyd ym Mlwch 9 Astudiaeth Achos, agwedd yr ysgol yw rhoi gwerth ar ieithoedd cymunedol a chynnwys eu defnydd yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn datgan yn benodol ddarpariaeth yr ysgolion i ddisgyblion ddysgu eu hieithoedd yn amgylchedd yr ysgol ac ennill cymwysterau (e.e. TGAU). Mae adnoddau ar gael i ysgolion sydd am

gynnwys ieithoedd cymunedol yn eu darpariaeth ieithoedd modern sydd yn rhoi canllawiau addysgeg penodol i athrawon a llunwyr polisi yn hyn o beth[114].

### Blwch 9: Astudiaeth achos – detholion o bolisi CIY ac SIY ysgol

| |
|---|
| "*Rhaid i'r holl ddisgyblion deimlo'n ddiogel, wedi eu derbyn a'u gwerthfawrogi er mwyn dysgu. I ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol, mae hyn yn cynnwys cydnabod a rhoi gwerth ar iaith a chefndir eu cartref. Fel ysgol gyda ffrydiau cyfrwng-Cymraeg a lle dysgir Saesneg hefyd yn CA2, yr ydym yn arbennig o ymwybodol fod dwyieithrwydd yn gryfder a bod gan ddisgyblion CSIY* [Cymraeg a Saesneg fel Ieithoedd Ychwanegol] *gyfraniad gwerthfawr i'w wneud. Rydym yn cymryd agwedd ysgol gyfan, gan gynnwys ethos, cwricwlwm, addysg yn erbyn hiliaeth a hybu ymwybyddiaeth iaith. (Cyfeirio at Bolisi Cydraddoldeb Hil yr Ysgol*)" (t.1)<br><br>*"Mae iaith yn ganolog i'n hunaniaeth. Felly, dylid cydnabod a rhoi gwerth ar ieithoedd cartref yr holl ddisgyblion a'r staff. Dylid annog disgyblion i gynnal ieithoedd eu cartref a'i defnyddio yn amgylchedd yr Ysgol lle bo modd*." (t.2) |

Ffynhonnell: 'Policy ar Gymraeg and Saesneg fel Iaith Ychwanegol' a ddarparwyd gan ysgol astudiaeth achos.

[114] Canllawiau Cwricwlwm CILT mewn ieithoedd cymunedol gan gynnwys, er enghraifft, Arabeg, Tsieiniëeg Canton), (Tsieinëeg Mandarin); Gujarati; Panjabi, Somali, Tamil, Urdu a Yoruba. Cyhoeddir y rhain gan CILT, the National Centre for Languages ac y maent ar gael ar wefan Community Gold: http://community.gold.ac.uk/

## 5 Y sefyllfa bresennol mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid

5.1 Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am y sefyllfa bresennol mewn Canolfannau trochi Hwyrddyfodiaid mewn Cymraeg. Sail o wybodaeth i'r bennod hon yw ein cyfweliadau gyda staff dysgu a disgyblion CIY mewn pedair Canolfan, dogfennau a ddarparwyd gan y Canolfannau, cyfweliadau gydag athrawon ysgol, disgyblion ysgol CIY, arweinwyr EMAS a rhanddeiliaid. Rydym yn trafod pob un o'r cwestiynau a restrir yn Amcan ymchwil 2 (gweler adran 1.40) ac yn eu cyflwyno dan y penawdau canlynol:

- Cyfarwyddyd, rheoli a chydgordio
- Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon
- Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion.

5.2 Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid, y cyfeirir atynt weithiau fel 'Canolfannau Trochi, 'Canolfannau Iaith Gymraeg' neu 'Unedau Iaith' yn nodwedd o'r 'Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion'. Sefydlwyd Canolfannau Hwyrddyfodiaid i "ganiatáu i'r sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n symud i ardaloedd penodol ddysgu'r iaith yn gyflym fel y gallant ymdopi gydag addysg cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog yn eu hysgol newydd."[115] Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar gyfer disgyblion o 'hwyrddyfodiad' o bob cefndir di-Gymraeg, gan gynnwys disgyblion CIY a SIY.

5.3 Mae 22 o Ganolfannau Hwyrddyfodiaid ledled Cymru, a'r rheiny mewn ysgolion. Mae'r Canolfannau neu'r Unedau hyn yn amrywio o ran maint, gan ddarparu cymorth i uchafswm o 16 o ddisgyblion bob tymor. Yn y rhan fwyaf o ALl, mae Canolfannau yn rhoi cymorth i ddisgyblion ar hyd yr awdurdod neu o fewn rhai clystyrau o ysgolion. Yn un ALl, mae dwy Ganolfan 'wasgaredig' sy'n symud o ysgol i ysgol yn ôl y galw.

[115] Llywodraeth Cymru (2011) Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion, p.6.

5.4 Mae pob un ond un o'r Canolfannau hyn yn ALl Cydgyfeiriant Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro ac Abertawe. Yng Nghaerdydd y mae'r un Ganolfan sydd yn rhanbarth Cystadleuol Cymru.

**Tabl 6: Nifer Canolfannau Hwyrddyfodiaid**

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer Canolfannau Hwyrddyfodiaid** |
|---|---:|
| Ynys Môn | 2 |
| Blaenau Gwent | 0 |
| Pen-y-bont | 0 |
| Caerffili | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 8 |
| Ceredigion | 1 |
| Conwy | 1 |
| Sir Ddinbych | 1 |
| Gwynedd | 5 |
| Merthyr | 0 |
| Castell Nedd Porth Talbot | 0 |
| Sir Benfro | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 |
| Abertawe | 1 |
| Torfaen | 0 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cydgyfeiriant** | **21** |
| Caerdydd | 1 |
| Sir y Fflint | 0 |
| Sir Fynwy | 0 |
| Casnewydd | 0 |
| Powys | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 |
| Wrecsam | 0 |
| **Cyfanswm Ardaloedd Cystadleurwydd** | |
| **Cyfanswm Cymru** | **22** |

*Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan arweinwyr EMAS ym Mai – Gorffennaf 2013*

5.5 Mae'r data hyn yn cadarnhau bod Canolfannau fel arfer yn gwasanaethu 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion yn CA2. (Mae disgyblion sy'n cyrraedd tua diwedd y

Cyfnod Sylfaen yn cael cymorth yn yr ysgol.) Mae'r unig Ganolfan Hwyrddyfodiaid ddynodedig i ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer disgyblion CA3 yng Ngwynedd. Fodd bynnag, yr oedd athrawes arweiniol y Ganolfan yng Nghaerdydd ar y pryd yn treulio peth o'i wythnos waith yn cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 8. Ateb dros dro oedd hwn gan nad oes rhaglen drochi swyddogol i ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd.

5.6 Yr oedd nifer y disgyblion CIY a fynychodd Ganolfannau Hwyrddyfodiaid yn 2013 yn gymharol fach - 47 o ddisgyblion CIY. Yn ôl y data a gafwyd gan arweinwyr EMAS, bu 36 o ddisgyblion cynradd a chwe disgybl ysgol uwchradd mewn Canolfan yn wyth o'r ALl Cydgyfeiriant. Yng Nghaerdydd, bu pump o ddisgyblion CIY cynradd yn y Ganolfan. Ystyrir y data hwn yn ddibynadwy o gofio fod yr holl arweinwyr EMAS mewn ALl gyda darpariaeth Canolfan Hwyrddyfodiaid wedi dilysu eu data gyda'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Cadarnhawyd y ffigyrau a ddarparwyd ar gyfer pedair Canolfan Hwyrddyfodiaid yn ystod ymweliadau astudiaeth achos.

5.7 Yn gyffredinol, ychydig o wybodaeth oedd gan arweinwyr EMAS am ddarpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid, gan ddweud nad oeddent fel arfer yn cydweithio gyda staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Dywedodd un o'r Canolfannau yr ymwelwyd â hwy yn yr astudiaeth hon eu bod wedi cydweithio gydag EMAS eu ALl i drafod anghenion eu disgyblion am gymorth iaith. Yr oedd yr EMAS hon hefyd wedi rhoi deunyddiau iaith Pwyleg i'r Ganolfan i helpu i gynorthwyo disgyblion CIY o Wlad Pwyl. Yn sail o wybodaeth i'r canfyddiadau a gyflwynir yng ngweddill yr adran hon mae arsylwadau ymweliadau astudiaethau achos, adolygiad o asesiadau enghreifftiol a dogfennau eraill a ddarparwyd gan Ganolfannau a chyfweliadau gyda staff a disgyblion CIY.

## Cyfarwyddyd, rheoli a chyd-gordio

*Prosesau cyfeirio at Ganolfannau Hwyrddyfodiaid*

5.8 Mae pob 'hwyrddyfodiad' o ddisgybl (disgyblion CIY a Chymry sy'n siarad Saesneg) fel arfer yn cael eu cyfeirio at Ganolfannau gan yr ysgol, trwy ymgynghoriad â rhieni a disgyblion. Mewn un ALl, mater i bob ysgol oedd penderfynu cyfeirio disgybl at

Ganolfan Hwyrddyfodiaid. Mewn ALl arall, y Polisi Addysg yw bod pob disgybl DLIE a heb fod yn DLIE sy'n 'hwyrddyfodiaid' sydd '*heb unrhyw wybodaeth o Gymraeg*', fel arfer yn cael eu cyfeirio at Ganolfan. Mae hyn er mwyn galluogi disgyblion i ymdopi â'r addysg -Cymraeg a ddarperir. Fodd bynnag, argymhellion yn hytrach na gorfodaeth yw pob cyfeiriad, ac nid yw pob disgybl sy'n 'cyrraedd yn hwyr' o raid yn mynychu Canolfan.

5.9 Oherwydd darpariaeth gyfyngedig a galw trwm mewn rhai ardaloedd, ni all pob disgybl gael lle ar unwaith mewn Canolfan. Yr oedd tystiolaeth o amrywiaeth yn amseriad cyfeirio. Dywedodd dau o arweinwyr EMAS fod disgyblion fel arfer mewn ysgol am dymor cyn cael eu cyfeirio o bosib. Mewn achosion eraill, roedd disgyblion yn mynychu'r Ganolfan o fewn y dyddiau/wythnos gyntaf o gyrraedd yn yr ysgol. Mae ysgolion yn cysylltu â Chanolfannau dros y ffôn er mwyn cadw lle i ddisgybl ac yn llenwi ffurflen gyfeirio. Roedd gan ddwy Ganolfan restrau aros o ddisgyblion eisoes wedi eu cofrestru i fynychu y tymor dilynol.

5.10 I ddisgyblion mewn un ALl, yr oedd cwrs 'cyn-Ganolfan' ar gael. Cwrs tair wythnos oedd hwn a fwriadwyd i gyflwyno'r Saesneg i ddisgyblion SIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog. Mae'r cwrs hefyd yn anelu at helpu disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg i wahaniaethu rhwng Cymraeg a Saesneg. Yn dibynnu ar nifer yr 'hwyrddyfodiaid' newydd, byddai'r cwrs weithiau yn cael ei gyflwyno i grŵp bychan yn yr hyn oedd yn cael ei alw'n lleol yn 'Ganolfan Saesneg'. Pwysleisiodd llawer o athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid, arweinwyr EMAS ac EALAW yr her ychwanegol oedd yn wynebu disgyblion sydd yn newydd i Saesneg a Chymraeg pan fyddant yn cyrraedd. Mae'n rhaid i ddisgyblion o'r fath gaffael dwy iaith ychwanegol ar yr un pryd er mwyn rheoli gofynion cwricwlwm ac amgylchedd cymdeithasol cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog.

5.11 Mae pob Canolfan yn gwahodd rhieni a disgyblion i ymweld â'r Ganolfan er mwyn cyfarfod y staff a dysgu am waith y Ganolfan cyn y cwrs fel rhan o'r broses gyfeirio. Dywedodd Canolfannau y gallant hefyd ymateb i amgylchiadau penodol ac anghenion disgyblion unigol yn ôl y galw.

**Blwch 10: Astudiaeth achos - Cymorth Canolfannau Hwyrddyfodiaid i ddisgyblion and rhieni**

| |
|---|
| Mae'r athrawon o un Ganolfan yn mynd i ysgolion uwchradd i gyfarfod y disgyblion newydd do 'hwyrddyfodiaid' a'u teuluoedd. Maent yn rhoi map, lluniau a thaflen o'r Ganolfan iddynt, ac yn dangos clipiau fideo iddynt ar i-pad i gyflwyno ac esbonio gwaith y Ganolfan. Bydd y Ganolfan yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod cyfeirio at fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Yr oedd un dysgwr CIY felly yn yr ysgol am ddeuddydd ac oherwydd bod y profiad yn ei llethu, cysylltodd yr Ysgol â'r Ganolfan. Ymwelodd un o athrawon y Ganolfan â'r ysgol hon i gyfarfod y dysgwr ac esbonio'r broses gyfeirio a sut y gallai'r Ganolfan helpu. Y nod oedd dod yn gyfaill, rhoi sicrwydd a chymorth. *"Mae gennym ethos cryf o ofalu yn y Ganolfan. Mae Cymraeg yn eilbeth yn wir i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n saff, yn gallu llwyddo a chael hwyl - fe ddaw'r iaith gyda hynny. Mae teimlo'n saff mor bwysig o ystyried cefndiroedd rhai o'r plant"*. |

5.12 Mewn dwy o'r Canolfannau yr ymwelwyd â hwy, cynigir cyfle i rieni gyfle i ddysgu Cymraeg. Mae un Ganolfan yn gwahodd darparwyr Cymraeg i Oedolion i'w bore agored cyn y cwrs. Mae Canolfan arall yn annog rhieni i gymryd rhan mewn cwrs o'r enw '*Blas ar Gymru'* a gynhelir yn y Ganolfan.

**Blwch 11: Astudiaeth achos – Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn dwyn rhieni i mewn i gefnogi eu plentyn i ddysgu Cymraeg**

| |
|---|
| Mae Blas ar Gymru yn gwrs pum wythnos a gynhyrchwyd gan y pennaeth mewn un Canolfan Hwyrddyfodiaid ac a gynigir i holl rieni disgyblion o 'hwyrddyfodiaid' sy'n mynychu Canolfan. Datblygwyd y cwrs hwn fel rhan o strategaeth gymunedol ehangach i gymhathu gweithwyr mudol dan arweiniad yr ALI mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion, Heddlu Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru (NWREN). Cafodd y cwrs ei beilotio gyntaf yn 2007 gyda grŵp o saith o rieni dysgwyr Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Mae'r holl Ganolfannau Hwyrddyfodiaid yn yr awdurdod yn awr yn darparu'r cwrs hwn i rieni. Mae'r sesiynau wythnosol yn cynnwys cyflwyniad i'r iaith Gymraeg, diwylliant Cymru, hanes lleol ac enwau lleoedd. Mae deunyddiau'r cwrs hefyd ar gael fel cyfres o gyflwyniadau PowerPoint ar CD-Rom ynghyd â gemau a gweithgareddau. Y bwriad yw i rieni na all fynychu'r cwrs yn bersonol yn y Ganolfan astudio gartref. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio fel bod rhieni a disgyblion yn defnyddio deunyddiau'r cwrs i chwarae gemau iaith gartref i ategu dysgu Cymraeg y plant tra byddant yn y Ganolfan. |

*Asesiadau a deilliannau Canolfannau Hwyrddyfodiaid*

5.13 Mae'r broses o gyfeirio dysgwyr o 'hwyrddyfodiaid' yn mynnu bod pob ysgol yn llenwi Ffurflen Gyfeirio Canolfan Hwyrddyfodiaid. Mae'r ffurflen gyfeirio yn gofyn am fanylion cefndir teulu'r dysgwr, a'r iaith a siaredir gan y rhieni. Gofynnir i ysgolion hefyd nodi, yn achos darllen a mathemateg, a yw disgybl yn 'Rhugl Iawn, 'Rhugl',

‘Boddhaol’ neu ‘Wan’ mewn Cymraeg ac i wneud sylwadau am gryfderau a gwendidau hysbys y dysgwr ym meysydd eraill y cwricwlwm.

5.14 Mewn cyfweliadau gydag athrawon, dywedasant eu bod yn nodi fod angen cyfeirio at Ganolfan Hwyrddyfodiaid pan fo disgybl yn cyrraedd heb fod wedi cael unrhyw addysg cyfrwng-Cymraeg o’r blaen. Nid yw asesiadau iaith manwl yn cael eu gwneud gan yr ysgol cyn cyfeirio. Mae swm y wybodaeth gefndir a gaiff Canolfannau am ddisgyblion CIY “*fel arfer yn eithaf prin*”, fel yr eglurodd un o’r athrawon, “*mae’n anodd cael unrhyw wybodaeth am ysgol flaenorol disgybl yn Lloegr, a bron yn amhosib cael unrhyw wybodaeth o ysgol mewn unrhyw wlad arall*”.

5.15 Felly, mae Canolfannau yn cynnal eu hasesiadau iaith eu hunain. Dywedodd athrawon ysgolion astudiaeth achos eu bod yn dibynnu ar arbenigedd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid i asesu lefelau dysgwr o gaffaeliad iaith Gymraeg ac i nodi beth fydd eu hanghenion am gymorth iaith ac addysg pan fyddant wedi dychwelyd i’r ysgol. Yn y Canolfannau yr ymwelwyd â hwy, mae asesiadau yn digwydd yn gyson trwy’r cwrs i fonitro cynnydd mewn caffaeliad iaith yn unol â chwrs trochi’r Ganolfan yn y Gymraeg. Mae’r holl asesiadau ysgrifenedig a llafar yn Gymraeg. Mae’r asesiadau yr un fath i’r holl ddisgyblion, waeth beth fo’u cefndir ieithyddol, ac y maent yn ymwneud yn benodol â chynnwys iaith y cwrs a ddysgir yn y Ganolfan.

5.16 Mae asesiadau cychwynnol pan fydd disgyblion yn cyrraedd y Ganolfan yn anffurfiol ac yn cael eu defnyddio, yn achos un Ganolfan, i grwpio disgyblion o oedran a gallu cyffelyb gyda’i gilydd. Yn achos Canolfannau eraill, nid oedd y grwpiau oedran a galluoedd mewn Cymraeg mor debyg, ac felly roedd y disgyblion yn cael eu dysgu gyda’i gilydd yn hytrach nac mewn grwpiau ar wahân.

5.17 Mae asesiadau’r Ganolfan yn ddull o fonitro cynnydd disgybl yn erbyn y strwythurau iaith a ddysgir. Dywedwyd, ar lefel ysgol uwchradd, y bydd y cwrs wyth wythnos yn rhoi i’r rhan fwyaf o ddisgyblion gyda’r sgiliau ‘Cymraeg fel iaith gyntaf’ a ddisgwylir o ddisgyblion Blwyddyn 3. Ar lefel ysgol gynradd, bwriadwyd y cwrs 12 wythnos i roi i ddisgyblion Saesneg eu hiaith y sgiliau i gyrraedd Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol ‘cryf’ neu Lefel 3 ‘cynnar’ mewn Cymraeg erbyn iddynt ddychwelyd i’r ysgol.

**Blwch 12: Astudiaeth achos – esiampl o lefelau asesu Canolfannau Hwyrddyfodiaid**

| |
|---|
| Dywedodd un Ganolfan yr ymwelwyd â hi ar gyfer yr astudiaethau achos eu bod yn 'addasu' y lefelau asesu fymryn at ddibenion disgyblion CIY a hwyrddyfodiaid o Gymry. Er enghraifft, dywedodd staff y Ganolfan eu bod yn rhoi Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol fel 'Dysgu ar Gof', gan nad oes gan ddisgyblion 'iaith gynnar' yn y modd mae gan siaradwr 'brodorol' pedair i bump oed pan fydd yn cyrraedd yr ysgol. Mae Lefel 1 fel arfer yn cyfrif am y 17 i 20 diwrnod cyntaf o gwrs y Ganolfan, a dyma'r cyfnod pan fo disgyblion yn dysgu patrymau iaith ar eu cof. Lefel 2 yw pan fo'r disgyblion yn gallu 'rhoi'r iaith ar waith'. Dyma pan fyddant yn defnyddio strwythurau iaith yn annibynnol a chreadigol yng nghyd-destun y cwrs.<br>Nod y Ganolfan yw i ddisgyblion fod wedi cyrraedd Lefel 2 da (Deilliant 4) yn y Cwricwlwm Cenedlaethol erbyn diwedd y cwrs, sef yr hyn fyddai'n cael ei ddisgwyl o ddisgybl Blwyddyn 2 iaith gyntaf cyfatebol. Mae rhai disgyblion yn cyrraedd Lefel 3, sydd yn cyfateb i Lefel 3 Cymraeg iaith gyntaf. Ar y lefel honno, mae gan ddisgyblion y Ganolfan yr un sgiliau â 'disgybl Cymraeg brodorol' a gallant ymdopi fwy neu lai yn annibynnol gyda gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol gynradd. |

5.18 Dywedodd athrawon yn un o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid ysgol gynradd fod disgyblion CIY oedd yn newydd i'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn tueddu i gyrraedd Lefel 1 a rhai o nodweddion cychwynnol Lefel 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol erbyn diwedd cwrs un tymor. Dywedodd yr athrawon hyn y gall disgyblion CIY sydd heb ddim neu fawr ddim Saesneg fod dan anfantais oherwydd y bwlch diwylliannol a ieithyddol rhwng Cymraeg a'u hiaith eu hunain. Gallant fod dan anfantais hefyd oherwydd mai gwybodaeth gyfyngedig sydd gan athrawon y Ganolfan o ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Yr oedd yr athrawon yn teimlo yn gyffredinol fod disgyblion CIY angen tymor ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth ddigonol o'r Gymraeg i allu ymdopi yn annibynnol yn yr ysgol. Mae angen ymchwilio ymhellach i gynnydd cymharol disgyblion CIY a rhai Saesneg eu hiaith mewn Cymraeg er mwyn adnabod gwahaniaethu posib yn y cymorth iaith ychwanegol a roddir.

**Blwch 13: Astudiaeth achos – Yr her ychwanegol a wynebir gan ddisgyblion CIY/SIY mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid**

| |
|---|
| Mewn Canolfan Hwyrddyfodiaid ysgol gynradd dywedodd:<br>*"Mae'r cwrs [y Ganolfan Hwyrddyfodiaid] wedi ei strwythuro'n ofalus fel bod llawer o'r eirfa a ddefnyddir i ddysgu strwythurau newydd wedi ei ddewis yn fwriadol i fod yn debyg i Saesneg. Er enghraifft rydym yn defnyddio: anifeiliaid y sw (hipo/hippo, eliffant/elephant, teigr/tiger,); dillad (sgert/skirt; trwsus/trousers); lliwiau (brown/brown; pinc/pink;) fel bod nifer y geiriau ffonolegol* |

*wahanol sy'n fychan ar gyfer pob ffocws dysgu newydd, i siaradwyr ieithoedd eraill sydd heb fawr ddim Saesneg, gall swm yr eirfa 'ranedig' fod yn llai o lawer ac felly mae'r 'bwlch dysgu' yn lletach o lawer. Mae'r disgyblion hyn yn gorfod dysgu geirfa newydd yn ogystal â phatrwm iaith newydd megis 'there is/are ...' or 'how many ___ are there?' Dyna pam ein bod yn gweld ei bod yn cymryd yn hwy i ddisgyblion CIY gaffael yr un faint o Gymraeg a disgyblion Saesneg eu hiaith yn ystod y cwrs 12 wythnos. Rydym wedi cynhyrchu fersiwn ddwyieithog Cymraeg/Pwyleg a Chymraeg/Hwngareg o'r cwrs, ond rydym yn gweld fod disgyblion CIY yn tueddu i beidio bod â lefelau llythrennedd yn eu hiaith eu hunain i wneud llawer o ddefnydd o'r adnodd hwn. Rydym yn gweld fod disgyblion CIY yn cymryd yn hwy i gaffael cysyniadau mwy 'haniaethol' oherwydd bod y rhain yn fwy anodd i ni eu cyfleu yn weledol/trwy ystum etc. a does gennym ni fel athrawon ddim digon o Bwyleg neu Hwngareg i helpu. Oherwydd bod gan ddisgyblion CIY heb ddim Saesneg fwy i'w ddysgu, meant o raid yn tueddu i wneud cynnydd arafach na'r disgyblion hynny sydd eisoes â gwybodaeth o'r Saesneg."*

5.19 Dywedodd staff Canolfannau fod disgyblion CIY gyda gwybodaeth gyfyngedig o Saesneg, ar lefel ysgol gynradd ac uwchradd, angen llawer iawn o gymorth ychwanegol cyson pan fyddent yn dychwelyd i'r ysgol. Yr oeddent yn pryderu nad oedd gan athrawon ysgol yr arbenigedd na'r adnoddau (mewn dosbarthiadau mawr) i roi cymorth ychwanegol digonol i ddisgyblion CIY o'r fath.

**Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon**

*Dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannau ac amlieithrwydd*

5.20 Dywedodd athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn cyfweliadau eu bod hefyd yn dysgu agweddau o ddiwylliant Cymreig gyda golwg ar helpu disgyblion o amrywiaeth eang o gefndiroedd o'r DU ac yn rhyngwladol i gynyddu eu hymdeimlad o berthyn ac ymwneud a'u hysgol newydd a'r gymuned leol. Dengys tystiolaeth o arsylwadau astudiaethau achos a chyfweliadau fod y dysgu hwn yn cael ei reoli yn sensitif mewn ethos sydd yn parchu ac yn dathlu amrywiaeth iaith, diwylliant a chred. Dywedodd llawer o athrawon eu bod wedi ymchwilio i iaith a chefndiroedd diwylliannol eu disgyblion ac wedi cynllunio gweithgareddau dosbarth fel bod y disgyblion yn dysgu mwy am ieithoedd a diwylliannau ei gilydd wrth iddynt ddod i adnabod ei gilydd a dysgu Cymraeg.

*Arbenigedd athrawon canolfannau hwyrddyfodiaid i gefnogi disgyblion CIY o gefndiroedd DLIE*

5.21 Yr oedd yr athrawon y Canolfannau Hwyrddyfodiaid lle cafwyd astudiaethau achos oll wedi hyfforddi i ddechrau fel athrawon Cymraeg ysgolion cynradd ac uwchradd. Yr oeddent oll wedyn wedi cael cryn brofiad mewn swydd o ddysgu Cymraeg i ddisgyblion di-Gymraeg trwy weithio mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Soniodd un uwch-athro am fynd ar amrywiol gyrsiau dysgu ail iaith ac ieithoedd tramor a mynd ar ymweliad astudio i ddysgu am bolisi a strategaethau dysgu dwyieithog mewn cyd-destun Ewropeaidd arall. Dywedodd athrawes arall ei bod yn dilyn llawer o gyrsiau 'hunan-addysgu' arlein gan ddefnyddio gwefannau dysgu ieithoedd tramor, ail iaith a SIY, gan addasu strategaethau, deunyddiau a thechnegau i'w defnyddio ganddi hi gyda'i disgyblion yn y Ganolfan.

5.22 O gymharu ag athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yr oedd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau sy'n gyffredin i ddysgu trochi ac ail iaith /SIY megis defnyddio pwyslais, tôn llais ac ystum i gyfleu ystyr. Yr oeddent hefyd yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau 'sgaffaldu', megis: amlygu geirfa a phatrymau iaith allweddol, defnyddio llawer o ail-adrodd, adolygu, a graddio cyfraniadau iaith yn unol â galluoedd y dysgwyr.

5.23 Nid oedd yr un o staff y Canolfannau Hwyrddyfodiaid a gyfwelwyd wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd CIY. Fodd bynnag, mewn rhai Canolfannau astudiaeth achos, dangosodd llawer o athrawon gryn ymdrech i gynhyrchu eu deunyddiau dysgu dwyieithog eu hunain megis cardiau fflach mewn Cymraeg / Pwyleg; Cymraeg / Hwngareg a Cymraeg/Thai. Yr oedd un Ganolfan hefyd wedi cynhyrchu fersiwn Gymraeg/Pwyleg a Chymraeg/Hwngareg o gwrs iaith Gymraeg cyflawn y Ganolfan er mwyn ategu dysgu CIY eu disgyblion. Crëwyd y deunyddiau hyn gan ddefnyddio llyfr 'Teach Yourself Polish', deunyddiau eraill dysgu iaith, a *Google Translate*. Un Ganolfan yn unig a adroddodd am dderbyn "*peth deunyddiau Pwyleg defnyddiol*" trwy eu EMAS lleol.

5.24 Yr oedd mwyafrif athrawon Canolfannau a gyfwelwyd wedi gwneud ymdrech hefyd i ddysgu geirfa ac ymadroddion sylfaenol yn ieithoedd eu disgyblion. Serch hynny, yr oedd yr holl athrawon yn ymwybodol o'r ffaith fod eu gwybodaeth gyfyngedig hwy o ieithoedd eu disgyblion wedi ei gwneud yn anodd iddynt allu esbonio popeth yn ddigon manwl i'w disgyblion. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o wir yn ail ran y cwrs pan fyddai'r eirfa a'r patrymau iaith yn mynd yn fwy cymhleth a haniaethol. Ni

ddywedodd yr un o'r arweinwyr EMAS eu bod wedi cynnal hyfforddiant ar anghenion dysgwyr CIY gydag athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Yn achos y pedair Canolfan yr ymwelwyd â hwy, nid oedd dim hyfforddiant o'r fath wedi ei gynnig iddynt ac nid oedd staff y Ganolfan wedi galw am hyfforddiant yn y maes hwn chwaith.

5.25 Dywedodd holl athrawon y Canolfannau Hwyrddyfodiaid fod angen am fwy o hyfforddiant fyddai'n eu galluogi i roi gwell cymorth i ddisgyblion CIY, ac yr oeddent yn awyddus i gael hyn. Yr oedd eu hawgrymiadau am hyfforddiant pellach yn cynnwys y canlynol:

- Sut i esbonio cysyniadau haniaethol i ddisgyblion lle nad oes iaith yn gyffredin;
- Sut i roi cymorth i grwpiau CIY penodol;
- Ymweliadau astudio ag ysgolion yng Nghymru, Lloegr a gwledydd eraill i ddysgu am strategaethau eraill o ran cymorth CIY a SIY.

**Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion**

*Cymorth a roddir i helpu disgyblion i wella lefel eu cyrhaeddiad mewn Saesneg a Chymraeg*

5.26 Ar draws y pedair canolfan yr ymwelwyd â hwy, mae'r ddarpariaeth yn canoli yn gyfan gwbl ar gyflwyno cwrs iaith dwys 'cyflwyniad i'r Gymraeg'. Nid gwella lefel cyrhaeddiad y disgyblion CIY mewn Saesneg yw'r canolbwynt. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan yn siarad Saesneg gartref. Bydd disgyblion CIY yn cael peth cymdeithasoli ychwanegol anuniongyrchol mewn Saesneg trwy ymwneud â'u cymheiriaid yn y Ganolfan.

*Cymorth a roddir i helpu disgyblion i wella lefel eu cyrhaeddiad ym mhynciau'r cwricwlwm*

5.27 Cynlluniwyd cyrsiau Canolfannau Hwyrddyfodiaid i ddysgu strwythurau a geirfa'r Gymraeg naill ai ar lefel cynradd neu uwchradd. Yn y pedair canolfan yr ymwelwyd â hwy , yr oedd y patrymau iaith a'r eirfa yn safonol ac yn cynnwys:

- Cyfarchion / sefydlu perthynas
- Mynegi teimladau
- Tywydd ac amser
- Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau
- Cyfleu profiadau personol a dychmygol
- Cyflwyno gwybodaeth
- Geirfâu pwnc (mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, addysg gorfforol, celf a thechnoleg, cerddoriaeth).

5.28 Yn y Canolfannau yr ymwelwyd â hwy, yr oedd y cyrsiau hefyd wedi eu strwythuro i gynnwys rhai o'r pynciau uchod lle cafodd y geirfâu a'r patrymau iaith eu cyflwyno, eu hymarfer a'u dysgu. Mae'r disgyblion yn dysgu Cymraeg trwy bynciau'r cwricwlwm ac yn rhoi i'r disgyblion yr eirfa a'r patrymau iaith angenrheidiol i ymdopi â dychwelyd i'r ysgol. Mewn cyfweliadau, dywedodd athrawon y Canolfannau eu bod yn rhoi cryn bwys ar rifedd a mathemateg, gyda chanolbwynt ar fathemateg bob dydd. Yr oedd y Ganolfan i ddisgyblion uwchradd wedi cael canllawiau gan ymgynghorwyr pwnc yr ALl ynghylch cynnwys pwnc y cwricwlwm. Bu ymgynghorydd mathemateg a phennaeth mathemateg o ysgol uwchradd hefyd wedi bod yn rhan o adolygu gwersi mathemateg y Ganolfan er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn unol â chwricwlwm Blwyddyn 7.

*Prosesau gadael ac ail-gymhathu disgyblion i'r ysgol a chwricwlwm yr ysgol*

5.29 Mae gan Ganolfannau a gynhwyswyd yn yr astudiaethau achos brosesau fymryn yn wahanol i reoli proses adael y disgyblion a'u hymwneud â monitro cynnydd disgyblion yn yr ysgol. Hefyd, mae ail-gymhathu disgyblion CIY i'r ysgol yn amrywio rhywfaint. Mae'r holl Ganolfannau lle bu astudiaethau achos yn rhoi i ysgolion asesiadau dysgwyr ar sail eu caffaeliad o'r eirfa a'r patrymau iaith a ddysgwyd ar y cwrs. Dywedodd tair o'r pedair Canolfan  eu bod yn croesgyfeirio eu hasesiad o gynnydd disgyblion ar y cwrs i lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r FfLlRh. Nid oedd yr un o'r Canolfannau yn gyfarwydd o'r blaen â'r Model Pum Cam am asesu SIY.

5.30 Lle'r oedd y broses o drosglwyddo data am ddysgwyr ac adnabod anghenion y disgyblion CIY am gymorth ar ei gadarnaf, yr oedd gan staff y Ganolfan bolisi o friffio yn llawn ac yn bersonol yr athrawon dosbarth (a rheolwyr yr ysgol) am gynnydd disgyblion yn y Ganolfan. Yr oeddent yn trafod hefyd gyda'r ysgol y ffordd orau o gefnogi pob disgybl yn ôl eu hanghenion unigol. Mae'r athrawon a rheolwyr yr ysgol yn cael gweld a thrafod esiamplau o dasgau ysgrifenedig a llafar /asesiadau i ddangos sylfaen deilliannau asesu'r Ganolfan a sut y maent yn asio gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r FfLlRh. Mewn cyfweliadau astudiaeth achos, cadarnhaodd athrawon ysgol fod cael gweld clipiau ffilm o dasgau llafar yn arbennig o fuddiol o ran gweld beth fedr disgybl ei wneud. *"Gall disgyblion CIY, yn arbennig, fod yn swil neu dawedog pan fyddant yn dychwelyd gyntaf i'r ysgol, ac y mae'r ffilmiau yn dangos i athrawon beth mae disgybl yn ddeall ac yn gallu fynegi yn Gymraeg*", esboniodd athro un Ganolfan.

5.31 Yn yr enghreifftiau gorau, mae adroddiadau disgyblion i athrawon yn nodi cryfderau'r disgybl, unrhyw wendidau ac yn argymell strategaethau i barhau i roi cymorth pan fyddant wedi dychwelyd i'r ysgol. Mae Canolfannau yn cynnal trafodaethau manwl gydag athrawon dosbarth a rheolwyr yr ysgol ar anghenion cymorth parhaus pob disgybl.

**Blwch 14: Astudiaeth achos – Cyngor a hyfforddiant Canolfannau Hwyrddyfodiaid i athrawon ysgol ar gynorthwyo disgyblion CIY**

| |
|---|
| Yr oedd un o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn rhoi hyfforddiant yn ogystal â chyngor ar gefnogi disgyblion CIY. *"Mewn ysgolion, mae athrawon yn tueddu i ddibynnu ar esbonio yn Saesneg er mwyn helpu disgyblion CIY i ddeall. Does dim pwynt gyda disgyblion sydd heb ddim neu fawr ddim Saesneg. Yn hytrach, rydym yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar ddysgu staff sut i ddefnyddio'r eirfa a phatrymau iaith Gymraeg a ddysgodd y disgybl. Rydym yn helpu athrawon i baratoi taflenni gwaith gyda deunydd gweledol (yn hytrach na dim ond yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg) i helpu disgyblion CIY i ddeall. Rydym yn rhoi cyngor am neilltuo gweithiwr cefnogi i ddisgybl mewn dosbarthiadau addas i'w allu. Er enghraifft, rydym yn argymell bod un o'n disgyblion CIY presennol yn cael ei roi mewn set gallu uwch yn hytrach nac, fel y mae athrawon yn tueddu i wneud, rhoi disgyblion mewn set is er mwyn ymdopi â'r iaith."* |

5.32 Dywedodd athrawon ysgol eu bod yn gwerthfawrogi cefnogaeth gyffredinol y Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn fawr, gan ddweud y buasent yn elwa o gymorth ychwanegol gan staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Dywedodd athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid fod swm y gefnogaeth y gallent roi fel arfer wedi ei

gyfyngu gan eu hymrwymiadau yn y Ganolfan. Dywedasant y buasent yn croesawu cyfle i roi mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i ysgolion.

*Ymwneud rhieni mewn ail-gymhathu disgyblion yn ôl i'r ysgol*

5.33 Nid oedd tystiolaeth fod rhieni yn ymwneud yn gyffredinol â'r broses o ail-gymhathu disgyblion yn ôl i'r ysgol. Mae rhieni fel arfer yn cael adroddiadau 'diwedd cwrs' sydd yn nodi strategaethau am gymorth pellach gan eu rhieni. Fodd bynnag, yr oedd peth tystiolaeth fod canolfannau lle cafwyd astudiaethau achos yn gwahodd rhieni i noson rhieni a (mewn un Ganolfan) noson athrawon ysgol ar ddiwedd y cwrs i ddathlu llwyddiant a chynnydd y disgyblion, lle'r oedd y disgyblion yn canu, adrodd ac actio.

*Cymorth a roddir i ddisgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol*

5.34 Yr oedd amrywiaeth o ran swm y gefnogaeth ddilynol oedd yn cael ei ddarparu gan staff y Ganolfan wedi i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Byddai Canolfannau fel arfer yn rhoi llyfryn neu rywbeth tebyg i'r disgyblion o eirfa allweddol a phatrymau iaith fel cymorth i'r cof yn y dosbarth. Yr oedd swm y gefnogaeth un-i-un cyson gan athro o'r Ganolfan yn dibynnu ar hyd y cwrs a ddarparwyd ym mhob Canolfan a lefel eu hadnoddau staffio.

5.35 Ar lefel cynradd, mae cyrsiau yn para 12 wythnos gydag un wythnos ar ddechrau'r tymor a dwy ar y diwedd ar gyfer gweinyddu yn y Ganolfan. Yr oedd gan un o'r tair Canolfan gynradd yr ymwelwyd â hwy yn gallu staffio i olrhain cynnydd holl ddisgyblion y Ganolfan a rhoi cymorth ychwanegol yn yr ysgol yn ôl y galw ar gyfer y tymor dilynol. Mewn Canolfan arall, byddai cymhorthydd dysgu fel arfer yn rhoi cefnogaeth 'ôl-ofal' yn yr ysgol, os byddai amser ac ymrwymiadau'r Ganolfan yn caniatáu. Oherwydd eu hadnoddau staffio presennol, ni allai'r drydedd Ganolfan gynnig unrhyw gefnogaeth i ddisgyblion wedi iddynt adael y Ganolfan. Yn hytrach, byddai athro dosbarth pob disgybl yn ymweld â'r Ganolfan hon er mwyn cael gwybodaeth fanwl am gyrhaeddiad iaith eu disgyblion a thrafod strategaethau ar gyfer cymorth cyson i'r dysgwyr pan fyddai'n dychwelyd i'r ysgol.

5.36 Ar lefel uwchradd, cynhaliwyd cwrs y Ganolfan dros wyth wythnos. Mae hyn yn cynnwys amser i athrawon y Ganolfan roi cefnogaeth i ddisgyblion a'u hathrawon uwchradd pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol.

**Blwch 15: Astudiaeth achos – darparu cymorth wrth ddychwelyd i'r ysgol**

| |
|---|
| Mewn un Canolfan Hwyrddyfodiaid, mae'r holl ddata am asesu a gwaith cwrs yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol. Mae gwaith y disgybl yn cael ei drafod yn fanwl mewn cyfarfod gydag athrawon a rheolwyr yr ysgol. Mae adroddiad ysgrifenedig i athrawon ysgol yn nodi cryfderau a gwendidau disgybl. Mae ysgolion yn cael *Strategaeth Ail-gymhathu a Chefnogaeth gyson Disgyblion.* Mae'r strategaeth hon yn cael ei thrafod yn y cyfarfod gydag athrawon a rheolwyr yr ysgol dair wythnos cyn i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol. Mae pob ysgol yn derbyn rhestr wirio o bwy sy'n gyfrifol am y disgybl, rhestr wirio am y diwrnod cyntaf, y bythefnos gyntaf ac yna'n gyson wedi hynny. Mae'r Strategaeth yn rhoi cyngor a chanllawiau manwl ar sefydlu disgybl yn ôl yn yr ysgol, sefydlu patrymau clir a chyfarwydd o ddefnydd iaith (gan gadw at yr hyn mae'r disgybl yn wybod yn Gymraeg yn hytrach na cheisio esbonio yn Saesneg); darparu cefnogaeth mewn gwersi, datblygu sgiliau iaith y disgybl, cymorth y cytunwyd arno gan fentor enwebedig o ddisgybl, a thargedau am gynnal cynnydd y disgybl. Bydd athrawon y Ganolfan yn mynd gyda'r disgyblion sydd yn teimlo'n nerfus am ddychwelyd i'r ysgol, ar y diwrnod cyntaf i helpu'r disgybl i setlo yn eu hamgylchedd Newydd. Mae athrawon y Ganolfan hefyd yn ymweld â phob disgybl yn yr ysgol i arsylwi gwersi a siarad â'r disgybl a'i athrawon am gynnydd y disgybl. Lle bo angen ymyriad, mae athrawon y Ganolfan yn rhoi mwy o gyngor a hyfforddiant i athrawon ac yn ymweld eto â'r ysgol i gadw golwg ar gynnydd yng ngoleuni'r ymyriad hwnnw. |

*A yw disgyblion cymwys yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth iawn?*

5.37 Yr oedd yr holl ddisgyblion CIY a gyfwelwyd, oedd ar y pryd yn mynychu neu wedi mynychu Canolfan Hwyrddyfodiaid, wedi dweud eu bod wedi mwynhau eu hamser yn y Ganolfan. Teimlai pob un eu bod wedi dysgu llawer o Gymraeg a'u bod yn falch gyda'u cynnydd mewn dysgu Cymraeg. Yn ffurflenni gwerthuso'r cwrs a ddarparwyd fel tystiolaeth gan un Ganolfan, canmolwyd yr athrawon gan y rhieni a'r disgyblion am eu gofal bugeiliol rhagorol dros y disgyblion yn ogystal â'u strategaethau dysgu.

## 6 Adolygu cymorth CIY presennol yn erbyn arfer SIY da

6.1 Yn y bennod hon, byddwn yn adolygu sut mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cymorth CIY, fel y'i nodwyd yn ystod yr astudiaeth hon, yn cymharu â nodweddion arfer da mewn SIY fel y'u nodwyd ym Mhennod 3. Mae a wnelo'r rhain ag Amcan 3 (gweler adran 1.40) brîff yr ymchwil. Lle mae bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, fe'u hamlygir.

### Cyfarwyddyd, rheoli a chyd-gordio

*A oes polisi diamwys o amrywiaeth ddiwylliannol a chenfogaeth ar lefelau cenedlaethol, ALl ac ysgol lle mae anghenion disgyblion am gymorth CIY yn ogystal ag SIY yn cael eu cydnabod?*

6.2 Y mae polisi diamwys o amrywiaeth ddiwylliannol ar lefel genedlaethol Llywodraeth Cymru. Wrth i ni adolygu polisïau addysg pob ALl a chynnal ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion, gwelsom hefyd fod polisi diamwys o ran amrywiaeth diwylliannol ar lefel ALl ac ysgolion. Fodd bynnag, nid yw adnabod anghenion disgyblion CIY a SIY am gymorth yn gyson o fewn y polisïau hyn, ac y mae hyn yn amlwg yn y diffyg cydnabyddiaeth i anghenion CIY disgyblion DLlE gan rai ymarferwyr.

6.3 Cyfeirir, er enghraifft, mewn dogfennau polisi diweddar megis *Undod ac Amrywiaeth* (2010) at "*ddysgwyr nad yw Saesneg/Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt*". Fodd bynnag, y mae peth anghysondeb yn y cyfeiriadau at CIY a SIY yn y *Memorandwm Esboniadol i Reoliad Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011.* Nid yw'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010) yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr Cymraeg o gefndiroedd Saesneg eu hiaith a disgyblion sy'n newydd i Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Adlewyrchir diffyg ymwybyddiaeth rhai athrawon o'r posibilrwydd y gall fod gan rai o'u disgyblion anghenion caffaeliad iaith gwahanol yn y duedd i grwpio'r holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen o gefndiroedd di-Gymraeg ynghyd.

6.4 Yn *Strategaeth a Chanllaw ar gyfer Arolygu Llythrennedd i Ddisgyblion 3 i 18 oed* Estyn, fe geir rhestr wirio SIY ond nid CIY. Cylch gorchwyl EALAW yw hyrwyddo

hybu datblygiad iaith a chwricwlwm i ddisgyblion sy'n dysgu SIY.[116] Mewn cyfweliad, cadarnhaodd EALAW y bu canolbwynt eu gwaith hyd yma yn bennaf ar y Saesneg er eu bod wedi ymdrin â mater disgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yn eu hastudiaeth ar Gyrhaeddiad LIE yng Nghymru[117] ac wedi amlygu'r angen am fwy o ymchwil yn y maes hwn.

6.5 Ar lefel ALl, nid yw *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* ar hyn o bryd yn cyfeirio at anghenion disgyblion am gymorth CIY. Mae hyn yn golygu, ar lefel strategol, na roddir ystyriaeth i'r anghenion ar wahan sydd gan ddisgyblion DLIE sydd yn newydd i'r Gymraeg a Saesneg am gymorth ychwanegol i gaffael yr iaith Gymraeg, o gymharu â'u cyfoedion Saesneg eu hiaith.

6.6 Ar lefel ysgolion, nid oedd nemor ddim cydnabyddiaeth ffurfiol o CIY ym mholisi'r ysgol. Un enghraifft yn unig a welwyd o Bolisi CIY/SIY i'r ALl cyfan sydd ar gael i ysgolion. Mae'r polisi hwn yn cydnabod yn benodol anghenion disgyblion CIY a SIY am gymorth.

6.7 Rhaid cael cysondeb yn y modd y cydnabyddir anghenion CIY yn ogystal â SIY ar lefel polisi fel bod y naill gysyniad a'r llall yn cael ei gydnabod a'u gweithredu yn ymarferol. Ar bob lefel, mae angen cydnabod sut y gall fod gan ddisgyblion mewn addysg cyfrwng-Cymraeg sydd yn newydd i'r Gymraeg a Saesneg anghenion am gymorth i gaffael iaith sydd yn wahanol i rai disgyblion Saesneg eu hiaith sy'n dysgu Cymraeg. Mae hyn yn wir am 'hwyrddyfodiaid', ond hefyd am ddisgyblion CIY y tro cyntaf maent yn dod i mewn i addysg cyfrwng-Cymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

*A yw cysyniad CIY yn ogystal ag SIY wedi ei wreiddio yn yr uwch-dîm rheoli rhag iddo gael ei wthio i'r ymylon?*

6.8 Ar y cyfan, nid yw cysyniad CIY yn cael ei gydnabod yn ffurfiol nac yn eang mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog. Mae'r addysgeg drochi a ddefnyddir mewn ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog yn rhagdybio fod athrawon a disgyblion yn

[116] www.ealaw.org.uk
[117] EALAW (2003) 'Minority Ethnic Achievement in Wales' astudiaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

rhannu dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Saesneg. Awgryma'r dystiolaeth fod rhai athrawon yn tueddu i beidio â rhoi llawer o bwys ar anghenion CIY posibl disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Yr oedd hyn wedi seilio ar y rhagdyb fod gan ddisgyblion CIY nad oeddent yn siarad Saesneg egin-wybodaeth gynnar o'r Gymraeg oedd yn debyg i'w cyfoedion oedd yn siarad Saesneg. Yr oedd hyn yn ei dro wedi creu'r canfyddiad mai'r un anghenion caffaeliad iaith oedd ganddynt. Dywedodd yr athrawon y gall gwahaniaethau yng nghyfnodau cynnar egin-dwyieithrwydd/amlieithrwydd disgyblion gael eu cuddio pan nad yw'r erfyn asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y Cyfnod Sylfaen yn rhoi ffordd i athrawon asesu ac adnabod gwahaniaethau yn natblygiad cynnar iaith a llythrennedd. Gallai ymchwil pellach i gaffaeliad cynnar iaith a llythrennedd disgyblion Cymraeg CIY a Chymry sy'n siarad Saesneg fod yn sylfaen o wybodaeth am addysgeg trochi yn y Cyfnod Sylfaen.

6.9 Nododd yr astudiaeth hon ddwy ysgol gyda chydlynydd CIY dynodedig oedd hefyd yn aelod o dîm rheoli'r ysgol. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod cysyniad CIY ac SIY wedi ei wreiddio yn eang yn uwch-dimau rheoli ysgolion.

6.10 Mewn un ysgol lle cafwyd astudiaeth achos, a lle'r oedd CIY wedi ei gydnabod yn ffurfiol ym mholisi'r ysgol, yr oedd CIY yn cael ei weithredu yn ymarferol mewn llawer ffordd gan gynnwys: i) yr oedd gan athro ac aelod o dîm rheoli'r ysgol gyfrifoldeb am CIY; a ii) yr oedd anghenion a chynlluniau cymorth CIY disgyblion wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ysgol Gyfan, gyda chynnydd yr holl ddisgyblion CIY yn cael ei fonitro'n glir.

6.11 Mae angen sicrhau bod pob ysgol a Chanolfan Hwyrddyfodiaid yn gyfarwydd â chysyniad CIY a bod cysyniadau CIY a SIY yn cael eu gwreiddio yn arferion ysgolion a Chanolfannau rhag iddynt gael eu gwthio i'r ymylon.

*A yw ieithoedd cymunedol yn cael eu cynnwys ym mholisïau iaith ysgolion cyfrwng-Gymraeg a dwyieithog?*

6.12 Un enghraifft yn unig a gafwyd o ieithoedd cymunedol yn cael eu crybwyll ym mholisïau iaith ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog. Fodd bynnag, ni chrybwyllwyd yn ddiamwys yn y polisi hwn ddarpariaeth yr ysgol i ddisgyblion ennill cymwysterau yn iaith eu cartref.

6.13 Rhaid i ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog feddu ar bolisi iaith sydd yn cydnabod ac yn cynnwys ieithoedd cymunedol poblogaeth yr ysgol. Byddai hyn yn amlygu ac yn cryfhau ymrwymiad ysgol i gynhwysiant a gweithredu gweithdrefnau sydd yn cynnal datblygiad iaith amlieithog disgyblion sydd yn dysgu Cymraeg a/neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Dangosodd ymchwil y gall ysgolion sydd yn mabwysiadu polisiau iaith cynhwysol ac yn cefnogi caffaeliad ieithoedd cymunedol godi cyrhaeddiad dysgwyr DLIE.[118]

*A yw cymorth CIY yn cael ei bennu ar y lefel leol ond yn seiliedig ar ddogfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys fframweithiau datblygu iaith a meincnodau cynnydd?*

6.14 Mae tystiolaeth fod y cymorth a roddir i ddisgyblion CIY yn cael ei bennu ar y lefel leol. Fodd bynnag, nid oes fframwaith asesu na meincnodau cynnydd CIY a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae gan Ganolfannau Hwyrddyfodiaid eu cwrs dwys iaith eu hunain i drochi yn y Gymraeg sydd wedi ei safoni ar draws y rhan fwyaf o Ganolfannau. Mae asesiadau Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn cael eu croes-gyfeirio at ddeilliannau/lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r FfLlRh.

6.15 Fel gyda'r FfLlRh, mae angen agwedd ar wahan at asesu CIY a SIY sydd yn ystyried nodweddion ieithyddol gwahanol caffaeliad Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol. Hefyd, mae angen cydnabod o fewn y cyfryw fframwaith y bydd y cynnydd safonol yng nghaffael y Gymraeg yn gwahaniaethu o un y Saesneg ac yn amrywio, yn dibynnu ar gyfle'r dysgwr am gymdeithasoli iaith yn y gymuned leol.

6.16 Mae angen felly am fframwaith asesu cenedlaethol CIY a SIY mwy manwl a soffistigedig gyda meincnodau cynnydd sydd wedi eu hasio â'r FfLlRh. Rhaid i'r fframwaith asesu CIY/SIY hwn wneud lle i amrywiaeth y disgyblion iaith ychwanegol a bod yn briodol i oedrannau'r gwahanol gyfnodau o ddod i mewn i addysg cyfrwng-Cymraeg, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4.

[118] Smythe a Toohey (2009) 'Bringing Home and Community to School: Institutional Constraints and pedagogic Possibilities' yn Miller et al (gol.) Culturally and Linguistically Diverse Classrooms: New Dilemmas for Teachers, Multilingual Matters, Bryste.

*A oes partneriaethau cydweithredol rhwng athrawon cyrhaeddiad arbenigol, athrawon cymorth iaith, athrawon dosbarth prif-ffrwd, athrawon pwnc, athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac ysgolion ieithoedd cymunedol/ysgolion ategol o ran CIY?*

6.17 Mae tystiolaeth o rai partneriaethau cydweithredol megis y gefnogaeth o ran cymorth a hyfforddiant CIY a roddir i athrawon ysgol gan athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid a pheth cydweithredu rhwng athrawon cymorth iaith EMAS ac athrawon dosbarth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dangosodd cyfweliadau astudiaethau achos fod cydweithredu o'r fath yng nghyswllt CIY naill ai yn gyfyngedig neu weithiau heb fodoli o gwbl.

6.18 Mewn cyfweliad, adroddodd EALAW y bydd angen cydweithio mwy effeithiol rhwng darpariaeth addysg EMAS a chyfrwng-Cymraeg i gefnogi disgyblion iaith ychwanegol mewn cyd-destunau cyfrwng-Cymraeg sydd angen dysgu Saesneg a Chymraeg.

6.19 Mae angen fforwm i fod yn llwyfan i ymarferwyr rannu arfer da o ran cymorth CIY, yn enwedig i gefnogi disgyblion iaith ychwanegol i gaffael Saesneg a Chymraeg. Dylai hyn annog mwy o ymwneud a deialog rhwng yr ymarferwyr SIY ac athrawon a rheolwyr yn y sector addysg cyfrwng-Cymraeg. Hefyd, mae angen cael partneriaethau mwy effeithiol rhwng EMAS a'r sector cyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt elwa o arbenigedd ei gilydd a chydweithio i gynorthwyo disgyblion SIY a CIY.

*A oes gan ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid strategaethau cyfathrebu a phartneriaethau effeithiol gyda rhieni/gofalwyr a chymunedau DLlE?*

6.20 Yr oedd peth tystiolaeth o ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn datblygu strategaethau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, nid pob ysgol na Chanolfan oedd yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu i ieithoedd cymunedol nac yn gallu eu cyrchu.

6.21 Dywedodd dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi sefydlu cysylltiadau /partneriaethau gyda mudiadau cymunedol lleol gan gynnwys ysgolion ieithoedd cymunedol. Nid oedd tystiolaeth o ddatblygu partneriaethau effeithiol rhwng

ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog, Canolfannau Hwyrddyfodiaid a grwpiau cymunedol i gefnogi anghenion disgyblion CIY a SIY. Soniodd y disgyblion a gyfwelwyd yn ystod yr astudiaeth hon am ddibynnu ar aelodau eu teuluoedd estynedig a rhwydweithiau cymunedol am gymorth. Nid oedd yn ymddangos bod ysgolion yn gwneud llawer o ran ymwneud â rhwydweithiau cymunedol i roi cymorth iaith ac addysgol ychwanegol.

6.22 Mae angen rhannu enghreifftiau o arfer da mewn strategaethau cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion/Canolfannau Hwyrddyfodiaid a rhieni/gofalwyr. Mae angen hefyd i ALl sicrhau bod ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu ac yn gallu eu cyrchu trwy eu EMAS. Byddai modd defnyddio cyllid MEAG i'r pwrpas hwn.

6.23 Mae angen codi ymwybyddiaeth ar lefel ALl ac ysgolion o fanteision mewn addysgeg datblygu ieithoedd cymunedol y disgyblion. Gan ddilyn ymlaen o hyn, mae angen mwy o gydweithredu lle bo modd rhwng darpariaeth gymunedol a statudol ar lefel leol i roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion DLlE gynnal ieithoedd eu cartref.

**Ymwybyddiaeth, arbenigedd a hyfforddi athrawon**

*A yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannau ac amlieithrwydd?*

6.24 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yr ymwelwyd â hwy, yr oedd tystiolaeth fod athrawon yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannaeth ac amlieithrwydd. Fodd bynnag, yr oedd y graddau yr oedd pwyslais ar ddathlu amrywiaeth yn ganolog i ethos ac addysgeg ysgol yn amrywio'n fawr.

6. 25 Rhaid i arfer da o ran dathlu amrywiaeth, amlddiwylliannaeth ac amlieithrwydd fod yn gyson a pharhaus. Lle nad ydynt eisoes yn gwneud hynny, mae angen i dimau EAMS weithio'n agosach gydag ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid i rannu ymwybyddiaeth o weithgareddau, arferion gorau ac adnoddau i ddathlu amrywiaeth.

*A oes agwedd genedlaethol gyson ar gyfer hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth o ran CIY? A yw athrawon sy'n dysgu disgyblion CIY, wedi derbyn hyfforddiant arbenigol (naill ai cyn dod i'w swydd neu mewn swydd),gyda rhai wedi cwblhau graddau uwch mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith?*

6.26 Nid oes agwedd genedlaethol gyson ar gyfer hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth o ran CIY . Mae nifer cyfyngedig o athrawon ysgol a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Ar y cyfan, mae'r arbenigedd a ddatblygwyd ganddynt wedi ei ennill trwy eu gwaith mewn ysgolion.

6.27 Mae angen agwedd genedlaethol gyson tuag at hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth o ran CIY. Hefyd, mae angen i fwy o hyfforddiant arbenigol a chymwysterau fod ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu athrawon a gweithwyr cefnogi.

6.28 Mae angen ystyried datblygu rôl rhai o staff EMAS a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid trwy ymestyn darpariaeth hyfforddiant DPP am CIY/SIY i'r sawl sy'n cefnogi disgyblion DLlE yn y sector cyfrwng-Cymraeg. Mae hyfforddiant a DPP yn dod dan gategorïau o wariant cymwys dan y MEAG a ddyrennir i bob ALl yng Nghymru.

**Adnabod a chofnodi anghenion disgyblion**

*A yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn casglu manylion am gefndir addysg blaenorol dysgwr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi agwedd wedi ei phersonolid at ddysgu?*

6.29 Fel rheol, gwybodaeth gyfyngedig sydd gan ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid o gefndir addysg blaenorol dysgwyr, ac nid ydynt felly yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i nodi agwedd wedi ei phersonoleiddio at ddysgu.

6.30 Rhaid cael disgwyliad y bydd pob ysgol a/neu Ganolfan Hwyrddyfodiaid yn cael gwybodaeth fanwl am gefndir addysg blaenorol a phroffil iaith cartref dysgwr.

Ychydig o ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid a adroddodd eu bod yn cael cymorth EMAS i gynnal cyfweliadau iaith a chefndir addysg gyda rhieni/gofalwyr pan na roddir y wybodaeth honno gan ysgol flaenorol plentyn. Byddai gwybodaeth gychwynnol athrawon am gefndir eu disgyblion newydd yn well petai ysgolion yn cydweithredu fel mater o drefn gydag EMAS yn hyn o beth. Yn ôl data astudiaethau achos, nid pob ysgol sy'n cael cymorth EMAS i gynnal asesiadau cychwynnol yn iaith/ieithoedd cartref dysgwr. Mae angen agwedd fwy cyson fel sail well o wybodaeth i athrawon am anghenion addysgol pob disgybl. Rhaid cael mwy o gydweithredu rhwng timau EMAS ac ysgolion (mewn ALl a rhyngddynt) i hwyluso casglu'r wybodaeth hon a defnyddio cyfleusterau cyfieithu lle bo angen.

*A yw'r holl ddisgyblion CIY yn cael eu hasesu a'u cynnydd yn cael ei fonitro gan ddefnyddio fframwaith asesu CIY priodol gyda disgrifyddion cam wedi eu cysylltu â 'r cwricwlwm cenedlaethol?*

6.31 Mae'r holl ddisgyblion CIY mewn ysgolion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio asesiadau statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ambell waith ochr yn ochr â fframwaith asesu SIY, sy'n cael ei ddefnyddio i briodoli lefelau caffaeliad CIY. Nid yw'r fframweithiau asesu sydd ar gael ar hyn o bryd yn hollol briodol ar gyfer CIY.

6.32 Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn defnyddio eu cynllun asesu eu hunain seiliedig ar eu cwrs trochi dwys yn y Gymraeg. Mae asesiadau Canolfannau Hwyrddyfodiaid wedi eu cysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Lle bo ysgolion yn tynnu ar ddarpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid i roi mwy o gymorth gyda'r Gymraeg, mae gan y canolfannau rôl hanfodol wrth asesu ac adnabod anghenion disgyblion CIY am gymorth iaith?

6.33 Fel y dywedwyd uchod, mae angen fframwaith asesu safonol, penodol i CIY tebyg i'r erfyn asesu SIY y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r FfLlRh.

*A oes systemau ar gyfer olrhain cyrhaeddiad/llwyddiant disgyblion DllE mewn Cymraeg, Saesneg ac ar draws y cwricwlwm wedi eu datblygu ac yn cael eu gweithredu?*

6.34 Mae pob ysgol yn olrhain cyrhaeddiad pob disgybl mewn Cymraeg, Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Mae ysgolion yn olrhain cynnydd yn unigol. Lle mae cydweithredu yn bodoli rhwng EMAS ac ysgolion cyfrwng-Cymraeg i gasglu ac olrhain data am ddisgyblion CIY, mae rhai systemau ar gael i fonitro cynnydd disgyblion CIY ar lefel wedi ei chydgrynhoi o fewn yr ALl a chonsortia ALl.

6. 35 Mae angen casglu lefelau asesu SIY a CIY o fewn CYBLD er mwyn hwyluso proses monitro'r grŵp hwn o ddisgyblion ac i sicrhau cysondeb o ran casglu a dadansoddi data.

*A yw caffaeliad iaith Gymraeg disgyblion DIIE yn cael ei fonitro'n gadarn, a hynny yn bwydo i mewn i osod targedau unigol er mwyn gofalu fod pob plentyn yn cael y cymorth iawn?*

6.36 Fel y crybwyllwyd uchod, mae ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid ar hyn o bryd yn cynnal asesiadau gyda disgyblion CIY er nad yw'r arfau asesu yn hollol briodol i ddisgyblion gydag anghenion cymorth CIY. Mae deilliannau asesiadau yn sail o wybodaeth i gynlluniau addysg unigol a gosod targedau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth.

6.37 Dengys tystiolaeth yn yr astudiaeth hon fod angen am fodel cenedlaethol manwl a soffistigedig o ddatblygiad iaith ychwanegol ar gyfer CIY/SIY, y dylai pob ysgol ac ALl ei defnyddio fel dull cyson o asesu ac olrhain datblygiad disgyblion mewn CIY/SIY, yn ogystal â theilwrio cymorth digonol yn ôl deilliannau'r asesiadau.

*A oes adnoddau o safon dda ar gael i asesu a dysgu CIY?*

6.38 Mae rhai o adnoddau o safon dda ar gyfer asesu a dysgu CIY, er nad yw'n ymddangos bod yr holl athrawon yn ymwybodol ohonynt. Mae angen peri bod yr amrywiaeth o ddeunyddiau sydd yn bodoli ar gael i athrawon a gweithwyr proffesiynol. Gellid darparu hyn ar ffurf llyfrgell ar lefel genedlaethol neu gonsortiwm ALl o adnoddau gyda chyngor ac argymhellion i athrawon am yr adnoddau sy'n addas i bob cam o gymorth CIY a SIY.

6.39 Mynegodd yr athrawon a gyfwelwyd hefyd angen am ddeunyddiau priodol i oedran y disgyblion CIY hŷn sy'n 'hwyrddyfodiaid', a mwy o adnoddau dwyieithog mewn Cymraeg ac ieithoedd cymunedol. Byddai angen mwy o ymchwil i adolygu ystod yr arfau o safon dda a phriodol i oedran ar gyfer caffaeliad a chymorth ychwanegol gyda CIY. Mae angen adnabod a rhannu deunyddiau a ddatblygwyd gan rai athrawon yn ehangach.

**Cefnogi a monitro datblygiad disgyblion**

*A yw disgyblion CIY newydd a'u rhieni yn cael eu cefnogi'n dda mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid?*

6.40 Mae rhai enghreifftiau lle cafodd disgyblion CIY newydd a'u rhieni eu cefnogi'n dda mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r Canolfannau yr ymwelwyd â hwy, nid oedd y staff yn gyfarwydd ag adnoddau megis gwasanaethau cyfieithu neu arfau cyfieithu arlein i hwyluso cyfathrebu gyda rhieni. Ychydig o ysgolion oedd wedi mabwysiadu strategaethau penodol megis defnyddio 'cyfaill' hyfforddedig i helpu i gefnogi a chymhathu disgyblion CIY newydd.

6.41 Mae angen rhannu arferion da yn y maes hwn. Byddai ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid ar eu hennill o gyngor timau EMAS o ran yr arfer gorau a mynediad at wasanaethau ac adnoddau cyfieithu.

*A yw ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn sylweddoli beth yw anghenion penodol disgyblion sy'n dysgu CIY a SIY ac yn mabwysiadu agwedd cynhwysol sydd yn cynorthwyo disgyblion yn y dosbarth ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith sy'n berthnasol i gyd-destun addysgol y disgyblion?*

6.42 Mae ysgolion sydd â phrofiad o ddisgyblion CIY a SIY fel arfer yn sylweddoli beth yw eu hanghenion penodol ac y maent yn gynhwysol yn eu hagwedd tuag at ddarparu cymorth i ddisgyblion. Mae canolbwynt ar ddatblygu sgiliau iaith sy'n

berthnasol i gyd-destun addysgol y disgyblion, boed y cymorth yn cael ei roi yn yr ysgol neu, i ddechrau, mewn Canolfan Hwyrddyfodiaid.

6.43 Fodd bynnag, mae angen gofalu bod yr athrawon oll yn ymwybodol o anghenion penodol disgyblion CIY a SIY ac y sefydlir agwedd gyffredin, gynhwysol at addysgeg CIY/SIY mewn addysg cyfrwng-Cymraeg.

*A yw disgyblion CIY yn caffael sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm prif-ffrwd ac a fedrant integreiddio i ddosbarthiadau addas i'w hoedran a lefel eu gallu?*

6.44 Ran amlaf, mae disgyblion CIY yn caffael sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm prif-ffrwd. Yn CA2, mae 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion CIY mewn ysgolion mewn naw ALl yn mynychu Canolfannau Hwyrddyfodiaid; felly hefyd ddisgyblion CA3 yn un ALl. Cynlluniwyd cwricwlwm y Canolfannau Hwyrddyfodiaid i roi i'r disgyblion lefel o sgiliau yn yr iaith Gymraeg fydd yn eu helpu i integreiddio i ddosbarthiadau addas i'w hoedran a lefel eu gallu. Dywedodd athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac athrawon ysgol fod mwyafrif y disgyblion CIY sydd yn mynychu Canolfan hefyd angen cymorth i barhau yn yr ysgol wedi cwblhau cwrs y Ganolfan Hwyrddyfodiaid.

6.45 Mynegodd athrawon ysgol a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid bryder nad oedd ganddynt o raid yr arbenigedd na'r adnoddau i ddarparu'r cymorth parhaus a chyson oedd ei angen gan bob 'hwyrddyfodiad' o ddisgybl CIY. Mae angen datblygu arbenigedd athrawon ysgol a gweithwyr cefnogi o ran darparu cymorth CIY ychwanegol. Mae peth o'r hyfforddiant a roddir i athrawon uwchradd yn yr ysgol gan un o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn gam effeithiol yn y cyfeiriad hwn. Gwelodd yr astudiaeth hon y mathau o ddarpariaeth cymorth CIY sydd ar gael yn gyffredinol. Mae angen hefyd i bob ALl ac ysgol gyda disgyblion CIY adolygu pa fath o gymorth CIY effeithiol sydd ar gael a sut y dylid ymdrin ag unrhyw fylchau yn y cymorth a ddarperir ar hyn o bryd.

*A oes cefnogaeth gyson a throsiannol i ddisgyblion CIY rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd?*

6.46 Canfu'r astudiaeth beth tystiolaeth o gymorth CIY oedd yn parhau yn ystod y cyfnod trosi o addysg gynradd i uwchradd. Dywedodd un ysgol uwchradd fu'n destun astudiaeth achos fod gwybodaeth am angen 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion ysgolion cynradd am gymorth ychwanegol gyda'r Gymraeg wedi ei ddwyn i'w sylw yn ystod y broses drosiannol. Yr oedd hyn wedi galluogi'r ysgol uwchradd i ddarparu cymorth ychwanegol trwy, er enghraifft, gofrestru'r disgybl ar gyfer cymorth Canolfan Hwyrddyfodiaid cyn i'r disgybl ddod i'r ysgol. Dywedodd ysgol arall y byddai gofalu bod cefnogaeth drosiannol gyson ar gael yn dod yn fwy o flaenoriaeth iddynt yn y dyfodol agos oherwydd nifer cynyddol y disgyblion CIY yn CA2.

6.47 O ystyried cwmpas y prosiect hwn, cyfyngedig oedd swm y dystiolaeth a gasglwyd ynghylch y cymorth iaith ychwanegol a ddarparwyd wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Felly, byddai'n llesol adolygu'r prosesau a'r darpariaethau sydd ar gael ar lefel ysgol ac ALl i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth CIY mae arnynt ei angen yng ngwahanol gyfnodau eu haddysg. Dylid cynnal ymchwil pellach i ddod i ddeall yn well am y cymorth trosiannol iaith-benodol rhwng ysgolion uwchradd a'r sector AB gan nad ymchwiliwyd i hyn o fewn cwmpas y prosiect hwn.

*A yw gweithwyr cefnogi / cynorthwywyr dysgu Cymraeg yn tueddu i gydweithio gydag athrawon dosbarth er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cwrdd ag anghenion CIY a SIY disgyblion DLIE?*

6.48 Yr oedd peth tystiolaeth o weithwyr cefnogi iaith a chyn-orthwyr dysgu yn cydweithredu gydag athrawon dosbarth i gynorthwyo disgyblion CIY. Yr oedd athrawon dosbarth ac ysgolion yn gyffredinol yn dibynnu'r drwm ar CddD i roi llawer o'r ymwneud uniongyrchol a'r gwaith cefnogi gyda disgyblion. Mewn rhai achosion, dywedwyd fod gweithwyr cymorth iaith EMAS wedi chwarae rhan allweddol mewn helpu disgybl newydd i ymgartrefu yn yr ysgol. Fodd bynnag, soniwyd hefyd nad oedd gweithwyr cefnogi oedd yn siarad iaith cartref y disgybl fel rheol yn gallu darparu cymorth oedd yn canolbwyntio ar y cwricwlwm oherwydd eu diffyg arbenigedd yn y Gymraeg

6.49 Ar lefel ysgol uwchradd, mae athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn cydweithredu gydag athrawon i ddatblygu deunyddiau a strategaethau dysgu sydd yn cwrdd ag anghenion CIY disgyblion wedi iddynt ail-gymhathu yn yr ysgol. Fodd bynnag, dylid nodi mai tystiolaeth o un astudiaeth achos yw hwn.

6.50 Mae angen datblygu mwy o arbenigedd mewn Cymraeg ac ieithoedd cymunedol mewn timau EMAS ac angen canfod ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu cymorth gan siaradwyr ieithoedd cymunedol mewn cyd-destunau addysg cyfrwng-Cymraeg.

*A oes cydweithredu rhwng arbenigwyr SIY/CIY ac athrawon dosbarth prif-ffrwd i gynllunio gwersi a strategaethau addysgeg ar y cyd er lles y dosbarth cyfan?*

6.51 Yr oedd tystiolaeth mewn rhai ysgolion lle cafwyd astudiaeth achos o gydweithredu rhwng arbenigwyr SIY/CIY ac athrawon prif-ffrwd. Er enghraifft, yr oedd esiamplau o gyd-gynllunio gweithgareddau dosbarth a pharatoi adnoddau iaith ar y cyd. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, nid oedd tystiolaeth o gwbl o'r cyfryw gydweithredu. Yr oedd tuedd i athrawon nad oeddent yn cydweithredu fel hyn i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion unigol yn lle canolbwyntio ar y manteision posib i'r holl ddisgyblion o strategaethau sydd yn sgaffaldu dysgu yn fwy effeithiol. Mae hyn yn agwedd lle mae angen i rannu arferion da gael ei hwyluso gan dimau EMAS ar raddfa ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision agweddau o weithio ar y cyd a gwahanol ddulliau dysgu.

*A yw ysgolion yn gweithredu fel canolfannau arholiad i ieithoedd cymunedol i alluogi disgyblion DlIE i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu cartref?*

6.52 Yn gyffredinol, canfu'r astudiaeth nad yw ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu fel canolfannau arholiad i ieithoedd cymunedol. Ychydig iawn o ddisgyblion CIY oedd yn cael cymorth i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu cartref. Yn gyffredinol, yr oedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o fantais dysgu a chynnal ieithoedd cyntaf/yr aelwyd.

6.53 Mae angen annog ysgolion i fod yn fwy rhagweithiol o ran annog a hwyluso disgyblion DLIE i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu cartref. Mae angen hefyd i

annog ysgolion a grwpiau cymunedol i gydweithredu er mwyn hwyluso’r ddarpariaeth ieithoedd cymunedol, nid yn unig i ddisgyblion ysgol ond hefyd i aelodau eraill grwpiau ieithoedd cymunedol.

# 7 Casgliadau ac argymhellion

7. 1 Yn y bennod hon, yr ydym yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol a'n casgliadau ynghylch nod y prosiect hwn, sef:

- canfod cyfanswm nifer y disgyblion o gefndiroedd DLIE sydd angen cefnogaeth CIY;
- dod i ddeall y prosesau a'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael i gefnogi disgyblion CIY i gaffael y Gymraeg a chyrchu'r cwricwlwm;
- nodi arfer effeithiol a bylchau yn y gwasanaethau presennol a ddarperir i ddisgyblion DLIE sydd angen cymorth gyda CIY.

7.2 Ar sail ein trafodaethau am y bylchau yn y ddarpariaeth a'r arfer presennol ynghylch cymorth i ddisgyblion CIY mewn lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg ym Mhennod 6, yr ydym yn cyflwyno cyfres o argymhellion i LlC, ALl, EMAS a phob darparwr addysg cyfrwng-Cymraeg.

**Diffyg ymwybyddiaeth, eglurder a chysondeb ynghylch 'CIY'**

7.3 Mewn ALl ledled Cymru, yr oedd lefelau ymwybyddiaeth a phrofiad o gefnogi disgyblion CIY yn amrywio'n fawr ymysg yr arweinwyr EMAS a gyfwelwyd ac yn y lleoliadau addysg cyfrwng-Cymraeg yr ymwelwyd â hwy. Athrawon disgyblion CIY oedd yn dod i mewn i addysg cyfrwng-Cymraeg ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen oedd leiaf ymwybodol o'r gwahaniaethau posib yn anghenion cymorth disgyblion CIY a Saesneg eu hiaith. Yr oedd ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid gyda phrofiad o ddisgyblion CIY yn cyrraedd tua diwedd y Cyfnod Sylfaen a thu hwnt yn glir fod gan ddisgyblion CIY anghenion penodol am gymorth iaith ychwanegol o gymharu â rhai disgyblion o 'hwyrddyfodiaid' Saesneg eu hiaith, ac yr oeddent yn croesawu cydnabod materion CIY trwy'r astudiaeth hon.

7.4 Gwelodd yr astudiaeth hon ddiffyg eglurder a chysondeb ynghylch statws a'r defnydd o CIY ar hyd a lled polisi'r llywodraeth. Nid yw'n syndod fod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn diffyg ymwybyddiaeth ac arfer safonol wedyn ar lefelau ALl ac ysgolion. Tynnodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith nad oes diffiniad ar

hyn o bryd o ‘ddisgybl CIY’ nac ‘anghenion CIY’ penodol. Yn gyffredinol, yn y sector cyfrwng-Cymraeg, nid oedd cydnabyddiaeth eang na gwreiddio cysyniad CIY a SIY yn uwch-dîm rheoli’r ysgol rhag iddo gael ei wthio i’r ymylon.

*Argymhelliad 1*

- Er mwyn sefydlu eglurder a chysondeb yn y modd mae ysgolion yn asesu ac yn cefnogi disgyblion CIY, dylai LlC ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o CIY ac anghenion cymorth disgyblion DLlE sydd yn newydd i Gymraeg a Saesneg pan fyddant yn cyrraedd ar unrhyw bwynt yn yr ysgol. Gellid cynnal cynhadledd, seminarau rhanbarthol neu ddigwyddiadau tebyg i ddwyn ynghyd ymarferwyr ym meysydd proffesiynol addysg cyfrwng-Cymraeg ac EMAS i godi ymwybyddiaeth, trafod y materion, adnabod anghenion a datblygu ymdeimlad o berchenogaeth dros gysyniadau CIY a SIY.

*Argymhelliad 2*

- Dylai LlC sicrhau bod pawb yn deall ystyr y ddau derm, CIY a SIY, a bod cysondeb yn y defnydd a wneir o’r naill derm a’r llall trwy holl bolisïau a chanllawiau perthnasol LlC, gan gynnwys telerau ac amodau’r grant MEAG, er mwyn gofalu bod pawb yn deall yn glir pwy sy’n gymwys am gymorth a chyllid. Dylai hyn hefyd gynnwys darparu canllawiau a chefnogaeth i ALl ac ysgolion i gynhyrchu a gweithredu Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn ateb yn llawn anghenion disgyblion CIY/SIY.

*Argymhelliad 3*

- Dylai LlC gysylltu ag Estyn i ystyried adolygu eu *Strategaeth a Chanllawiau ar gyfer Arolygu Llythrennedd i Ddysgwyr 3 i 18 oed* (*2011)* a’r *Canllaw* Ategol*: Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (2013)* i gyfeirio at CIY a SIY.

**Angen am fframwaith asesu CIY/SIY**

7.5 Nid oes fframwaith asesu safonol, penodol i CIY a ddefnyddir ar hyd pob ALl, yn groes i'r hyn sy'n digwydd gyda SIY. Mae diffyg fframwaith asesu cenedlaethol cydnabyddedig yn rhwystr i ffordd gyson o fesur a chofnodi camau caffaeliad CIY disgyblion, cyfrif y boblogaeth disgyblion CIY i gefnogi ceisiadau am gyllid MEAG, a monitro cynnydd disgyblion dros amser (wedi ei gydgrynhoi ac yn unigol).

7.6 Y consensws o gyfweliadau gydag EMAS, EALAW ac athrawon oedd bod i'r Model Pum Cam SIY y swyddogaethau buddiol a ganlyn: i) rhoi pwysiad a dyrannu cyllid MEAG ymysg ALl; ii) gwneud penderfyniadau dros dro ynghylch dyraniadau cymorth ; a iii) bod yn sail o wybodaeth i athrawon am lefelau hyfedredd cyffredinol disgyblion SIY/CIY.

7.7 Felly yr oedd y model yn cael ei ystyried yn gyffredinol gan arweinwyr EMAS ac EALAW fel un oedd yn rhoi rhyw ddull (cyfyngedig, rhaid cyfaddef) o asesu hyfedredd cyffredinol dysgwr mewn CIY. Fodd bynnag, pwysleisiodd arweinwyr EMAS ac EALAW mai model 'bras, ffit-gorau' yw'r Model Pum Cam SIY nad yw'n ddigonol ar gyfer asesu cynnydd datblygol yn fanwl a thros amser mewn na Chymraeg na Saesneg.

7.8 Cynigiodd EALAW ac EMAS fodel cenedlaethol manylach a mwy soffistigedig o ddatblygiad iaith ychwanegol ar gyfer SIY/CIY fel y gallai ysgolion ac ALl ei ddefnyddio fel dull cyson o olrhain datblygiad disgyblion SIY/CIY. Cynigiasant hefyd y gallai model o'r fath o bosib gael ei asio â'r model pum cam presennol, a'i ategu, oherwydd bod y camau cynnydd yn y model pum cam yn fras yn briodol.

*Argymhelliad 4*

- Dylai LlC adolygu'r defnydd presennol o'r Model Pum Cam SIY yn ogystal â fersiynau wedi eu haddasu yn lleol, ac ymgynghori gydag EMAS ac ymarferwyr i ystyried datblygu model cenedlaethol mwy manwl i ysgolion ac ALl eu defnyddio fel dull cyson o asesu lefelau cyrhaeddiad ac olrhain cynnydd caffaeliad CIY/SIY trwy amser. Gallai'r model hwn o bosib gael ei asio i'r Model Pum Cam SIY a'i ategu. Dylai fframwaith asesu o'r fath fod â'r un strwythur cynnydd cyffredinol i

Saesneg a Chymraeg, ond gydag amrywiadau priodol mewn datganiadau cynnwys ar gyfer pob iaith yn seiliedig ar wahaniaethau mewn patrymau caffaeliad wedi eu hymchwilio a'u harsylwi yn dda. Dylai fframwaith o'r fath gael ei defnyddio ochr yn ochr â'r FfLlRh gan bob darparwr (EMAS, ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid) er mwyn cael agwedd gynhwysol a chyson at asesu CIY/SIY. Er mwyn caniatáu cymhariaeth gyson ledled Cymru, dylai LlC ystyried casglu data cynnydd CIY trwy CYBLD fel sy'n cael ei wneud eisoes ar gyfer SIY.

**Maint y boblogaeth CIY yn y sector addysg cyfrwng-Cymraeg**

7.9 Bu diffyg argaeledd data CIY o ansawdd dda, sydd yn bennaf i'w briodoli i ddiffyg fframwaith asesu penodol i CIY, yn gryn rwystr i'r prosiect hwn. Felly, ni all yr astudiaeth hon roi data manwl gywir dros Gymru gyfan am nifer presennol y disgyblion CIY sydd mewn addysg cyfrwng-Cymraeg. Nid yw'n bosib chwaith mesur eu hanghenion am gymorth iaith a chefnogaeth addysgol.

7.10 Awgryma data dangosol fod gan ryw 48 o gyn-ysgolion; 150 o ysgolion cynradd a 29 o ysgolion uwchradd ar draws 15 o'r 22 ALl ddisgyblion CIY. Dengys data o astudiaethau achos a chyfweliadau fod disgyblion CIY nad ydynt yn siarad Saesneg yn ymuno ag addysg cyfrwng-Cymraeg ar wahanol gyfnodau gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag ar gamau diweddarach yn ystod CA2, CA3 a CA4.

7.11 Yn ôl y data a ddarparwyd gan ALl, mae rhwng 98 a 295 o ddisgyblion CIY mewn cyn-ysgolion mewn lleoliadau statudol; rhwng 460 a 1240 mewn ysgolion cynradd, a rhwng 228 a 430 mewn ysgolion uwchradd.

7.12 Mae 22 o Ganolfannau Hwyrddyfodiaid mewn naw ALl. Yr oedd pedwar-deg-un o 'hwyrddyfodiaid' o ddisgyblion CIY cynradd (CA2) a chwech o ddisgyblion uwchradd (CA3) wedi derbyn cymorth iaith mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn ystod 2013.

7.13 Ar waetha'r cyfyngiadau ar y data ansoddol oedd ar gael i'r astudiaeth hon, gellid dweud mai lleiafrif bychan yw disgyblion CIY o ran cyfanswm y boblogaeth ysgol yng Nghymru yn 2013.[119] Mae astudiaethau achos a chyfweliadau wedi dangos fod

[119] Yr oedd 464,868 o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru yn 2013 (CYBLD 2013).

asesu a chynnal hyd yn oed nifer fechan o ddisgyblion CIY yn her ychwanegol yn y sector addysg cyfrwng-Cymraeg.

7.14 Dengys data meintiol, astudiaethau achos a chyfweliadau, ar wahan i nifer fechan o ysgolion sydd â grwpiau mwy o ddisgyblion CIY, mai 'disgyblion ynysig ' yw'r rhan fwyaf, mewn ysgolion gydag un i bump o ddisgyblion CIY. Mae disgyblion ynysig yn her arbennig i ysgolion o ran sicrhau y cefnogir eu hanghenion unigol cystal â rhai disgyblion mewn ysgolion gyda charfannau mwy o ddisgyblion o gefndiroedd ieithyddol tebyg. Dengys tystioaleth o gyfweliadau gydag arweinwyr EMAS nad yw gwasanaethau EMAS yn wastad ar gael i gefnogi'r holl ddisgyblion ynysig oherwydd gwasgariad daearyddol y disgyblion hyn a'r cyfyngiadau ar amser ac adnoddau dynol sydd ar gael yn y tîm.

*Argymhelliad 5*

- Dylai ALl ac ysgolion adolygu'r galw yn eu hardal am gymorth i ddisgyblion CIY ynysig ac ystyried ffurfiau posib o weithio ar y cyd, rhannu arferion da, hyfforddi athrawon, rheoli adnoddau, defnyddio Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar wasgar, a dulliau newydd ac arloesol eraill o ddarparu cymorth.

**Cydnabod anghenion disgyblion CIY am gymorth ychwanegol**

7. 15 Dangosodd data o astudiaethau achos a chyfweliadau fod gan ddisgyblion CIY fel arfer anghenion cymorth iaith ychwanegol, o'u cymharu â dysgwyr Cymraeg sy'n siarad Saesneg. Yn wahanol i ddisgyblion Saesneg eu hiaith, yr oedd disgyblion CIY yn wynebu'r her o ddeall trefniadau ac arferion eu hamgylchedd dysgu newydd, a chyfathrebu gyda chyfoedion a staff. Roedd hyn yn waeth pan nad oedd gan athrawon na'r disgyblion eraill wybodaeth o iaith gyntaf/aelwyd y disgybl, a lle nad oedd dim neu fawr ddim cyfleusterau na chymorth cyfieithu. I rai disgyblion CIY, yr oedd cael eu dysgu'n ffurfiol mewn ysgol yn brofiad newydd. Yr oedd bod yn newydd i lythrennedd yn eu hiaith eu hunain yn ogystal ac mewn Saesneg a Chymraeg hefyd yn ffactor cyffredin. Mewn achosion eraill, yr oedd disgyblion CIY oedd yn gyfarwydd ag arferion llythrennedd yn eu hiaith/hieithoedd eu hunain yn newydd i gonfensiynau ysgrifennu'r wyddor newydd. Fel 'hwyrddyfodiaid' tua

diwedd y Cyfnod Sylfaen neu tu hwnt, mae disgyblion CIY/SIY yn wynebu mwy o her na 'hwyrddyfodiaid' Saesneg eu hiaith pan fo angen iddynt gaffael y ddwy iaith ar yr un pryd.

*Argymhelliad 6*

- Dylai LlC ystyried cynnal ymchwil pellach, mwy manwl gyda disgyblion CIY mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg i ddeall mewn mwy o ddyfnder y mathau o gymorth ychwanegol mae arnynt eu hangen a sut y mae'r rhain yn wahanol o anghenion cymorth iaith dysgwyr Cymraeg sy'n siarad Saesneg. Ymysg meysydd i ymdrin â hwy mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau yng nghaffaeliad iaith a llythrennedd Cymraeg mewn disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg a'r rhai sydd - fel egin siaradwyr ifanc dwy/amlieithog yn ystod y Cyfnod Sylfaen a disgyblion 'hwyr yn cyrraedd' tua diwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau dilynol eu haddysg.

7.16 Nid oedd digon o ddata ar gael i roi darlun manwl gywir o nifer y disgyblion CIY nad oedd ganddynt anghenion am gymorth CIY ond a oedd yn 'tangyflawni'. Er bod gan ysgolion systemau i asesu lefelau cyrhaeddiad disgyblion CIY o ran deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nid yw data am gyrhaeddiad disgyblion yn cael ei rannu fel mater o drefn rhwng ysgolion ac EMAS. Fe wnaeth ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion adnabod rhai disgyblion CIY oedd yn 'tangyrraedd' yr ystyriwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â CIY a SIY. Mae astudiaethau achos a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu, yn niffyg asesiadau cychwynnol a gynhelir yn iaith gyntaf dysgwr, ei bod yn anodd i athrawon wybod beth yw achosion tan-gyrhaeddiad yn achos rhai disgyblion CIY.

*Argymhelliad 7*

- Dylai timau EMAS ac ysgolion fod yn gweithio'n agos i nodi anghenion cymorth ac i fonitro cynnydd. Dylai hyn olygu asesiadau cychwynnol yn iaith gyntaf y disgybl lle bo modd er mwyn deall yn well lefel eu cyrhaeddiad ac i deilwrio cefnogaeth yn well i anghenion y dysgwr.

7.17 Yn gyffredinol, canfu'r astudiaeth hon nad yw ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion sefyll arholiad TGAU yn eu hiaith/ieithoedd cyntaf/iaith y cartref. Nid yw data meintiol a gasglwyd am yr agwedd hon yn gyflawn, ac nid yw felly yn ddibynadwy. Fodd bynnag, canfu data ansoddol ac ymchwil blaenorol ar gymorth ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru [120] mai cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion yn y sector cyfrwng-Cymraeg i ddysgu ac ennill cymwysterau yn ei hieithoedd cyntaf/ieithoedd y cartref.

*Argymhelliad 8*

- Dylai LlC ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o fantais dysgu a chynnal ieithoedd cyntaf/yr aelwyd ymysg ALl a'r holl ysgolion (gan gynnwys ysgolion cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog) er mwyn annog cefnogaeth yr ysgolion i ddarpariaeth dysgu iaith y cartref.

*Argymhelliad 9*

- Dylid cynnwys ymrwymiad ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion DLlE ddysgu eu hiaith gyntaf/iaith yr aelwyd yn amgylchedd yr ysgol ym mholisi'r ysgol am Gymraeg a Saesneg fel Iaith Ychwanegol. O'r herwydd, dylai ysgolion fod yn fwy rhagweithiol o ran cydweithredu gydag aelodau o gymunedau iaith eu disgyblion a hybu ieithoedd cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd hwyluso i ddisgyblion ysgol ac aelodau'r gymuned i ennill cymwysterau yn ieithoedd eu haelwydydd. Dylai ysgolion hefyd geisio cyngor a chefnogaeth gan dimau EMAS i hwyluso dysgu'r iaith gyntaf/iaith yr aelwyd.

**Gwella'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion CIY mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg/ dwyieithog a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid**

7.18 Mae'r astudiaeth hon wedi nodi nifer o nodweddion cymorth CIY effeithiol: cymorth CIY wedi ei deilwrio'n ofalus i ddisgyblion unigol ar sail eu hanghenion a aseswyd ac agweddau cynhwysol tuag at ddarparu cymorth. Mae disgyblion CIY yn caffael

[120] CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, a CILT, the National Centre for Languages (2010) Darparu cefnogaeth i ieithoedd cymunedol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: Adroddiad ymchwil, comisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm prif-ffrwd. Yn rhai ALl, mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn rhoi cymorth cychwynnol i drochi mewn Cymraeg, sydd wedi ei gyfyngu o ran amser ac yn canoli yn benodol ar ddysgu'r eirfa a'r patrymau iaith allweddol wedi eu teilwrio i'w pynciau cwricwlwm.

7.19 Dywedodd ysgolion fu mewn astudiaeth achos ei bod yn haws rhoi cymorth i ddisgyblion CIY sy'n cyrraedd yn y Cyfnod Sylfaen, oherwydd y cymarebau staffio uwch a'r cyfleoedd i grwpiau ymyriad bychain. Yn CA2, CA3 a CA4, mae'r gefnogaeth wedi ei dargedu yn yr ysgol yn dueddol o gael ei roi gan amrywiaeth o athrawon cefnogi, gyda pheth cymorth un-i-un yn cael ei roi gan EMAS neu Athrawon Bro, fel y maent ar gael.

7.20 Dywedodd athrawon nad oedd y lefelau presennol o gymorth yn yr ysgol a thu allan (e.e. darpariaeth o EMAS, Athrawon Bro, Canolfannau Hwyrddyfodiaid) i Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn wastad yn ddigonol i ateb anghenion y disgyblion. Mewn ALl heb ddarpariaeth Canolfannau Hwyrddyfodiaid, dywedodd ysgolion eu bod yn cael anhawster mawr i roi cymorth digonol i 'hwyrddyfodiaid' a'u bod yn dibynnu ar arbenigedd staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid i asesu lefelau caffael iaith Gymraeg disgyblion ac i weld pa anghenion cyson am gymorth iaith a chefnogaeth addysgol fyddai ganddynt pan fyddent yn dychwelyd i'r ysgol.

7.21 Dywedodd athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid eu bod yn pryderu nad oedd gan athrawon ysgol mo'r arbenigedd na'r adnoddau (mewn dosbarthiadau mawr) i roi cymorth ychwanegol digonol yn yr ysgol i ddisgyblion CIY o'r fath, ond y gallai athrawon Canolfannau fod mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r cymorth hwn.

7.22 Yn gyffredinol, dengys tystiolaeth o ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid lle cafwyd astudiaethau achos fod angen am fwy o arbenigedd i gefnogi disgyblion CIY ymysg athrawon ysgol gydag adnoddau priodol i CIY i hwyluso eu dysgu.

*Argymhelliad 10*

- Dylai ALl neu gonsortia rhanbarthol adolygu eu gallu presennol i ddarparu cymorth CIY a/neu SIY effeithiol i ddisgyblion mewn darpariaeth addysg cyfrwng-Cymraeg a chymharu hyn â lefel yr angen am y cymorth hwn yn eu hardaloedd. Wedi hynny, dylid cynhyrchu cynlluniau gweithredu, gan gynnwys targedau i wella

darpariaeth, lle bo angen, ac i nodi cyfleoedd am gydweithredu rhwng ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog, timau EMAS, Canolfannau Hwyrddyfodiaid a darparwyr eraill megis Athrawon Bro er mwyn gwella galluedd.

**Cryfhau cydweithio rhwng sectorau SIY a chyfrwng-Cymraeg**

7.23 Mae disgyblion DLlE sy'n newydd i Gymraeg a Saesneg pan fyddant yn dod fel 'hwyrddyfodiaid' i leoliadau cyfrwng-Cymraeg yn aml yn gorfod dysgu Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd er mwyn cyrchu'r cwricwlwm yn llawn. Gwelodd yr astudiaeth hon rai enghreifftiau o gydweithio agos rhwng Timau EMAS, Canolfannau Hwyrddyfodiaid ac ysgolion cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog i asesu a rhoi cymorth CIY a SIY i ddisgyblion DLlE. Fodd bynnag, yn gyffredinol, prin oedd y fath gydweithio. Mae angen gweithio effeithiol ar y cyd rhwng darparwyr cymorth SIY a CIY i wella mwy ar y gefnogaeth a roddir i ddisgyblion CIY.

*Argymhelliad 11*

- Dylai EMAS a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid gychwyn trefn fwy gweithredol o gyfnewid gwybodaeth a chydweithio er mwyn hwyluso gwell gweithio ar y cyd o ran asesu a monitro caffaeliad CIY a SIY disgyblion; rhannu/darparu mynediad at adnoddau CIY trwy rai cymwysiadau (e.e. Mantra Lingua ac EMAS UK) a mynediad at gyfleusterau cyfieithu cymunedol er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda theuluoedd. Dylid hefyd rhannu arfer da o ran dulliau addysgu ar ffurf seminarau, sefydlu partneriaethau cydweithredol ac ymweliadau cyfnewid er mwyn astudio yng Nghymru ei hun a thu hwnt i wybod beth yw'r problemau o ran rhoi cymorth i ddisgyblion CIY a sut i'w goresgyn.

**Datblygu hyfforddiant athrawon ac addysgeg ystafell ddosbarth penodol i CIY**

7.24 Nid oes agwedd genedlaethol gyson at hyfforddi athrawon ac addysgeg dosbarth yng nghyswllt CIY. Dengys tystiolaeth o gyfweliadau EMAS ac astudiaethau achos fod diffyg hyfforddiant arbenigol cyn dod i swydd ac ychydig iawn o hyfforddiant arbenigol mewn swydd i staff dysgu a chynorthwywyr mewn ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid. Gwelodd yr astudiaeth hon angen i ddatblygu canolbwynt penodol ar CIY mewn hyfforddiant i athrawon ac addysgeg yn y dosbarth

er mwyn datblygu arbenigedd athrawon i gwrdd ag anghenion disgyblion CIY am gymorth.

*Argymhelliad 12*

- Dylai timau EMAS, darparwyr hyfforddiant athrawon ac ymarferwyr arbenigol gydweithio i sicrhau agweddau cenedlaethol gyson o ran hyfforddi athrawon ac addysgeg yn y dosbarth i wella sgiliau staff mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion disgyblion CIY/SIY.

*Argymhelliad 13*

- Dylai ALl ystyried datblygu rôl athrawon Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn hyfforddiant athrawon fel sy'n briodol er mwyn darparu hyfforddiant mewn swydd i athrawon cynradd ac uwchradd ar strategaethau i roi cymorth yn yr ysgol a'r dosbarth i ddisgyblion CIY.

**Datblygu ac ymestyn mynediad at adnoddau CIY amlieithog**

7.25 Canfu'r astudiaeth rai adnoddau o ansawdd da ar gyfer asesiadau a dysgu CIY, gan gynnwys adnoddau dwyieithog a ddatblygwyd gan athrawon mewn Cymraeg ac ieithoedd cymunedol. Nid pob ysgol na Chanolfan Hwyrddyfodiaid oedd yn ymwybodol o ystod eang o adnoddau dysgu CIY amlieithog, nac yn eu cyrchu. Yr oedd angen hefyd am ddeunyddiau dysgu priodol i oedran 'disgyblion hŷn o hwyrddyfodiaid'.

*Argymhelliad 14*

- Dylai ALl ac ysgolion ddatblygu deunyddiau dysgu ac adnoddau wedi eu gwahaniaethu yn benodol ar gyfer disgyblion CIY/SIY fel rhan annatod o'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol.

*Argymhelliad 15*

- Dylai LlC annog ALl i weithio gyda'i gilydd ac ystyried datblygu llyfrgelloedd adnoddau mewn ALl neu ar draws consortiwm rhanbarthol, a llwyfan e-ddysgu i'w defnyddio yn y cyd-destun cyfrwng-Cymraeg (gallai hyn adeiladu neu fanteisio ar Hwb - Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan).[121] Trwy roi mynediad i ymarferwyr a disgyblion, gellid defnyddio llwyfan o'r fath i gefnogi disgyblion ynysig, sydd fel arall yn anodd i staff EMAS neu Ganolfannau Hwyrddyfodiaid mewn rhai ALl eu cyrraedd yn rheolaidd.

**Cyllid MEAG**

7.26 Datgelodd cyfweliadau gydag ysgolion a Canolfannau Hwyrddyfodiaid fu'n destun astudiaethau achos ddiffyg ymwybyddiaeth fod cyllid MEAG hefyd ar gael i gefnogaeth CIY, yn ychwanegol at y gefnogaeth SIY i ddisgyblion DLlE, y defnyddir y cyllid ar ei gyfer eisoes. Felly nid yw'n syndod bod y astudiaeth hon hefyd wedi canfod nad yw MEAG fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cefnogaeth CIY fel y'i bwriadwyd yn ôl polisi LlC.

7.27 Os defnyddir MEAG neu ffrydiau cyllido eraill i gefnogi cyrhaeddiad pob disgybl DLlE ym mhob ysgol ledled Cymru, efallai y bydd angen adolygu gofynion y ddarpariaeth.

*Argymhelliad 16*

- Dylai LlC gydweithio gydag ALl i godi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid fod MEAG ar gael, ac o'r meini prawf cymhwyso am gyllid yng nghyswllt CIY. Dylai LlC fonitro'r ceisiadau am gyllid MEAG a'r defnydd o wneir ohono i gefnogi CIY a SIY er mwyn dod i ddeall lefelau'r cymorth grant sydd eu hangen ar y naill iaith a'r llall.

[121] Hwb – Llwyfan Dysgu Cymru Gyfan https://hwb.wales.gov.uk/home/Pages/Home.aspx

# Atodiad 1 Cyfieithiad Cymraeg o'r 'Five Stage Model of English as an Additional Language Acquisition'

| CAM 1 (Newydd i'r Saesneg) | CAM 2 (Caffaeliad Cynnar) | CAM 3 (Datblygu Gallu) | CAM 4 (Medrus) | CAM 5 (Rhugl) |
|---|---|---|---|---|
| **SIARAD A GWRANDO** | | | | |
| • Cyfnod distaw<br>• Copïo/ail-adrodd rhai geiriau a/neu ymadroddion<br>• Defnyddio geiriau unigol neu ymadroddion byw<br>• Gydag ystod syml iawn a chyfyngedig o eirfa<br>• Yn deall rhai dywediadau bob dydd a chyfarwyddiadau syml yn y Saesneg | • Defnyddio Saesneg ar lafar ar gyfer pwrpasau cymdeithasol<br>• Gydag ymwybyddiaeth gyfyngedig o gystrawen gramadeg<br>• Yr eirfa'n ehangu ond yn tueddu i fod yn berthnasol i gyd-destunau cyfarwydd<br>• Yn caffael ychydig o eirfa sy'n benodol i destun/pwnc<br>• Yn dilyn cyfathrebu cymdeithasol o ddydd i ddydd yn y Saesneg<br>• Yn deall cyfarwyddiadau syml<br>• Yn dilyn straeon/cofiannau gyda chefnogaeth weledol | • Yn defnyddio Saesneg llafar yn hyderus ond mae camgymeriadau strwythurol dal yn amlwg.<br>• Mae ganddo/ganddi ystod geirfa go helaeth gan gynnwys storfa gynyddol o eiriau sy'n benodol i bynciau.<br>• Yn rhoi ymatebion addas i ystod fwy eang o sefyllfaoedd heb fod angen cefnogaeth weledol.<br>• Yn gallu dilyn mewnbwn llafar mwy cymhleth. | • Mae'r llefaredd yn fwy cymhleth ac yn bennaf yn dangos ymwybyddiaeth a defnydd priodol o reolau gramadeg a threfn geiriau gyda llai o gamgymeriadau<br>• Gyda geirfa helaeth efo'r defnydd o eiriau haniaethol<br>• Rhai blychau geiriol dal yn amlwg<br>• Fel arfer yn ymdopi gydag ystod o fewnbwn geirfaol o amrywiaeth o ffynonellau | • Yn siarad Saesneg yn rhugl mewn ystod llawn o sefyllfaoedd. |
| **DARLLEN** | | | | |
| • Dim llythrennedd o gwbl neu gyda'r llythrennedd lleiaf posibl yn y Saesneg | • Yn ymdopi gyda geiriau/patrymau geiriau cyfarwydd ac yn gallu cael ystyron syml o destunau syml | • Yn darllen yn addas yn cael trafferth dehongli testunau cymhleth sy'n berthnasol i'r cwricwlwm | • Yn darllen ac yn deall ystod eang o destunau ond dal yn cael trafferth ag ystyron lledawgrymog | • Yn darllen Saesneg yn rhugl mewn ystod llawn o sefyllfaoedd |
| **YSGRIFENNU** | | | | |
| • Dim llythrennedd o gwbl neu gyda'r llythrennedd lleiaf posibl yn y Saesneg | • Yn gallu cynhyrchu ychydig o waith ysgrifennu'n annibynnol gyda chefnogaeth oddi wrth athrawon/cymheiriaid.<br>• Gydag ymwybyddiaeth gyfyngedig o lythrennau ac atalnodau llawn<br>• Yn dod yn ymwybodol o batrymau sillafu syml<br>• Yn defnyddio geirfa syml | • Yn gweithio tuag at ddarnau mwy datblygedig o ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau<br>• Yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ramadeg ond yn parhau i wneud camgymeriadau<br>• Yn defnyddio atalnodi syml yn gywir e.e. prif lythrennau, atalnod llawn, marc cwestiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth o ystod ehangach o atalnodi.<br>• Yn cynhyrchu sillafiad gwell ar | • Yn ysgrifennu'n gymwys ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau<br>• Dim ond ambell i wall gramadegol sydd mewn darnau ysgrifenedig<br>• Yn gyffredinol yn defnyddio ystod ehangach o atalnodi brawddegau (comâu, collnodau, dyfynodau) a dyfeisiadau trefnu yn addas<br>• Yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir<br>• Yn defnyddio ystod geirfa eang | • Yn ysgrifennu Saesneg yn rhugl mewn ystod llawn o sefyllfaoedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyfer ystod ehangach o eiriau<br>• Yn datblygu ystod ehangach o eirfa | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Angen nifer sylweddol o gefnogaeth SIY | • Angen nifer sylweddol o gefnogaeth SIY I fynd i'r afael â'r cwricwlwm. | • Angen cefnogaeth SIY barhaus i fynd i'r afael â'r cwricwlwm yn iawn | • Angen cefnogaeth SIY achlysurol i fynd i'r afael â deunyddiau a thasgau cwricwlwm cymhleth | • Yn gweithio heb gefnogaeth SIY ar draws y cwricwlwm. |

## Atodiad 2 Gorolwg o ymweliadau astudiaeth achos i ysgolion a Chanolfannau Hwyrddyfodiaid

| **Awdurdod leol** | **Math o leoliad** | **Cyfweliadau gyda:** | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Ceredigion (1)** | Ysgol Gynradd/Uwchradd cyfrwng Cymraeg | Ymgynghorydd SIY/CIY y sir,<br>Pennaeth,<br>Dirprwy Bennaeth<br>Cydlynydd C/SIY;<br><br>Dim disgyblion ar gael | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Pecyn Asesu SIY cynradd, taflen geirfa a phatrymau iaith y cwrs, asesiad diwedd cwrs; |
| **Ceredigion (2)** | Canolfan Hwyrddyfodiaid (cynradd) | Pennaeth<br><br>Dim disgyblion ar gael | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Sir Gâr** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth,<br>1 athrawes Bl 1 a 2 (Arweinydd anghenion arbennig / arweinydd Cymraeg / Aelod o'r tim rheoli),<br>1 disgybl; | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Dogfen bolisi Cymraeg a Saesneg fel Iaith Ychwanegol; |
| **Sir Benfro** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth<br>2 athrawes disgylblion CIY,<br>2 disgybl, | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Caerdydd (1)** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Dirprwy Bennaeth/Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig, Athrawes Bl 3;(1 disgybl wedi ei chyfweld yn y Ganolfan) | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Polisi Amlddiwylliannol (yn Gymraeg); |
| **Caerdydd (2)** | Canolfan Hwyrddyfodiaid (cynradd) | Pennaeth<br>1 disgybl | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Gwynedd (1)** | Ysgol gynradd dwyieithog | Pennaeth<br>Cydlynydd Llythrennedd ,<br>Athrawes Bl 4, Bl6,<br>Cydlynydd Cyfnod Sylfaen,<br>Arweinydd SIY,<br>4 disgybl; | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Canllawiau enghreifftiol ar gyfer ffeil disgyblion Bl ^ a Bl 2; nodiadau o gyfarfod rheolwyr i drafod SIY;<br>Crynodeb o wers SIY;<br>nodiadau cymorth SIY;<br>Taflen geirfa a phatrymau iaith SIY;<br>Adroddiad Canolfan SIY engreifftiol,<br>Targedau a strategaethau addysgu sy'n gysylltiedig â'r asesiad 5 Cam target,<br>Proffiliau disgyblion engreifftiol; |
| **Gwynedd (2)** | Canolfan | Pennaeth, cyn | Arolwg Estyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hwyrddyfodiaid (cynradd) | bennaeth, athrawes.<br><br>Dim disgyblion ar gael | Gwefan yr ysgol<br>Enghraifft o assessiad llafar, ffurflen cofrestru, Ffurflen data disgybl engreifftiol, taflen geirfa a phatrymau iaith wedi ei lamineiddio, canlyniadau asesiadau'r Ganolfan, Lefelau asesiadau yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Genedlaethol, lefelau asesiadau ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r Fframwaith Llythrenedd a Rhifedd; |
| **Gwynedd (3)** | Ysgol uwchradd dwyieithog | Pennaeth<br>Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Cymraeg, 6 disgybl; | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Gwynedd (4)** | Canolfan Hwyrddyfodiaid (uwchradd) | Pennaeth, athrawes<br>3 disgybl; | Estyn Inspection Report,<br>school website,<br>Taflen y Ganolfan, adroddiadau diwedd cwrs enghreifftiol; model o strategaeth ôl-ofal mewn ysgol uwchradd<br>example end of course reports, adroddiad ac argymhellion ar gyfer cefnogi disgybl enghreifftiol, ffurflenni adborth diwedd cwrs ar gyfer disgyblion a rhieni, enghraifft o dasg ysgrifenedig, canlyniadau TGAU enghreifftiol ar gyfer 1 disgybl |
| **Sir Ddinbych** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth<br>(Dim disgyblion na staff eraill ar gael) | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Rhondda Cynnon Taf** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth<br>Athrawes Bl1 sy'n dysgu disgybl CIY sydd hefyd yn Arweinydd y Cyfnod Sylfaen<br><br>Dim disgyblion ar gael | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |
| **Pen-y-Bont** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth<br>Athrawon Bl 1 a 2 (hefyd aelod o'r tim rheoli a chydlynydd PSE). | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dim disgyblion ar gael | |
| **Sir Y Fflint** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Pennaeth Cyfnod Sylfaen, Athrawes derbyn;<br><br>Dim disgyblion ar gael | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Cynllun Addysgu disgybl engreifftiol,<br>Adroddiad plentyn CIY engreifftiol, Proffil Asesu Datblygiad Plentyn Cyfnod Sylfaen,<br>Deillianau Cwricwlwm Cenedlaethol,<br>Llythyron Pwyleg enghreifftiol ,<br>Taflen asesiad dosbarth; |
| **Torfaen** | Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | Athro Blwyddyn 3, Cydlynydd Iaith;<br><br>Dim disgyblion ar gael | Arolwg Estyn<br>Gwefan yr ysgol<br>Siart data SIY GEMS,<br>Siart ieithoedd disgyblion SIY,<br>Data ethnigrwydd MEAG; |
| **Gwent Education Multi-Ethnic Service (GEMS)** | | Cyfarwyddwr ac is-gyfarwyddwr | Cafwyd mynediad i holl ddogfennau, prosesau ac adnoddau ar wefan y consortiwm |

## Atodiad 3 Ffurflen Casglu Data Gwaelodlin ALL CIY 2013

# Ffurflen Casglu Data Gwaelodlin Awdurdodau Lleol ar y Gymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY) 2013

# Welsh as an Additional Language (WAL) Local Authority Base Line Data Collection Form 2013

**Awdurdod Lleol (LlA):**
Local Authority (LA):

**Cydlynydd PLASC:**
PLASC coordinator:

**Swyddog arweiniol SIY/CIY:**
EAL/WAL lead officer:

*Please note, all figures you provide in this data collection form should refer to 2013. This applies to the number of schools, as well as the number of pupils enrolled.*

***Cofiwch sicrhau os gwelwch yn dda fod yr holl ffigyrau a nodwch ar y ffurflen casglu data yma yn cyfeirio at 2013. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ysgolion yn ogystal â niferoedd y digyblion a gofrestrwyd ynddynt.***

*Please answer each of the questions as best you can, using the table formats provided. Where you have difficulty providing the data requested, please explain briefly in the 'comments box'.*

***Atebwch bob cwestiwn orau a allwch, gan ddefnyddio'r fformat tablau isod. Lle cewch anhawster i roi'r data sy'n ofynnol, esboniwch hynny yn fyr yn y blwch 'Sylwadau'.***

*You are welcome to complete the questionnaire in Welsh, English or a combination of both languages.*

***Mae croeso i chi gwblhau'r holiadur yn y Gymraeg, yn Saesneg neu mewn cyfuniad o'r ddwy iaith.***

## ADRAN A / *SECTION A*

**A1: Faint o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog sydd yn ardal eich Awdurdod Lleol chi yn 2013?**

***A1: How many Welsh–medium and bilingual pre-school and primary schools does your Local Authority have in 2013?***

| | **Math o ysgolion oed meithrin ac ysgolion cynradd sy'n rhai cyfrwng Cymraeg neu'n ysgolion dwyieithog** ***Type of Welsh-medium and bilingual pre-school and primary schools*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgolion cyfrwng Cymraeg** ***Welsh – medium schools*** | | **Ysgolion dwyieithog** ***Bilingual schools*** | | | | | |
| | **Cyfrwng Cymraeg** ***Welsh Medium [WM]*** | | **Dwy ffrwd** ***Dual Stream [DS]*** | | **Cyfrwng Cymraeg trosiannol gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg** ***Transitional W-medium with significant use of English [TR]*** | | **Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg)** ***English (with significant Welsh) [EW]*** | |
| | **Cyn-ysgol (3-4 oed)** ***Pre-school (age 3-4)*** | **Cynradd (5-11 oed)** ***Primary (age 5-11)*** | **Cyn-ysgol (3-4 oed)** ***Pre-school (age 3-4)*** | **Cynradd (5-11 oed)** ***Primary (age 5-11)*** | **Cyn-ysgol (3-4 oed)** ***Pre-school (age 3-4)*** | **Cynradd (5-11 oed)** ***Primary (age 5-11)*** | **Cyn-ysgol (3-4 oed)** ***Pre-school (age 3-4)*** | **Cynradd (5-11 oed)** ***Primary (age 5-11)*** |
| **Nifer yr ysgolion** ***Number of schools*** | | | | | | | | |

| **A1: Sylwadau** / ***Comments*** |
|---|
| |

**A1: Nodiadau arweinad / *Guidance Notes***

1.Lle ceir darpariaeth Cyn-ysgol i blant 3-4 oed o fewn ysgol gynradd, cyfrifwch y ddwy ar wahân / *Where Pre-school provision for 3 – 4 year olds is delivered within a primary school, please count both separately.*

2. Rhowch 0 os nad oes ysgol o'r math yma o fewn aradal eich ALl / *Please insert 0 where the type of school does not exist within your LA.*

3. Mathau o ysgolion: Dyma'r diffiniadau a ddefnyddir yn PLASC o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog, a nodir y codau PLASC rhwng cromfachau: / *School types: These are the definitions of Welsh – medium and bilingual primary schools used in PLASC, with PLASC codes in brackets*:

**Cynradd, Cyfrwng Cymraeg [WM] -** yr holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, gydag o leiaf 70% o'r dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
***Welsh-Medium Primary [WM]*** *- all pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning through the medium of Welsh.Welsh is the main teaching medium at Key Stage 2 with at least 70% of the teaching through the medium of Welsh.*

**Dwy ffrwd [DS] –** Darpriaeth gyfrwng Cymraeg fel a ddisgrifir uchod yn cael ei chyflwyno mewn ffrwd ar wahân i ddarpariaeth gyfrwng Saesneg yn bennaf yn yr un ysgol. Tybir mai yn y ffrwd Gymraeg bydd unrhyw ddisgyblion ag anghenion CIY.
***Dual Stream Primary [DS]*** *– Welsh-medium provision as described above is delivered in a separate stream from a mainly English provision which is also available in the same school. It is assumed that pupils with WAL needs will be in the Welsh-medium stream.*

**Cynradd, Drosiannol [TR] –** cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg – Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dygu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Y ddwy iaith yn cael eu defnyddio fel cyfrwng dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ond gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg.
***Transitional Primary [TR]*** *- Welsh-medium with significant use of English - Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of Welsh. Both languages are used in teaching at Key Stage 2 but with greater emphasis on Welsh.*
**Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [EW]** –Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Yng Nghyfnod Allweddol 2 defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu, ond gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng dysgu ar gyfer dysgu rhwng 20% - 50% o'r holl gwricwlwm cynradd.
***English (with significant Welsh) [EW]*** *– Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning in both languages but with greater emphasis on English. In Key Stage 2, both Welsh and English are used in teaching but there is a greater emphasis on English. Welsh is used as a medium of teaching or learning for between 20% and 50% of the primary curriculum overall.*

**A2: Yn ôl data PLASC, mae'r nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd yn eich awdurdod leol chi yn 2013, fel a nodir. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn, nodwch eich sylwadau yn y blwch isod.**

**A2:** ***According to PLASC data, your local authority's number of Welsh–medium and bilingual secondary schools in 2013 is as indicated. If you have any comment to make on these figures, please use the 'comment' box below.***

| | **Mathau o ysgolion uwchradd sy'n rhai cyfrwng Cymraeg neu'n ysgolion dwyieithog yn 2013** *Type of Welsh-medium and bilingual secondary schools (age 11 – 19) in 2013* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfrwng Cymraeg** *Welsh – medium* | **Dwyieithog** *Bilingual* | | | | |
| | **Cyfrwng Cymraeg** *Welsh Medium [WM]* | **A Dwyieithog** *A Bilingual* [AB] | **B Dwyieithog** *B Bilingual* [BB] | **C Dwyieithog** *C Bilingual* [CB] | **Ch Dwyieithog** *Ch Bilingual* [CH] | **Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg)** *English (with significant Welsh) [EW]* |
| **Nifer yr ysgolion** *Number of schools* | 6 | 3 | 1 | 0 | 3 | 1 |

| **A2 Sylwadau** / *Comments* |
|---|
| |

**A2: Nodiadau arweiniad** / ***Guidance Notes***

1. **Mathau o ysgolion**: Dyma'r diffiniadau a ddefnyddir yn PLASC o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog, a nodir y codau PLASC rhwng cromfachau: / *School types: These are the definitions of Welsh – medium and bilingual secondary schools used in PLASC, with PLASC codes in brackets*:

**Cyfrwng Cymraeg [WM]**– Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg
***Welsh Medium [WM]** – Welsh-Medium Secondary School*
**A Dwyieithog [AB]**– Ysgol Uwchradd Ddywieithog Categori 2A - o leiaf 80% o'r pynciau ar wahân i Saesneg a Chymraeg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i'r holl ddisgyblion. Dysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg neu yn y ddwy iaith
***A Bilingual [AB]** – Bilingual Secondary School Category 2A – At least 80% of subjects apart from English and Welsh are taught only through the medium of Welsh to all pupils. One or two subjects are taught to some pupils in English or both languages.*

**B Dwyieithog [BB]**- Ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2B – O leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Cymraeg a Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. ***B Bilingual [BB]** – Bilingual Secondary School Category 2B – At least 80% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.*

**C Dwyieithog [CB]**- Ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2C – 50% - 70% o'r pynciau (heblaw Cymraeg a Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. ***C Bilingual [CB]** – Bilingual Secondary School Category 2C – 50-70% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.*

**Ch Dwyieithog [CH]**- Ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2Ch – pob pwnc heblaw Cymraeg a Saesneg yn cael ei ddysgu i'r holl disgyblion gan ddefnyddio'r ddwy iaith.
***Ch Bilingual [CH]** – Bilingual Secondary School category 2Ch – all subjects, except Welsh and English, taught to all pupils using both languages.*

**Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [EW]**– ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg; 20 – 40% o'r pynciau yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar sail ddewisol. ***English (with significant Welsh) [EM]** – Predominantly English medium secondary school with significant use of Welsh: 20-49% of subjects are taught through the medium of Welsh as an option.*

**A3: Wrth ystyried yn awr niferoedd y disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog ac sydd ag anghenion am gefnogaeth i'w Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY), nodwch y niferoedd perthnasol o ysgolion ym mhob categori o nifer disgyblion.**
